


**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Adolygiad o'r flwyddyn

Adroddiad blynyddol a datganiad o gyfrifon
2010–2011

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

www.cynulliadcymru.org
gwybodaeth@cymru.gov.uk
archebu@cymru.gov.uk
T 0845 010 5500

Cymerwch ran ar Facebook, YouTube, Twitter a Flickr.

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Cynnwys


01_Rhagair gan y Llywydd 05

02_Cyflwyniad gan y Prif Weithredwr 09

03_Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chomisiwn y Cynulliad 13

04_Cynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl 21

05_Deddfu ar gyfer Cymru 31

06_Dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif 37

07_Digwyddiadau a dyddiadau eraill o bwys 51

08_Datganiad o'r cyfrifon 57



Adran 01–

# Rhagair gan y Llywydd

## Rhagair gan y Llywydd

Os oes un ffactor dylanwadol a fydd yn llywio cyfeiriad strategol y Pedwerydd Cynulliad, rhaid mai'r bleidlais 'ie' yn y refferendwm fis Mawrth yw hwnnw, sy'n rhoi mwy o bwerau i'r Cynulliad ddeddfu. Hoffwn dalu teyrnged i waith fy rhagflaenydd, yr Arglwydd Elis-Thomas PC AC, am helpu i gyflawni hyn.

Fel Llywydd, arweiniodd y Cynulliad drwy flynyddoedd ffurfiannol y tri Chynulliad Cenedlaethol cyntaf. Mae ei weledigaeth wedi dylanwadu'n uniongyrchol ar y tirlun gwleidyddol a welwn heddiw, gan arwain ar sicrhau bod y system cymorth ariannol i Aelodau Cynuliad yn un agored a thryloyw drwy ddiwygio ein Rheolau Sefydlog ac, efallai'n bwysicach na dim, drwy ledaenu'r neges i bob cymuned ledled Cymru mai eu Cynulliad hwy ydyw, a bod ganddynt lais yn y ffordd y mae'n cyflawni ei rolau deddfwriaethol a chraffu.

Fy mraint i felly yw symud y Cynulliad yn ei flaen fel bod pobl yn ei weld fel grym dylanwadol dros newid ar draws Cymru.

Cyflawnir hyn drwy gyfleu'r neges honno ledled Cymru a bwriadaf sicrhau y bydd hynny'n un o fy mhrif orchwylion dros y pum mlynedd nesaf.

Rwyf am i'r Pedwerydd Cynulliad ryngweithio'n uniongyrchol gyda chymunedau ledled y wlad. Ni fydd hynny'n gyfyngedig i gymunedau daearyddol, gan y bydd yn cynnwys yr holl grwpiau diwylliannol, budd a demograffig. Ni ddylai unrhyw un yng Nghymru deimlo nad oes neb yn gwrando.

Byddaf yn rhoi blaenoriaeth i sicrhau bod pobl Cymru'n deall y Cynulliad a'r gwaith a wnawn. Pa un a yw'n fater sy'n effeithio ar eu tref, pentref neu grŵp cymunedol, rwyf am i bobl wybod fy mod i, a fy nghyd Aelodau Cynulliad, yma i'w cynrychioli ac i roi cyfle iddynt ddweud eu dweud am y pethau sy'n cyfrif.

Bydd newidiadau i'n Rheolau Sefydlog yn golygu y bydd Aelodau'r Cynulliad yn gallu ymateb yn well i anghenion pobl Cymru; bydd ymrwymiad i gyfathrebu effeithiol yn helpu dinasyddion Cymru i wybod sut yr ydym yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif ac yn deddfu ar gyfer Cymru.

Gwn fy mod yn siarad ar ran Aelodau eraill drwy ddweud fy mod yn edrych ymlaen at weithio gydag unigolion a grwpiau ledled y wlad i helpu i greu Cymru decach a mwy cyfartal.

**Rosemary Butler AC**
**Llywydd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**



Adran 02–

# Cyflwyniad gan y Prif Weithredwr

## Cyflwyniad gan y Prif Weithredwr

Mae hon wedi bod yn flwyddyn bwysig arall i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Bydd y bleidlais 'ie' yn y refferendwm ar roi mwy o bwerau deddfu i'r Cynulliad, a llawer o waith Comisiwn y Cynulliad dros y flwyddyn, gan gynnwys rhaglenni i wella dealltwriaeth y cyhoedd o waith y Cynulliad, yn llywio cyfeiriad y Cynulliad i'r dyfodol.

Roedd penodi'r **Bwrdd Taliadau** annibynnol ym mis Medi 2010 yn tanlinellu ymrwymiad y Cynulliad i fod yn agored wrth wario arian cyhoeddus. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am bennu cyflogau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad a lluniodd ei adroddiad cyntaf, **Addas i'r Diben**, a'i Benderfyniad cysylltiedig ym mis Mawrth 2011. Bwriad y rhain fydd rhoi'r lefelau iawn o gymorth i Aelodau er mwyn eu galluogi i fod yn effeithiol wrth gyflawni eu swyddogaethau craidd o graffu ar Lywodraeth Cymru, deddfu a chynrychioli eu hetholwyr. Maent hefyd yn adlewyrchu cyllidebau tynn y sector cyhoeddus a'r lefelau cyflog cyfartalog ledled Cymru.

Roedd adolygiad o wariant Llywodraeth y DU ym mis Medi 2010 yn nodi cynlluniau i fynd i'r afael â diffyg cyllid strwythurol y DU, gan gynnwys gostyngiadau gwirioneddol mewn gwariant cyhoeddus dros y pedair blynedd nesaf. Roedd yr effaith ddilynol ar y cyllid a ddaw i Gymru (y gyllideb floc) yn awgrymu gostyngiad o tua 11 y cant erbyn 2014–15. Cytunodd y Comisiwn ar strategaeth gyllideb i adlewyrchu'r newidiadau canrannol yn ei gyllideb ei hun, sy'n berthnasol i floc Cymru ac, yn 2011–12, cyflwynodd ostyngiad mewn termau real o £1.7 miliwn (5.4 y cant) yn ei gyllideb ar gyfer gwasanaethau'r Cynulliad. Roedd hyn bron un y cant yn uwch na'r gostyngiad a amcangyfrifwyd ym mloc Cymru ar y pryd. Cafodd y gyllideb ar gyfer tâl a lwfansau Aelodau ei ostwng £0.6 miliwn (4.4 y cant) mewn termau real, er bod cydnabyddiaeth y bydd cyllidebau ar gyfer tâl a lwfansau Aelodau yn y dyfodol yn cael eu cysylltu'n uniongyrchol â phenderfyniadau a wneir gan y Bwrdd Taliadau Annibynnol. Ein nod yw sicrhau mwy o effeithlonrwydd ym mhob un o wasanaethau'r Cynulliad, gan sicrhau, ar yr un pryd, bod gwaith craidd y Cynulliad – o gynrychioli buddiannau pobl Cymru, deddfu ar gyfer Cymru a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif, yn cael cefnogaeth effeithiol.

Ym mis Mawrth 2011, gofynnwyd i bobl Cymru bleidleisio yn y refferendwm ar a ddylai fod gan eu deddfwrfa bwerau deddfu llawn ym mhob un o'r meysydd sydd wedi cael eu datganoli i Gymru. Roedd y canlyniad yn glir iawn o blaid hynny. Roedd yn dangos y ffydd sydd gan bobl Cymru yn y sefydliad ac yn ein parodrwydd i dderbyn mwy o bwerau deddfu. Mae gennyf bob ffydd y byddwn yn awr yn gafael yn y sialensau a gyflwynir ac y byddwn yn mynd o nerth i nerth.

Dangoswyd ein hymrwymiad i wella dealltwriaeth pobl o waith y Cynulliad yn glir yn yr ymgyrch ar gyfer Pleidlais 2011, a ddyfeisiwyd i godi ymwybyddiaeth pobl o etholiad y Cynulliad, y refferendwm ar bwerau'r Cynulliad i'r dyfodol ac o refferendwm San Steffan ar y system pleidleisio amgen. Roedd yr ymgyrch wedi'i hyrwyddo gan ein staff allgymorth, drwy fideos ar wefannau rhwydweithio cymdeithasol y Cynulliad, ymgyrch hysbysebu ar-lein yn targedu pobl rhwng 18 a 35 oed ac ymgyrch aml-lwyfan ar gyswllt â'r cyfryngau yn defnyddio'r cyfryngau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Oherwydd ei bod yn flwyddyn etholiad, a gan bod y Cynulliad wedi ei ddiddymu'n ffurfiol am y tro cyntaf ddiwedd Mawrth 2011, penderfynwyd buddsoddi cryn ymdrech mewn paratoi ar gyfer trosglwyddo i'r Pedwerydd Cynulliad, i sicrhau bod gan Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth yr holl gyfleusterau, gwybodaeth a'r cyngor oedd ei angen arnynt i gyflawni eu rolau newydd. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno rhaglen gynefino a datblygiad proffesiynol parhaus newydd a thrylwyr ar gyfer yr Aelodau a'r staff cymorth.

Mae gweithdrefnau ffurfiol y Cynulliad ar gyfer craffu ar Lywodraeth, cyllid a deddfwriaeth yn allweddol i ddarparu pwrpas strategol y Cynulliad yn effeithiol. Ym misoedd olaf y Trydydd Cynulliad, cafodd y rheolau gweithdrefnol — y Rheolau Sefydlog — eu hailwampio'n llwyr. O ganlyniad, mae gan Aelodau'r Pedwerydd Cynulliad gyfres o weithdrefnau sy'n adlewyrchu cynseiliau a chonfensiynau'r Cynulliadau blaenorol ond sy'n fwy hyblyg ac sy'n rhoi mwy o gyfle i Aelodau unigol fedru dylanwadu ar fusnes ffurfiol y Cynulliad.

Mae newid allweddol a wnaed i weithdrefnau yn golygu bod gan y Cynulliad yr hyblygrwydd i ddyfeisio system bwyllgorau sy'n addas i'w flaenoriaethau strategol. Bydd cefnogi ac arfogi'r Aelodau i wneud y defnydd gorau o'r strwythurau a'r gweithdrefnau newydd hyn yn eu rolau o gynrychioli pobl Cymru, deddfu ar gyfer Cymru a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif, yn elfennau hanfodol o waith y Comisiwn dros y pum mlynedd nesaf.

**Claire Clancy**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad**



Adran 03–

## Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chomisiwn y Cynulliad

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chomisiwn y Cynulliad

**Pwy ydym a beth a wnawn**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**Aelodau'r Cynulliad**
Mae'r Cynulliad yn cynnwys 60 o Aelodau etholedig o'r Cynulliad, pob un ohonynt yn cynrychioli ardal benodol o Gymru fel aelod o blaid neilltuol (y Ceidwadwyr Cymreig, Llafur Cymru, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru a Phlaid Cymru) neu fel aelod annibynnol.

**Comisiwn y Cynulliad Cenedlaethol**
Sefydlwyd Comisiwn y Cynulliad ym mis Mai 2007 i sicrhau bod gan y Cynulliad yr eiddo, y staff a'r gwasanaethau sydd eu hangen arno i gyflawni ei rôl yn effeithiol ac effeithlon.

Corff corfforaethol y Cynulliad yw'r Comisiwn, ac mae'n pennu ei nodau a'i amcanion strategol, ei safonau a'i werthoedd, mae'n ystyried ei berfformiad o ran yr hyn y mae'n ei ddarparu, yn goruchwylio newid ac yn annog arloesi a menter ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae Comisiwn y Cynulliad yn cynnwys y Llywydd a phedwar arall o Aelodau'r Cynulliad, un wedi'i enwebu o bob un o'r pedair plaid. Mae'r pump Comisiynydd yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol am swyddogaethau'r Comisiwn. I helpu gyda darparu'r swyddogaethau hyn, mae'r Comisiynwyr yn gyfrifol am bortffolios trawsbynciol. Mae mwy o wybodaeth am hyn ar **dudalennau'r Comisiwn** ar y wefan.

**Strategaeth y Comisiwn**
Yn ystod y Trydydd Cynulliad, roedd y Comisiwn yn ceisio:
– annog y cyhoedd i gyfrannu mwy at y broses ddemocrataidd;
– bod yn feiddgar wrth ymateb i newidiadau cyfansoddiadol;
– dangos gonestrwydd, parch a llywodraethu da yn ein gwaith;
– gweithio'n gynaliadwy;
– cynnig y gwasanaeth gorau yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Bydd y Comisiwn newydd yn cytuno ar strategaeth newydd ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad a fydd yn adlewyrchu Cymru'n well, o ran y tirlun gwleidyddol, cyfansoddiadol ac economaidd newydd.

## Meysydd cyfrifoldeb y Comisiynwyr

Mae'r Comisiynwyr yn gorfforaethol gyfrifol am arfer y swyddogaethau a roddwyd i'r Comisiwn, am lywodraethu'r sefydliad ac, yn unol â hynny, am weithredu er budd y Cynulliad yn gyffredinol.

Ar gyfer y Trydydd Cynulliad, roedd cyfrifoldebau'r Comisiwn wedi eu rhannu yn bortffolios gwahanol. Mae'r arfer hwn yn parhau ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad. Mae gan bob Comisiynydd gyfrifoldeb unigol dros faes gwaith penodol. Mae'r meysydd portffolio hyn yn rhai trawsbynciol a strategol, fel bod y Comisiynwyr yn gallu gweithio ar draws amrywiaeth o wasanaethau.

## Y Comisiynwyr



### Rosemary Butler AC

**Rosemary Butler yw'r Llywydd a Chadeirydd y Comisiwn, gyda chyfrifoldeb dros y Gwasanaethau Cyfreithiol.**

Etholwyd Rosemary Butler i'r Cynulliad am y tro cyntaf ym mis Mai 1999 ac mae wedi cael ei hailethol ym mhob etholiad Cynulliad ers hynny. Cafodd ei phenodi i Gabinet y Cynulliad Cenedlaethol cyntaf yn Weinidog dros Addysg cyn-16 a Phlant a bu'n Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon. Roedd hefyd yn gynrychiolydd y Cynulliad ar Bwyllgor y Rhanbarthau yn yr Undeb Ewropeaidd. Mae hefyd wedi bod yn Ddirprwy Lywydd, yn Gadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1 y Cynulliad (a oedd yn craffu ar holl gynigion y meinciau cefn i gyflwyno Mesurau) a bu'n gwasanaethu ar grŵp trawsbleidiol y Cyngor Prydeinig. Ym mis Mai 2011, cafodd Rosemary ei hethol yn Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol gan bleidlais unfrydol o Aelodau'r Cynulliad.



### Sandy Mewies AC

**Sandy Mewies yw'r Comisiynydd sy'n gyfrifol am wasanaethau addysg, cyswllt cyntaf, arlwyo a diogelwch. Mae hefyd yn gyfrifol am swyddogaethau statudol y Comisiwn mewn perthynas â chydraddoldeb a rhyddid gwybodaeth.**

Etholwyd Sandy Mewies i'r Cynulliad am y tro cyntaf ym mis Mai 2003 a'i hailethol yn 2007 a 2011. Mae wedi bod yn Gadeirydd Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol a Phwyllgor Cymunedau a Diwylliant y Cynulliad. Mae hefyd wedi gwasanaethu ar y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, y Pwyllgor Cynllunio a Chefn Gwlad a Phwyllgor Rhanbarth y Gogledd. Mae prif ddiddordebau gwleidyddol Sandy yn cynnwys cyfiawnder cymdeithasol, cynhwysiant cymunedol, iechyd ac addysg.



## Angela Burns AC

**Angela Burns yw'r Comisiynydd sy'n gyfrifol am y gyllideb, llywodraethu (gan gynnwys aelodaeth y Pwyllgor Archwilio) a chysylltiadau â'r Bwrdd Taliadau. Mae hefyd yn gyfrifol am wella gwasanaethau i Aelodau, cymorth cyflogaeth a datblygu proffesiynol ar gyfer Aelodau a'u staff.**

Etholwyd Angela Burns i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am y tro cyntaf ym mis Mai 2007. Bu'n gwasanaethu fel Gweinidog yr Wrthblaid dros yr Amgylchedd a Chynllunio ac mae hefyd wedi bod yn Weinidog yr Wrthblaid dros Gyllid, yn Weinidog yr Wrthblaid dros Drafnidiaeth ac Adfywio ac yn Gadeirydd Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol. Mae diddordebau gwleidyddol Angela'n cynnwys yr economi, iechyd, ysgolion a'r gymuned wledig.



## Rhodri Glyn Thomas AC

**Rhodri Glyn Thomas yw'r Comisiynydd sy'n gyfrifol am ymgysylltu a chyfathrebu â'r dinesydd ac allgymorth cenedlaethol a rhyngwladol. Mae hefyd yn gyfrifol am swyddogaethau a pholisi'r Comisiwn mewn perthynas â'r Gymraeg.**

Etholwyd Rhodri Glyn Thomas i'r Cynulliad am y tro cyntaf ym mis Mai 1999. Mae ei ddiddordebau gwleidyddol yn cynnwys amaethyddiaeth a'r economi wledig, Ewrop, a materion cymdeithasol a thrafnidiaeth. Pan ffurfiodd Blaid Cymru lywodraeth glymblaid gyda Llafur Cymru ym mis Gorffennaf 2007, penodwyd Rhodri yn Weinidog dros Dreftadaeth cyn ymddiswyddo o'r rôl honno yn 2008. Ar ôl ymddiswyddo o'r rôl honno, bu'n gwasanaethu fel Cadeirydd yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig a bu'n aelod o'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol a'r Pwyllgor Cynaliadwyedd.



## Peter Black AC

**Peter Black yw'r Comisiynydd sy'n gyfrifol am TGCh, darlledu ac e-ddemocratiaeth, ystad y Cynulliad, cyfleusterau a chynaliadwyedd. Mae hefyd yn gyfrifol am y Comisiwn fel cyflogwr staff y Cynulliad.**

Mae Peter Black wedi bod yn Aelod o'r Cynulliad dros Dde Orllewin Cymru ar ran Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ers 1999. Mae'n un o'r Cynghorwyr mwyaf blaenllaw ar Gyngor Abertawe ac wedi cynrychioli Ward Cwmbwrla ers 1984. Mae'n gyn Arweinydd yr Wrthblaid yn Ninas a Sir Abertawe ac mae wedi gwasanaethu fel Cadeirydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru. Mae diddordebau gwleidyddol Peter yn cynnwys technolegau digidol, tai, llywodraeth leol a chyfiawnder cymdeithasol. Yn y Cynulliad Peter yw Rheolwr Busnes grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru.

Nid yw David Melding, fel Dirprwy Lywydd, yn aelod ffurfiol o'r Comisiwn, ond mae'n cefnogi'r Comisiwn drwy ganolbwyntio ar y Pierhead fel canolfan datblygu a thrafod y Cynulliad a meithrin cysylltiadau â Chanolfan Llywodraethiant Cymru a chyrff eraill sy'n berthnasol i'r rôl hon.

## Bwrdd Rheoli'r Cynulliad Cenedlaethol

**Claire Clancy**
Prif Weithredwr
a Chlerc y Cynulliad

### Y Gyfarwyddiaeth Gweithrediadau

**Dianne Bevan**
Prif Swyddog Gweithredu

**Connie Cockburn**
Pennaeth Ystadau a TGCh

**Steven O'Donoghue**
Pennaeth Adnoddau'r Cynulliad

**Non Gwilym**
Pennaeth Cyfathrebu

### Cyfarwyddiaeth Busnes y Cynulliad

**Adrian Crompton**
Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad

**Sulafa Halstead**
Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad

**Mair Parry-Jones**
Pennaeth y Gwasanaeth
Cyfieithu a Chofnodi

**Kathryn Potter**
Pennaeth y Gwasanaeth Ymchwil

**Sian Wilkins**
Pennaeth Gwasanaethau'r
Siambr a Deddfwriaeth

### Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cyfreithiol

**Keith Bush**
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau
Cyfreithiol

**Craig Stephenson**
Pennaeth Gwasanaeth Cymorth
y Comisiwn a'r Aelodau

## Cynghorwyr annibynnol i'r Comisiwn

**Mair Barnes CBE**
Mae Mair Barnes yn dal nifer o gyfarwyddiaethau anweithredol ac mae'n gyn-gadeirydd ar Vantios plc a Rheolwr Gyfarwyddwr ar Woolworths plc. Mae wedi dal cyfarwyddiaethau anweithredol yn yr Adran Masnach a Diwydiant ac yn Swyddfa'r Cabinet.

**Richard Calvert**
Ail-ymunodd Richard Calvert â'r Adran Datblygu Rhyngwladol ym mis Awst 2009 fel Cyfarwyddwr Cyffredinol dros Gyllid a Pherfformiad Corfforaethol ar ôl dwy flynedd a hanner gyda'r Asiantaeth Safonau Bwyd, lle roedd yn Gyfarwyddwr Strategaeth ac Adnoddau. Rôl ddiwethaf Richard yn yr Adran Datblygu Rhyngwladol, cyn symud at yr Asiantaeth Safonau Bwyd, oedd fel Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad Corfforaethol. Mae Richard yn Gyfrifydd Rheoli cymwysedig ac mae wedi dal nifer o swyddi anweithredol yn y sector cyhoeddus.

**Tim Knighton**
Ar hyn o bryd mae Tim Knighton yn Gyfarwyddwr Darparu Atebion Busnes yn Nhŷ'r Cwmnïau. Cyn ymuno â Thŷ'r Cwmnïau yn 2007 fel Cyfarwyddwr Cyllid, treuliodd Tim ddeng mlynedd gyda Tesco plc mewn amryw o wahanol swyddi cyllid, a chyn gadael roedd yn gyfrifol am yr ochr cydwasanaethau yn y DU. Cyn hyn roedd yn Gyfarwyddwr Gweithredol gyda Goldman Sachs yn Is-adran Marchnadoedd Cyfalaf y cwmni.

**Yr Athro Robert Pickard**
Mae'r Athro Robert Pickard yn rhoi cyngor gwyddonol i amrywiaeth eang o sefydliadau. Yn flaenorol mae wedi bod yn gadeirydd ar Gymdeithas y Defnyddwyr, Which? ac yn Gyfarwyddwr Cyffredinol ar Sefydliad Maetheg Prydain. Ar hyn o bryd mae'n gadeirydd ar y Pwyllgor ar Reoli Gwastraff Ymbelydrol yn yr Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd.


AGORWYD GAN EI MAWRHYDI
OPENED BY HER MAJESTY THE

Adran 04–

# Cynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl

## Cynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl

Mae'r flwyddyn ariannol a aeth heibio wedi gweld dau ardystiad pwysig iawn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Daeth y cyntaf ym mis Tachwedd 2010 pan bleidleisiodd pob un o'r 60 Aelod Cynulliad dros y Gorchymyn a sefydlodd y refferendwm ar bwerau deddfu Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Pennodd y Gorchymyn ddyddiad y bleidlais ar gyfer 3 Mawrth 2011 a hefyd y cwestiwn y byddai pleidleiswyr yn ei weld ar y papur pleidleisio.

Daeth yr ail ardystiad ar ffurf y bleidlais 'ie' bendant iawn o ganlyniad i'r refferendwm ar roi pwerau deddfu ychwanegol i'r Cynulliad ym mis Mawrth 2011.

Roedd y ddau ganlyniad yn tystio i'r gwasanaeth proffesiynol o ansawdd uchel a ddarperir gan y Cynulliad, ac yn adlewyrchu'r ffydd sydd gan y cynrychiolwyr etholedig a phobl Cymru yng ngallu'r Cynulliad i gyflawni'r dyletswyddau sy'n gysylltiedig â deddfwriaeth ar ei phrifiant.

Drwy'r flwyddyn, bu'r Cynulliad yn gweithredu nifer o raglenni i hybu dealltwriaeth pobl o waith y Cynulliad, ac yn eu hannog i gyfrannu at y broses ddemocrataidd, tra'n gweithio i sicrhau bod buddiannau pobl Cymru yn cael eu hadlewyrchu ym mhob agwedd ar waith y Cynulliad. Dyma rai uchafbwyntiau o'r flwyddyn.

## Mai 2010

Cynhaliwyd adolygiad annibynnol o'r ffyrdd dwyieithog y mae'r Cynulliad yn gweithio.

O dan gadeiryddiaeth Arwel Elis Owen, cyflwynodd y panel annibynnol adroddiad ar ddyfodol y gwasanaethau dwyieithog yn y Cynulliad.

Roedd y panel yn argymell y dylid cyhoeddi testun gair am air o Gofnod y Trafodion yn yr iaith neu'r ieithoedd a siaradwyd yn wreiddiol, ynghyd â chofnod o'r cyfieithu Cymraeg i Saesneg yr un pryd, fel a glywyd yn ystod trafodion y Cynulliad.

Roedd y panel hefyd yn argymell mai Senedd.tv ddylai fod yn brif gofnod cynhwysfawr a oedd i'w gadw ar gyfer ymchwilwyr a haneswyr i'r dyfodol.

Yn ogystal, dywedodd aelodau o'r panel y byddent yn hoffi gweld mwy o adnoddau'n cael eu targedu at wella dealltwriaeth a chyfranogiad pobl yn gyffredinol, ac at fesurau ymarferol i wneud mwy o ddefnydd o ddydd i ddydd o'r Gymraeg yn y Cynulliad.

Derbyniodd Comisiwn y Cynulliad yr argymhellion ac ymrwymodd y Cynulliad i greu Cofnod mwy dinesydd-gyfeillgar a hygyrch o'r Trafodion, er mwyn gweithio tuag at ei amcan o fod yn gorff gwirioneddol ddwyieithog.

Cyhoeddodd y Cynulliad ei fod am adolygu ei Reolau Sefydlog, sef y rheolau sy'n llywodraethu pob agwedd ar fusnes y Cynulliad – ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad.

Mae Rheolau Sefydlog yn ymdrin, er enghraifft, â threfniadaeth busnes yn y Cyfarfod Llawn, fel faint o amser y gellir ei roi i fusnes y llywodraeth ac i'r gwrthbleidiau; sut y dylai Aelodau ofyn cwestiynau i Weinidogion; y broses ddeddfwriaethol a sut y mae Gweinidogion yn cyflawni eu rôl graffu mewn pwyllgorau.

Nod yr adolygiad oedd gwneud y Rheolau Sefydlog yn fwy eglur a hwyluso arloesi neu welliannau, yn ogystal â helpu pobl Cymru i ddeall yn well sut y mae'r Cynulliad yn cyflawni ei fusnes, a sut y medrant ddylanwadu ar ein gwaith.

Estynnodd y Llywydd groeso i'r Gwir Anrhydeddus David Cameron AS i'r Cynulliad ar ei ymweliad cyntaf fel Prif Weinidog y Deyrnas Unedig.

Siaradodd y Prif Weinidog am ymrwymiad llywodraeth y DU i'r 'agenda o barch' a'i ymlyniad cadarn i lwyddiant parhaus datganoli.

Ail-gadarnhaodd y byddai ef a'i uwch Weinidogion yn y Trysorlys yn barod i ddod gerbron y Cynulliad a'i bwyllgorau i ateb cwestiynau.

## Mehefin 2010

Cynigiodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad ei ymgeisydd dewisol i fod yn Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Dewiswyd Huw Vaughan Thomas, cyn Brif Weithredwr ar Gyngor Sir Ddinbych a Chyngor Gwynedd, ac mewn Cyfarfod Llawn ym mis Gorffennaf, cymeradwyodd y Cynulliad yr enwebiad i'r Frenhines i'w benodi yn Archwilydd Cyffredinol Cymru.

## Gorffennaf 2010

Yn dilyn urddasoli'r Arglwydd German, cymerodd Veronica German AC, ei llw fel Aelod Cynulliad newydd ar gyfer Dwyrain De Cymru.

## Awst 2010

Siaradodd y Llywydd gyda phobl ifanc yn sioeau'r haf a chafodd wybod mai ymgysylltu digidol fyddai'r ffordd o'u cael i bleidleisio yn 2011.

Cyfrannodd yr Arglwydd Elis-Thomas AC at drafodaethau yn Sioe Frenhinol Cymru, yr Eisteddfod a'r Urdd i wrando ar farn pobl ifanc am y pethau sy'n eu hatal rhag pleidleisio ac am sut y gallai sefydliadau gwleidyddol gysylltu â hwy'n well.

Aeth Bws Allgymorth y Cynulliad hefyd ar ymweliad â phrif sioeau'r haf, a rhai o'r sioeau lleol llai, i gyflwyno a hyrwyddo'r thema 'Pleidleisiwch 2011', yn barod am y refferendwm a'r etholiad yn 2011.

Dechreuodd Bow Tie Television weithio fel prif ddarlledwr y Cynulliad. Rhoddwyd sgriniau fideo newydd yn orielau cyhoeddus y Senedd er mwyn gallu dilyn y trafodion yn well.

Rhoddwyd sgriniau newydd yn y podiau gwybodaeth cyhoeddus hefyd a chafodd cynnwys amlgyfrwng newydd ei ddatblygu i wella profiadau ymwelwyr.

## Medi 2010

Mewn cam pwysig pellach i sicrhau bod systemau cadarn ac annibynnol yn eu lle i benderfynu faint y dylid ei dalu i Aelodau'r Cynulliad yng Nghymru, cyhoeddodd Comisiwn y Cynulliad y byddai Cadeirydd ac aelodau o Fwrdd Taliadau'r Cynulliad Cenedlaethol yn cael eu penodi i fod yn gyfrifol am bennu cyflogau a lwfansau'r Aelodau.

Mae'r Bwrdd Taliadau Annibynnol yn gyfrifol am sicrhau bod gan Aelodau'r Cynulliad adnoddau teg a phriodol i wneud eu gwaith hollbwysig o gynrychioli pobl Cymru, deddfu ar gyfer Cymru a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif. Wrth sefydlu'r Bwrdd newydd hwn, daeth yr arfer lle roedd Aelodau'r Cynulliad yn penderfynu ar eu cyflogau a'u treuliau eu hunain i ben.

Roedd sefydlu'r Bwrdd yn un o 108 o argymhellion a wnaed gan y Panel Adolygu Annibynnol ar Gyflogau a Lwfansau Aelodau'r Cynulliad yn ei adroddiad ym mis Gorffennaf 2009.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys y Cadeirydd, y Gwir Anrhydeddus George Reid – gwleidydd, newyddiadurwr ac academydd o'r Alban; a phedwar aelod: Yr Athro Monojit Chatterji, academydd gyda phrofiad helaeth ym maes polisi cyhoeddus; Stuart Castledine, cyfrifydd siartredig; Mary Carter, cyn bartner gyda KPMG; a Sandy Blair CBE, cyn Gyfarwyddwr ar Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

## Hydref 2010

Cyflwynwyd Cofnod Cryno newydd o'r Trafodion. Mae'r Cofnod Cryno newydd yn cynnig dull mwy cwsmer-gyfeillgar o gael mynediad at drafodion y Cynulliad. Roedd ei gyflwyno un o argymhellion y panel annibynnol ar wasanaethau dwyieithog.

Cymerodd y Cynulliad y camau cychwynnol yn yr ymgyrch 'Pleidleisiwch 2011', gan annog pobl i gofrestru i bleidleisio a chynnig y Cynulliad fel ffynhonnell awdurdodol a diduedd o wybodaeth am y setliad datganoli presennol ac unrhyw newidiadau i'r dyfodol.

Dechreuodd Tîm Allgymorth y Cynulliad ymweld â Ffeiriau'r Glas ym mhrifysgolion Cymru i roi gwybod i bobl ifanc am y tri chyfle a fyddai ganddynt i bleidleisio yn 2011 a chychwynnodd y Bws Allgymorth ar ei daith o gwmpas y 22 ardal awdurdod lleol yng Nghymru.

Ymwelodd nifer o bobl bwysig iawn â'r Cynulliad, gan gynnwys y Gwir Anrhydeddus Nick Clegg AS, Dirprwy Brif Weinidog Llywodraeth y DU, José Manuel Barroso, Llywydd y Comisiwn Ewropeaidd, pedwar Aelod o Senedd Ewrop, a Brenhines Lesotho.

Dewiswyd Gerard Elias Cwnsler y Frenhines, yn Gomisiynydd Safonau annibynnol newydd ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae'r Comisiynydd yn cael ei benodi'n annibynnol gan y Cynulliad i gynnig cyngor a chymorth ar unrhyw fater o egwyddor sy'n ymwneud ag ymddygiad Aelodau'r Cynulliad.

Sefydlwyd y swydd annibynnol newydd hon gan Fesur Comisiynydd Safonau'r Cynulliad a gymeradwywyd gan Aelodau'r Cynulliad yn 2009.

Mae'r ddeddf newydd:

– yn sicrhau bod y Comisiynydd yn annibynnol ar y Cynulliad ac felly'n gallu gweithredu'n gwbl wrthrychol wrth ymchwilio i gwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad;
– yn rhoi pwerau cryf newydd i'r Comisiynydd, tebyg i'r rhai mewn llys barn, i ymchwilio i gwynion yn drylwyr, ac;
– yn gwneud y Comisiynydd yn gyfrifol am hybu safonau ymddygiad uchel ym mywyd cyhoeddus yr Aelodau Cynulliad.

## Tachwedd 2010

Cytunodd bob un o Aelodau'r Cynulliad yn unfrydol i'r Gorchymyn a sefydlodd y refferendwm ar bwerau deddfu Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Pennodd y Gorchymyn ddyddiad y refferendwm ar gyfer 03 Mawrth 2011 a hefyd y cwestiwn y byddai pleidleiswyr yn ei weld ar y papur pleidleisio.

Roedd hefyd yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer cynnal y refferendwm a rheolau'r ymgyrch – gan gynnwys faint oedd yr ymgyrchoedd 'Ie' a 'Na' penodedig, a chyfranogwyr swyddogol eraill, yn cael ei wario.

Pasiwyd y Gorchymyn gan San Steffan yn ddiweddarach y mis hwnnw.

Cychwynnodd y Llywydd ar gam cyntaf ei daith o amgylch Cymru i annog pobl i bleidleisio yn 2011. Fel rhan o'r daith allgymorth o gwmpas y 22 o ardaloedd awdurdod lleol, bu'n ymweld ag ardaloedd ym mhob cwr o Gymru dros gyfnod o sawl mis.

Roedd yn rhan o ymgyrch ehangach 'Pleidleisiwch 2011' y Cynulliad i roi gwybodaeth wrthrychol amhleidiol i bleidleiswyr Cymru am y tair pleidlais fyddai'n eu hwynebu yn yr orsaf bleidleisio.

Bu'r Gymdeithas Hansard a'r Cynulliad yn gweithio mewn partneriaeth i gynnal digwyddiad yn trafod y rhywiau a datganoli.

Edrychodd y digwyddiad ar ganlyniadau etholiad 2007 a thrafodwyd eu goblygiadau ar gyfer etholiad y Cynulliad yn 2011.

Edrychodd ar y cynnydd a wnaed o ran gwella cynrychiolaeth ymhlith menywod ers datganoli, pa rwystrau sy'n bygwth y cynnydd hwnnw a pha fesurau newydd y mae'n bosibl sydd eu hangen bellach i sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau yn y dyfodol.

Cadeiriwyd y digwyddiad gan y newyddiadurwraig a'r sylwebydd Mai Davies ac roedd y siaradwyr yn cynnwys Christine Chapman AC (Llafur Cymru), Helen Mary Jones AC (Plaid Cymru), Eleanor Burnham AC (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru) a'r Dr Ruth Fox (y Gymdeithas Hansard).

## Ionawr 2011

Cafodd ymgyrch hysbysebu ar-lein arloesol ei lansio, wedi'i hanelu at gael pobl ifanc i bleidleisio yn y refferendwm ac yn etholiad y Cynulliad, fel rhan o ymgyrch ehangach 'Pleidleisiwch 2011'.

Ymddangosodd yr hysbysebion ar Facebook, Spotify, MSN, gwefannau prifysgolion a mannau eraill ar y we, gan gyfeirio traffig at feicro-wefan i roi gwybod i bobl am y tri chyfle i bleidleisio a fyddai ganddynt.

Cynhaliwyd digwyddiad cydweithredol ar ystad y Cynulliad i godi ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n atal pobl anabl rhag cymryd rhan yn y broses ddemocrataidd.

Bu'r Cynulliad yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, Anabledd Cymru, Scope a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gynnal y digwyddiad 'Ehangu Cyfranogiad' a oedd yn hybu pwysigrwydd cofrestru i bleidleisio ac yn edrych ar y rhwystrau i bleidleisio, fel hygyrchedd mewn gorsafoedd pleidleisio.

Carl Sargeant AC, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn y Cynulliad, oedd yn noddi'r digwyddiad a bu'r Llywydd, Y Gwir Anrhydeddus yr Arglwydd Elis-Thomas AC, hefyd yn annerch y gynulleidfa.

Cyfrannodd banel o gynrychiolwyr o Anabledd Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Scope at sesiwn holi ac ateb.

## Mawrth 2011

Yn y refferendwm, pleidleisodd etholwyr Cymru o blaid rhoi rhagor o bwerau deddfu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Roedd y bleidlais hanesyddol hon yn golygu y gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddeddfu bellach ar bob pwnc yn yr 20 maes sydd wedi eu datganoli, heb fod angen cael cytundeb Senedd y DU iddynt yn gyntaf.

**Meysydd Datganoledig**

01 Amaethyddiaeth, pysgodfeydd, coedwigaeth a datblygu gwledig
02 Henebion ac adeiladau hanesyddol
03 Diwylliant
04 Datblygu economaidd
05 Addysg a hyfforddiant
06 Yr amgylchedd
07 Y gwasanaethau tân ac achub a hyrwyddo diogelwch tân
08 Bwyd
09 Iechyd a gwasanaethau iechyd
10 Priffyrdd a chludiant
11 Tai
12 Llywodraeth leol
13 Cynulliad Cenedlaethol Cymru
14 Gweinyddiaeth gyhoeddus
15 Lles cymdeithasol
16 Chwaraeon a hamdden
17 Twristiaeth
18 Cynllunio gwlad a thref
19 Amddiffyn rhag llifogydd a dŵr
20 Yr Iaith Gymraeg

## Mawrth 2011

Cynhaliodd dirprwyaeth ffederal o Aelodau Seneddol o Ganada ymweliad rhyng-seneddol swyddogol. Dyma'r tro cyntaf i'r Cynulliad groesawu dirprwyaeth o Ganada.

Roedd y ddirprwyaeth yn cynnwys yr Anrhydeddus Jim Abbott PC AS – y Blaid Geidwadol, yr Anrhydeddus Seneddwr Jim Munson – y Blaid Ryddfrydol, yr Anrhydeddus Seneddwr Richard Neufeld – y Blaid Geidwadol, yr Anrhydeddus Carolyn Bennett AS MD – y Blaid Ryddfrydol, a Stephanie Bond – Ysgrifennydd y Ddirprwyaeth.

Bu'r ddirprwyaeth yn cymryd rhan mewn rhaglen dridiau i rannu arferion gorau mewn meysydd o gyd-ddiddordeb, gan gynnwys cyfranogiad y dinesydd, e-ddemocratiaeth, gweithio'n ddwyieithog a llywodraethau lleiafrifol a chlymbleidiol.

Yn ei blog, a ysgrifennwyd ar ddychwelyd i Ganada, dywedodd yr Anrhydeddus Carolyn Bennett AS MD:
"I think that all members of the delegation couldn't help but be inspired by this exposure to the Assembly; every person we met seriously "gets it". Inclusion matters, it matters that wherever you live in Wales that you feel that the Assembly is yours. I think they should all be very proud."

---

Bu'r Cynulliad yn dathlu ymweliad y 100,000fed ymwelydd a'r Pierhead ers ei ailwampio ym mis Mawrth 2010, pan gafodd yr adeilad rhestredig Gradd I ei weddnewid yn atyniad ymwelwyr a fyddai yn argyhoeddi, cynrychioli ac ysbrydoli.

Yn ogystal â chynnal digwyddiadau, mae'r adeilad hefyd yn ategu gwaith y Cynulliad Cenedlaethol drwy ddarparu dyfeisiau rhyngweithiol i ehangu cyfranogiad pobl yn y broses wleidyddol.

---

Cyflwynwyd canlyniadau'r adolygiad o Reolau Sefydlog.

---

Cynhaliwyd digwyddiad o'r enw 'Pwerau, Prosesau a Chymryd Rhan' yn y Pierhead, wedi'i anelu at randdeiliaid allweddol y Cynulliad ac i roi gwybod am y ffordd fwyaf effeithiol o gyfrannu at waith y Cynulliad.

Roedd yn cynnwys cyfres o seminarau trafod am y pwerau newydd yn dilyn y refferendwm, sut y byddai cyrff o randdeiliaid yn gallu gwneud y defnydd gorau o'r Rheolau Sefydlog o ran cyfrannu at graffu a gwneud cyfreithiau, a sut i ymgysylltu ymhellach gyda'r Cynulliad.

---

Bu'r Pwyllgor Deisebau yn pwyso a mesur ei bedair blynedd gyntaf a lluniodd adroddiad etifeddiaeth.

Mae'r Cynulliad yn un o ddim ond dwy ddeddfwrfa yn y DU sydd â system ddeisebau (mae'r llall yn yr Alban) ac, ers ei lansio yn 2007, mae'r Pwyllgor Deisebau wedi ystyried 215 o ddeisebau ar bynciau sy'n amrywio o doiledau cyhoeddus i ddefnyddio ceffylau dan ddaear.

Mae hefyd wedi cynnal 64 o gyfarfodydd cyhoeddus ac wedi cymryd tystiolaeth lafar gan 38 o ddeisebwyr.

Sefydlwyd y system i helpu aelodau o'r cyhoedd sy'n teimlo'n gryf am fater i gasglu cefnogaeth ac i gyflwyno deiseb i'r Cynulliad, yn bersonol neu ar-lein.

Cynhaliodd y Comisiwn ddigwyddiad yn y Pierhead i lansio ei strategaeth e-ddemocratiaeth, a oedd yn egluro sut y byddai’n defnyddio technolegau newydd i ymgysylltu ymhellach â phobl Cymru.

Roedd y strategaeth yn amlinellu sut y mae’r Cynulliad am wneud mwy o ddefnydd o ystod o sianelau digidol i wella ei ymgysylltiad â phobl Cymru a rhanddeiliaid eraill.

Roedd hefyd yn nodi bwriad clir y Cynulliad i gofleidio technolegau newydd sy’n caniatau i’r sefydliad ryngweithio’n effeithiol â’r cyhoedd.

Roedd y strategaeth yn manylu ar sut y byddai’r dulliau newydd hyn o gyfathrebu’n cyd-fynd â defnydd y Cynulliad o sianelau cyfathrebu traddodiadol, fel cysylltiadau â’r cyfryngau, allgymorth, a’i bresenoldeb mewn digwyddiadau, i helpu i roi’r Cynulliad ac Aelodau’r Cynulliad mewn sefyllfa fwy hygyrch a blaengar.



Adran 05–

# Deddfu ar gyfer Cymru

## Deddfu ar gyfer Cymru

Mae'r flwyddyn a aeth heibio wedi gweld newid mawr iawn ym mhroses ddeddfwriaethol y Cynulliad wrth i'r bleidlais 'ie' roi cymhwysedd deddfwriaeth i'r Cynulliad ym mhob un o'r meysydd datganoledig, fel sy'n digwydd eisoes yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Cafodd y bleidlais 'ie' ei hystyried gan lawer i fod yn bleidlais o ffydd pobl Cymru yn y Cynulliad a'i rôl fel deddfwrfa Cymru. Roedd y bleidlais yn dod â phroses y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol a ddefnyddiwyd yn y Trydydd Cynulliad i ben, lle roedd pwerau'n cael eu rhoi i'r Cynulliad fesul achos. O hyn ymlaen bydd Cymru'n gallu deddfu ym mhob un o'r meysydd datganoledig heb fod angen gofyn am ganiatâd gan San Steffan.

Ar ddiwedd y Trydydd Cynulliad hefyd, cafwyd adolygiad cynhwysfawr o Reolau Sefydlog y Cynulliad (y rheolau sy'n llywodraethu sut mae'r Cynulliad yn cyflawni ei fusnes). Yn ogystal ag arwain at ffyrdd mwy hyblyg ac ymatebol o weithio, mae'r adolygiad hefyd wedi rhoi mwy o gyfle i Aelodau unigol ddylanwadu ar sut y mae'r Cynulliad yn cyflawni ei swyddogaethau deddfwriaethol a chraffu.

Gwnaed y gwaith hwn gyda llygad ar ddyfodol cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Fodd bynnag, carlamodd waith deddfwriaethol y Cynulliad yn ei flaen, a chafwyd llwyddiannau deddfwriaethol tra phwysig yn ystod y flwyddyn.

## Mesurau
Mawrth 2010 – Mawrth 2011

**Y Mesur Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau mewn Penderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2010**
Mesur Arfaethedig Aelod a gyflwynwyd gan Dai Lloyd AC.

Roedd y Mesur hwn yn sicrhau bod yn rhaid i gynghorau lleol ymgynghori â chymunedau lleol cyn gwneud unrhyw benderfyniad ynghylch gwerthu caeau chwarae yng Nghymru.

Rhoddwyd Cymeradwyaeth Frenhinol ar 15 Rhagfyr 2010.

**Mesur Gwastraff (Cymru) 2010**
Mesur Arfaethedig Llywodraeth a gyflwynwyd gan Jane Davidson AC, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai.

Drwy'r Mesur hwn, gall Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i berchnogion siopau ddefnyddio'r arian a gânt drwy werthu bagiau siopa untro at ddibenion amgylcheddol penodol, os na fydd cytundeb gwirfoddol gyda manwerthwyr yn arwain at ganlyniadau boddhaol. Mae hefyd yn gosod targedau ac yn cosbi awdurdodau lleol yng nghyswllt faint o wastraff sy'n cael ei ailgylchu, ei ailddefnyddio neu ei gompostio ac yn rhoi hawl i Lywodraeth Cymru atal rhai mathau o wastraff rhag cael eu tirlenwi.

Rhoddwyd Cymeradwyaeth Frenhinol ar 15 Rhagfyr 2010.

**Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010**
Mesur Arfaethedig Llywodraeth a gyflwynwyd gan Edwina Hart AC, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae'r Mesur yn rhoi sylw i faterion yn ymwneud ag asesu iechyd meddwl a thrin anhwylderau meddwl. Mae'n sefydlu dyletswydd ar fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol ledled Cymru. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau gofal a thriniaeth gael eu paratoi ar gyfer pobl sy'n derbyn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd ac yn sicrhau mynediad amserol at asesiad i ddefnyddwyr gwasanaeth blaenorol.

Rhoddwyd Cymeradwyaeth Frenhinol ar 15 Rhagfyr 2010.

**Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011**
Mesur Arfaethedig Llywodraeth a gyflwynwyd gan Alun Ffred Jones AC, y Gweinidog dros Dreftadaeth.

Mae'r Mesur yn gwarchod statws swyddogol y Gymraeg ac yn sefydlu'r swydd Comisiynydd y Gymraeg, a fydd yn disodli Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Bydd gan y Comisiynydd swyddogaethau eang a phwerau i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg a hefyd i hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r Mesur hefyd yn caniatáu datblygu 'safonau' ar gyfer integreiddio'r Gymraeg wrth ddatblygu a darparu gwasanaethau i'r cyhoedd gan ystod o sefydliadau ac a fydd, ymhen amser, yn disodli'r cynlluniau iaith Gymraeg.

Yn olaf, mae'r Mesur yn rhoi'r pŵer i'r Comisiynydd ymchwilio i gwynion gan siaradwyr Cymraeg sy'n credu bod rhywun wedi amharu ar eu rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd. Mae hefyd yn creu tribiwnlys iaith Gymraeg sy'n gallu gwrando ar apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r Comisiynydd, o ran manylion y safonau neu ganlyniad unrhyw ymchwiliad.

Rhoddwyd Cymeradwyaeth Frenhinol ar 9 Chwefror 2011.

**Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011**
Mesur Arfaethedig Llywodraeth a gyflwynwyd gan Huw Lewis AC, y Dirprwy Weinidog dros Blant.

Mae'r Mesur yn cynnwys nifer o ddarpariaethau i gryfhau a datblygu'r hawliau presennol a gaiff eu gweithredu gan Lywodraeth Cymru o ran polisi ar gyfer plant a phobl ifanc hyd at 25 oed, a hefyd yn cryfhau sefyllfa plant a phobl ifanc o fewn y gymdeithas yng Nghymru.

Rhoddwyd Cymeradwyaeth Frenhinol ar 16 Mawrth 2011.

**Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011**
Mesur Arfaethedig Aelod, a gyflwynwyd gan Ann Jones AC.

O dan y Mesur hwn, rhaid gosod systemau llethu tân awtomatig ym mhob eiddo preswyl newydd yng Nghymru.

Rhoddwyd Cymeradwyaeth Frenhinol ar 7 Ebrill 2011

**Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011**
Mesur Arfaethedig Llywodraeth a gyflwynwyd gan Carl Sargeant AC, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol .

O dan y Mesur hwn, gellir adolygu a gwella strwythurau llywodraethu fel eu bod yn cyd-fynd yn well ag amgylchiadau llywodraeth leol yng Nghymru. Ei nod yw gwella rôl cynghorwyr awdurdod lleol y meinciau cefn wrth graffu ar wasanaethau lleol a helpu i ehangu cyfranogiad mewn llywodraeth leol drwy ddileu'r rhwystrau a'r ffactorau sy'n atal pobl rhag sefyll etholiad i gynghorau lleol.

Bydd y Mesur hefyd yn diwygio'r system ar gyfer talu cynghorwyr yn ogystal â datblygu a chryfhau rôl cynghorau cymuned yng Nghymru. Yn olaf, bydd y Mesur yn caniatau i Weinidogion Cymru gyflwyno canllawiau statudol ar gydweithredu rhwng awdurdodau lleol, a rhyngddynt hwy a chyrff eraill.

Rhoddwyd Cymeradwyaeth Frenhinol ar 10 Mai 2011.

**Mesur Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2011**
Mesur Arfaethedig Llywodraeth a gyflwynwyd gan Ieuan Wyn Jones AC, y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth.

O dan y Mesur hwn, gall Llywodraeth Cymru roi ystod eang o ddyletswyddau i awdurdodau lleol neu gorff llywodraethu ysgol a gynhelir ynghylch safonau diogelwch ar gludiant i ddysgwyr. Er enghraifft, bydd yn rhoi'r hawl i Lywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i wregysau diogelwch gael eu gosod ar bob cerbyd a ddefnyddir ar gyfer cludiant i ddysgwyr, a byddai hyn yn sicrhau bod gan bob plentyn sedd ac yn atal pob bws ysgol o dan gontract rhag cludo teithwyr sydd ond gyda lle i sefyll.

Rhoddwyd Cymeradwyaeth Frenhinol ar 10 Mai 2011.

**Mesur Tai (Cymru) 2011**
Mesur Arfaethedig Llywodraeth a gyflwynwyd gan Jocelyn Davies AC, y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio.

Mae'r Mesur Tai yn galluogi awdurdodau lleol i wneud cais i Lywodraeth Cymru am gyfarwyddyd i ohirio'r hawl i brynu mewn ardaloedd sy'n dioddef o bwysau tai fel y gellir cynyddu'r stoc tai fforddiadwy mewn ffyrdd eraill.

Rhoddwyd Cymeradwyaeth Frenhinol ar 10 Mai 2011.

**Y Mesur Addysg (Cymru) 2011**
Mesur Arfaethedig Llywodraeth a gyflwynwyd gan Leighton Andrews AC, y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes.

Bydd y Mesur yn cyflwyno pwerau a dyletswyddau i wneud cydweithredu'n gyffredin yn y system addysg, i wella llywodraethu mewn ysgolion ac i symleiddio'r gwaith o gynllunio lleoedd ysgol yng Nghymru.

Nod y Mesur yw ysgogi cydweithrediad rhwng awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, a sefydliadau Addysg Bellach; rhoi pŵer i awdurdodau lleol sefydlu ffederasiwn o ysgolion; hyfforddi llywodraethwyr ysgolion a gwella clercio mewn cyrff llywodraethu; a hefyd i atal ysgolion yn y dyfodol rhag newid categori i fod yn ysgolion sefydledig.

Rhoddwyd Cymeradwyaeth Frenhinol ar 10 Mai 2011

Methodd y Mesur canlynol:
**Mesur Arfaethedig Cludo Gwastraff i'w Adfer (Ymgysylltiad Cymunedau â'r Trefniadau) (Cymru)**
Mesur Arfaethedig Aelod, a gyflwynwyd Nerys Evans AC.

## Gorchmynion
## Mawrth 2010 – Mawrth 2011

**Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Addysg) 2010**
Gwnaed y Gorchymyn gan Ei Mawrhydi yn y Cyngor ar 12 Ebrill 2010.

**Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Trafnidiaeth) 2010**
Gwnaed y Gorchymyn gan Ei Mawrhydi yn y Cyngor ar 12 Ebrill 2010.

**Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Tai a Llywodraeth Leol) 2010**
Gwnaed y Gorchymyn gan Ei Mawrhydi yn y Cyngor ar 21 Gorffennaf 2010.

Cafodd y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol canlynol ei dynnu yn ôl gan y Cynulliad:
**Gorchymyn Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Iechyd a Gwasanaethau Iechyd) 2011**
09 Mawrth 2011



Adran 06–

## Dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif

## Dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif

Mae craffu effeithiol ar lywodraeth y dydd yn un o gonglfeini democratiaeth effeithiol. Yn ogystal â'r gwaith craffu, a manylir ar hyn isod, sy'n sicrhau bod Llywodraeth Cymru'n cael ei dwyn i gyfrif, ceisiodd adolygiad y flwyddyn hon o Reolau Sefydlog y Cynulliad wneud gwaith y Cynulliad yn fwy ymatebol i anghenion pobl Cymru. Ceisiwyd hefyd ddileu unrhyw gyfyngiadau diangen a chryfhau ein prosesau craffu, drwy gyflwyno darpariaethau newydd i graffu'n well ar gyfreithiau'r Cynulliad, Mesurau'r DU neu ddeddfwriaeth Ewropeaidd sy'n effeithio ar Gymru. Roedd yr adolygiad yn ceisio creu mwy o gyfle i Aelodau unigol ddechrau busnes a dylanwadu arno.

## Ebrill 2010

Cyhoeddodd yr **Is-bwyllgor Datblygu Gwledig** adroddiad yn edrych ar ddyfodol yr ucheldir yng Nghymru – sy'n bwysig yng Nghymru ar gyfer ffermio, coedwigaeth, hamdden, cadwraeth bywyd gwyllt a rheoli dŵr.

Rhoddodd y Pwyllgor hefyd gyngor i Lywodraeth Cymru i fabwysiadu dulliau newydd o sicrhau bod yr ucheldir yn cael ei warchod a'i ddatblygu.

Cyhoeddodd y **Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol** adroddiad yn edrych ar safonau gwasanaethau i bobl sydd wedi cael strôc yng Nghymru.

Galwodd y Pwyllgor am strategaeth unedig, gyda chydweithredu gwell rhwng y llu darparwyr gwasanaeth yng Nghymru, i wella gwasanaethau sydd ar ei hôl hi a sicrhau bod pobl sy'n cael strôc yng Nghymru yn cael cynnig y driniaeth orau bosibl.

## Mai 2010

Lansiodd y **Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus** adroddiad ar erydu arfordirol a pheryglon llifogydd llanw yng Nghymru.

Galwodd y Pwyllgor ar Lywodraeth Cymru i weithredu'n gynt i drechu erydu arfordirol a llifogydd llanw o gwmpas Cymru.

Awgrymodd fod Llywodraeth Cymru'n cyfathrebu'n well gyda chymunedau arfordirol ac yn gweithredu dulliau newydd yn fuan.

Cyhoeddodd y **Pwyllgor Menter a Dysgu** adroddiad ar ddarpariaeth arbenigol ar gyfer pobl ifanc ag awtistiaeth mewn addysg bellach.

Un o ganfyddiadau'r ymchwiliad oedd bod bwlch mawr rhwng strategaeth a pholisi i bobl ifanc ag awtistiaeth a oedd am fynd yn eu blaenau i'r coleg neu sefydliadau addysg bellach eraill.

Tynnodd sylw at wasanaethau bratiog a phroblemau fel bod pobl ag awtistiaeth yn gorfod teithio'n bell i golegau arbenigol.

Cyhoeddodd y **Pwyllgor Cyfle Cyfartal** adroddiad yn edrych ar wahaniaethu yn erbyn pobl sy'n byw gyda HIV gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol a darparwyr gofal iechyd.

Cyfeiriodd ymchwiliad y Pwyllgor at achosion o wahaniaethu yn erbyn pobl gyda HIV gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol. Galwodd yr adroddiad am well hyfforddiant i weithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl gyda HIV ac ymgyrch effeithiol i godi ymwybyddiaeth pobl er mwyn chwalu'r mythau sy'n gysylltiedig â HIV. Roedd hefyd yn galw am roi system yn ei lle i gofnodi achosion o wahaniaethu fel y gellid monitro'r sefyllfa'n fwy effeithiol.

Cyhoeddodd y **Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol** adroddiad yn edrych ar safonau gwasanaeth i bobl mewn cadeiriau olwyn yng Nghymru.

Un o ganfyddiadau'r Pwyllgor oedd bod y gwasanaethau i bobl mewn cadeiriau olwyn yn anghyson rhwng gogledd a de Cymru a bod problemau fel amseroedd aros hir i bobl y mae angen cadeiriau olwyn arnynt. Pwysodd y Pwyllgor ar Lywodraeth Cymru i ddileu'r 'loteri côd post' fel y'i gelwid i sicrhau bod pobl y mae angen cadeiriau olwyn arnynt yn derbyn y gwasanaeth gorau posibl yng Nghymru.

## Mai 2010

Cyhoeddodd y **Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc** adroddiad yn edrych ar y trefniadau presennol ar gyfer lleoli plant mewn gofal yng Nghymru.

Daeth y Pwyllgor i'r casgliad y dylai plant sy'n cael eu lleoli mewn gofal gael dweud eu dweud o ran yr hyn sydd ei angen arnynt gan y bobl sy'n gofalu amdanynt, a lle byddant yn byw.

Canfu'r ymchwiliad, hefyd, na ddylai cyllid fod yn rhwystr i sicrhau bod plant agored i niwed yn cael y gofal gorau posibl ac y dylai awdurdodau lleol yng Nghymru roi mwy o bwyslais ar ganlyniadau hirdymor nag arbedion tymor byr.

## Mehefin 2010

Cyhoeddodd yr **Is-bwyllgor Datblygu Gwledig** adroddiad yn edrych ar les anifeiliaid a hylendid cig mewn lladd-dai yng Nghymru.

Galwodd y Pwyllgor am adolygiad o sut y mae'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu lladd-dai'n cael ei gweithredu yng Nghymru.

Cyhoeddodd y **Pwyllgor Cynaliadwyedd** adroddiad yn edrych ar hawliau mynediad i ddŵr mewndirol.

Galwodd y Pwyllgor am ddatganoli pwerau i gyflwyno cyfreithiau sy'n effeithio ar fynediad i afonydd a llynnoedd yng Nghymru.

Ysgrifennodd y **Pwyllgor Menter a Dysgu** at y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes yn lleisio ei bryderon ynghylch agenda'r Llywodraeth ar gyfer addysg ôl-16.

Yn ôl ei ymchwiliad, roedd cefnogaeth eang i bolisi'r Llywodraeth yn y maes hwn, ond daeth i'r casgliad bod problemau o ran ei weithredu, gan gynnwys cyfathrebu gwael, yn golygu bod rhai sefydliadau addysgol yn teimlo nad oeddent yn cael digon o wybodaeth.

Lleisiodd yr adroddiad bryder hefyd o'r ffaith bod y berthynas rhwng sefydliadau a oedd yn ceisio datblygu'r agenda yn anghyson ac at achosion o ymgynghori gwael â rhanddeiliaid yng nghamau datblygu'r polisi.

## Gorffennaf 2010

Cyhoeddodd y **Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol** adroddiad ar ofal newyddenedigol yng Nghymru.

Yn ôl yr adroddiad, roedd unedau newyddenedigol mewn ysbytai yng Nghymru yn brin o staff, yn brin o gyfarpar ac yn orlawn.

Galwodd yr adroddiad am adolygiad o'r gwasanaethau yng Nghymru fel y gallai babanod a oedd yn cael eu geni cyn amser gael y cychwyn gorau posibl mewn bywyd.

Cyhoeddodd y **Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol** adroddiad ar ddyfodol polisi cydlyniant yr UE – un o ffrydiau cyllid yr UE – yng Nghymru.

Rhybuddiodd y Pwyllgor y bydd angen cymorth pellach o Gronfeydd Strwythurol Ewrop ar Gymru ar ôl 2013 ac y dylid cyflwyno achos cryf dros y cyllid hwn yn y DU ac ym Mrwsel fel bod economi Cymru'n cael y cyfle gorau posibl i ddatblygu yn y dyfodol.

Cyhoeddodd yr **Is-bwyllgor Datblygu Gwledig** adroddiad yn edrych ar ddiwydiant gwin, cwrw a seidr Cymru.

Yn ôl y Pwyllgor, er bod cymorth gan Lywodraeth Cymru ar gael, roedd diffyg arbenigedd i fanteisio i'r eithaf ar botensial economaidd y sector.

Cyfeiriodd yr adroddiad at y diwydiant gwin yn Seland Newydd fel enghraifft o'r hyn y gellir ei gyflawni gyda'r cymorth iawn a phwysodd ar Lywodraeth Cymru i gefnogi'r sector yn well yng Nghymru a, thrwy hynny, elwa arni.

Cyhoeddodd y **Pwyllgor Cynaliadwyedd** adroddiad yn edrych ar ddarparu rhandiroedd yng Nghymru.

Casgliad yr ymchwiliad oedd bod angen edrych o'r newydd ar ddeddfwriaeth a oedd yn dyddio yn ôl i 1908 er mwyn annog pobl i gynhyrchu bwyd gwyrdd ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.

Er ei bod yn rheidrwydd cyfreithiol i gynghorau ddarparu rhandiroedd i bobl sy'n gofyn amdanynt, pryder y Pwyllgor oedd nad yw'n rhoi terfynau amser ar gyfer gwneud hyn – a bod hyn yn achosi oedi diangen i bobl sydd am dyfu eu cynnyrch eu hunain.

Cyhoeddodd y **Pwyllgor Menter a Dysgu** adroddiad ar ddyfodol yr economi werdd yng Nghymru.

Dywedodd y Pwyllgor na ellid gadael datblygiad y sector i rymoedd marchnad yn unig ac y dylai fod yn rhan ganolog o gynlluniau economaidd Llywodraeth Cymru yn hytrach nag ar y cyrion.

Cyhoeddodd yr **Is-bwyllgor Datblygu Gwledig** adroddiad yn edrych ar ddiwygio polisi cymorth amaethyddol yr Undeb Ewropeaidd i ffermwyr – sef y Polisi Amaeth Cyffredin (PAC).

Dywedodd yr adroddiad pa mor bwysig yw'r cyllid hwn i ffermwyr Cymru gan argymell bod Llywodraeth Cymru'n gweithio i'w warchod fel nad yw ffermwyr Cymru ar eu colled yn ariannol yn y dyfodol.

## Awst 2010

Cyhoeddodd y **Pwyllgor Cynaliadwyedd** adroddiad yn edrych ar gynhyrchu ynni gwyrdd yng Nghymru.

Rhybuddiodd y Pwyllgor y gallai cymorthdaliadau'r llywodraeth i annog defnyddio biomas adnewyddadwy weithio o blaid ffatrïoedd ynni mawr tra'n cau cwmnïau llai allan o'r farchnad.

Roedd hefyd yn cwestiynu pa mor barod yw Cymru i ymdopi â'r galw cynyddol am fiomas gan argymell bod Llywodraeth Cymru'n gwneud defnydd o goetiroedd na reolir ar hyn o bryd i gael gafael ar fwy o ddeunyddiau.

## Medi 2010

Cyhoeddodd y **Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc** adroddiad yn edrych ar y ddarpariaeth o wasanaethau eirioli ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Daeth yr ymchwiliad i'r casgliad nad oedd unrhyw wasanaethau eirioli annibynnol ar gael i blant a phobl ifanc a bod Llywodraeth Cymru'n cymryd gormod o amser i weithredu ei strategaeth ei hun. Roedd yn argymell y dylid sefydlu gwasanaeth eirioli annibynnol i bobl ifanc yng Nghymru cyn gynted â phosibl.

Cyhoeddodd y **Pwyllgor Menter a Dysgu** adroddiad yn edrych ar ddysgu ac addysgu Cymraeg fel ail iaith mewn ysgolion uwchradd.

Tynnodd yr ymchwiliad sylw at wendidau ac anghysondebau mewn addysgu Cymraeg fel ail iaith, ond gan ganmol Llywodraeth Cymru am rai rhaglenni pur arloesol ledled Cymru.

## Hydref 2010

Cyhoeddodd y **Pwyllgor Menter a Dysgu** adroddiad yn ymchwilio i weld faint o bobl ifanc yng Nghymru nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

Yn ôl y Pwyllgor, nid oedd 68,000 o bobl ifanc 16–24 oed yn ennill bywoliaeth nac yn dysgu ac roedd diffyg cyfeiriad a chyd-feddwl ar ran Llywodraeth Cymru ac asiantaethau eraill yn golygu nad oedd strategaethau cadarnhaol mor effeithiol ag y gallent fod.

Galwodd am gydgysylltu gwell rhwng darparwyr gwasanaethau i sicrhau bod pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn cael cynnig y cyfleoedd gorau posibl.

Lansiodd y **Pwyllgor Cyfle Cyfartal** adroddiad ar hygyrchedd gorsafoedd rheilffordd yng Nghymru.

Yn ôl yr ymchwiliad, roedd mwy na hanner y gorsafoedd rheilffordd yng Nghymru yn anhygyrch i bobl ag anableddau.

Roedd yr adroddiad yn cydnabod ei bod yn anodd i'r Llywodraeth wneud llawer oherwydd ei diffyg pwerau yn y maes hwn, ond galwodd ar Weinidogion Cymru i ddefnyddio'r pwerau sydd ganddynt i roi mwy o arian i raglenni gwelliannau a dylanwadu ar Lywodraeth y DU pan fydd yn gosod y targedau nesaf ar gyfer Network Rail.

## Tachwedd 2010

Cyhoeddodd y **Pwyllgor Cynaliadwyedd** adroddiad ar leihau carbon yng Nghymru.

Canfu ei ymchwiliad bod polisïau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn gweithio yn erbyn ei gilydd ac, er bod rhai adrannau yn ymroddedig i leihau allyriadau carbon, roedd eraill yn rhoi hyn yn is i lawr y rhestr o flaenoriaethau. Teimlai'r Pwyllgor y dylai fod yn flaenoriaeth llawer uwch.

Lansiodd y **Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant** adroddiad ar gynhwysiant ariannol ac effaith addysg ariannol.

Lleisiodd yr adroddiad bryderon ynghylch y diffyg addysg ariannol mewn ysgolion a chymunedau ledled Cymru a safon yr addysg honno.

Dywedodd fod angen rhoi gwybodaeth ariannol well i blant ysgol i'w haddysgu am y problemau a all godi yn sgil camreoli arian.

Lansiodd y **Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc** adroddiad ar fannau diogel blant a phobl ifanc chwarae a chymdeithasu.

Deilliodd yr adroddiad o adolygiad Cymru gyfan o'r enw 'Chi sy'n Bwysig' a fu'n holi barn plant a phobl ifanc ar draws Cymru yn 2009.

Roedd adroddiad y Pwyllgor yn galw am fwy o ymgynghori â phlant a phobl ifanc ar leoliad mannau diogel i chwarae, a mynediad atynt.

Cyhoeddodd y **Pwyllgor Menter a Dysgu** adroddiad yn edrych ar rôl mentrau cymdeithasol – busnesau ac amcanion cymdeithasol – yn economi Cymru.

Canfu'r ymchwiliad, y gallai'r sector gynnig atebion arloesol i ddarparu gwasanaethau mewn hinsawdd economaidd anodd ond nad oedd Llywodraeth Cymru yn manteisio digon arno.

Argymhellodd fod y sector yn cael ei gynnwys o fewn Adran Economi a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru, er mwyn rhoi mwy o hwb iddo. Awgrymodd hefyd fod Llywodraeth Cymru'n cynnig mwy o gymorth dechrau busnes i bobl oedd am fod yn rhan o'r sector.

## Tachwedd 2010

Cyhoeddodd y **Pwyllgor Menter a Dysgu** lythyr yn ymwneud â gweithredu rhaglen Llywodraeth Cymru i adnewyddu'r economi – sef ei weledigaeth flaengar ar gyfer dyfodol economaidd Cymru.

Roedd adroddiad y Pwyllgor yn nodi bod diffyg manylion yn y rhaglen a oedd ar gael i fusnesau yng Nghymru a galwodd ar Lywodraeth Cymru i gyfathrebu ei chynlluniau'n fwy effeithiol.

---

Cyhoeddodd y **Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol** adroddiad yn edrych ar rôl Byrddau Lleol Diogelu Plant yng Nghymru.

Daeth i'r casgliad bod gormod o ddryswch a diffyg gwybodaeth am rôl y cyrff hyn, a galwodd am ganllawiau cliriach gan Lywodraeth Cymru.

Galwodd hefyd ar fwy o weithio mewn partneriaeth, rhannu gwybodaeth a gwella trefniadau cyllido fel y gallai'r byrddau gyrraedd eu nod o sicrhau lles plant yng Nghymru.

## Rhagfyr 2010

Cyflwynodd y **Pwyllgor Deisebau** ei adroddiad ar y ddarpariaeth dysgu seiliedig ar waith ar gyfer pobl ifanc agored i niwed.

Deilliodd yr ymchwiliad o ddeiseb gan Gweithredu dros Blant, a oedd yn galw am ymchwiliad i'r maes hwn.

Roedd yr adroddiad yn pwyso ar Lywodraeth Cymru i wella gwasanaethau fel bod pobl ifanc agored i niwed yn gallu cael mynediad at raglenni dysgu seiliedig ar waith.

Roedd yr adroddiad yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n ailystyried y trefniadau cymorth ariannol i ddysgwyr seiliedig ar waith, gan gynnwys darparu taliadau teithio ymlaen llaw, fel nad yw'r gost yn rhwystr iddynt gymryd rhan yn y math yma o ddysgu.

---

Cyhoeddodd y **Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus** adroddiad ar y gost o sicrhau bod ysgolion Cymru yn 'addas i'r diben'.

Roedd hefyd yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n sefydlu proses glir a phendant ar gyfer sicrhau bod yr holl adeiladau ysgolion ledled Cymru yn cyrraedd y safon, gan gynnwys nodi'n union faint fyddai'r gost a pha mor hir y byddai'n ei gymryd i sichrau bod pob ysgol yng Nghymru yn cyrraedd y safon sy'n ddymunol.

---

Ysgrifennodd yr **Is-bwyllgor Datblygu Gwledig** at Elin Jones AC, y Gweinidog dros Faterion Gwledig i nodi ei bryderon am ffermydd sydd ym mherchnogaeth awdurdodau lleol yng Nghymru.

Un o ganfyddiadau'r Pwyllgor oedd bod ffermydd sydd ym mherchnogaeth awdurdodau lleol ac a reolir ganddynt yn asedion pwysig, strategol a chenedlaethol y dylid eu cadw.

Fodd bynnag, canfu'r ymchwiliad bod rhai ffermydd yng Nghymru'n cael eu gwerthu er mwyn esmwytho sefyllfa ariannol cynghorau ac mai ychydig iawn o arian oedd yn cael ei ailfuddsoddi i helpu darpar ffermwyr heb adnoddau i sefydlu ar eu penau eu hunain.

## Ionawr 2011

Cyhoeddodd y **Pwyllgor Cyllid** ei adroddiad a oedd yn edrych ar gyllideb ddrafft Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Lleisiodd y Pwyllgor bryder a siom ynghylch cyllideb ddrafft yr Ombwdsmon, gan nodi ei bod yn brin o fanylion.

Cyhoeddodd y **Pwyllgor Cynaliadwyedd** adroddiad a oedd yn edrych ar bolisïau cynllunio yng Nghymru.

Galwodd am gyfraith gynllunio a oedd yn darparu ar gyfer anghenion unigryw Cymru, gan dynnu sylw at y trafferthion a wynebai cynllunwyr o ran rheoli blaenoriaethau a pholisïau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Cyhoeddodd y **Pwyllgor Menter a Dysgu** adroddiad a oedd yn edrych ar yr agenda wyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg yng Nghymru.

Canfu'r ymchwiliad, bod diffyg athrawon arbenigol o ansawdd uchel mewn gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg yng Nghymru a galwodd ar Lywodraeth Cymru i wneud mwy i wella'r lefelau sgiliau.

Cyhoeddodd y **Pwyllgor Cynaliadwyedd** adroddiad yn ymwneud â bioamrywiaeth yng Nghymru.

Canfu'r ymchwiliad nad oedd targedau rhyngwladol a Chymreig ar warchod amgylcheddau bregus Cymru wedi cael eu cwrdd.
Er bod Llywodraeth Cymru wedi llunio strategaethau'n nodi uchelgeisiau canmoladwy ynghylch targedau ar gyfer bioamrywiaeth, roedd y Pwyllgor yn cydnabod nad oedd asiantaethau ac adrannau'r llywodraeth wedi mabwysiadu ffordd brif ffrwd o fynd i'r afael â hyn.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys 19 o argymhellion, gan gynnwys sicrhau bod bioamrywiaeth yn rhan ganolog o bolisi datblygu cynaliadwy Llywodraeth Cymru.

I ddarllen crynodeb o waith y Pwyllgor Cynaliadwyedd dros y Trydydd Cynulliad, darllenwch ei **adroddiad etifeddiaeth**.

Cyhoeddodd y **Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc** adroddiad ar rianta yng Nghymru a rhoi'r cynllun gweithredu rhianta ar waith.

Cyhoeddwyd yr adroddiad yn sgîl ymchwiliad blaenorol i'r cynllun a gyflawnwyd yn 2009.

Ar y pryd, roedd yn cael ei gweld fel rhaglen gydag agenda a allai fod yn un flaenllaw a daeth yr ymchwiliad dilynol ar draws nifer o enghreifftiau da o wasanaethau cymorth i rieni yng Nghymru.

Fodd bynnag, galwodd y Pwyllgor am wasanaethau cymorth i rieni a oedd ar gael yn hawdd ledled Cymru, tra'n sicrhau nad oedd Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf Llywodraeth Cymru'n parhau'r myth yn anfwriadol mai dim ond pobl ar incwm isel sy'n cael trafferth magu plant.

## Chwefror 2011

Rhyddhaodd y **Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc** adroddiad yn ymchwilio i dlodi plant yng Nghymru.

Roedd y Pwyllgor yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru'n gweithio'n gadarnhaol i ddileu tlodi plant ond roedd y cynnydd yn ddarniog ac roedd rhai meysydd a oedd yn destun pryder sylweddol o hyd. Honnodd y byddai'n well gan blant a oedd â hawl i gael prydau ysgol am ddim beidio â'u derbyn na mentro cywilydd gerbron eu cyfoedion.

Canfu'r ymchwiliad bod dyheadau plant mewn tlodi yr un fath â dyheadau plant o deuluoedd mwy ariannog pan maent yn 7 neu'n 8 oed ond eu bod yn sylweddol is erbyn y mae'r plant yn 10 neu'n 11 oed.

I ddarllen crynodeb o waith y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc dros gyfnod y Trydydd Cynulliad, darllenwch ei **adroddiad etifeddiaeth**.

Adroddodd y **Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol** ar driniaeth ar gyfer anhwylder straen wedi trawma i gyn-filwyr.

Dywedodd yr adroddiad y dylai cefndir gwasanaeth cyn-filwyrod yn rhan o'u cofnod meddygol fel bod y rhai sy'n dioddef o Anhwylder Straen Wedi Trawma yn cael diagnosis cywir yn ddi-oed.

Clywodd y Pwyllgor am achosion lle cafodd Anhwylder Straen Wedi Trawma gam–ddiagnosis fel cyflyrau eraill oherwydd bod y Weinyddiaeth Amddiffyn wedi methu â datgelu gwybodaeth a allai fod wedi bod yn hollbwysig am ei bod yn ei hystyried i fod yn wybodaeth gyfrinachol.

Galwodd am gyfathrebu gwell rhwng y Weinyddiaeth Amddiffyn a Meddygon Teulu i lenwi'r bylchau hyn ac am godi ymwybyddiaeth o Anhwylder Straen Wedi Trawma ymhlith cyn-filwyr a'u teuluoedd.

Cyhoeddodd y **Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol** adroddiad ar gyfranogiad Cymru mewn rhaglenni ymchwil, arloesi a dysgu gydol oes yr Undeb Ewropeaidd.

Canfu'r adroddiad nad oedd Cymru'n manteisio ar raglen gyllid gan yr UE i annog ymchwil a datblygu.

Daeth i'r casgliad y gallai Cymru ennill ei phlwyf yn well yn yr economi wybodaeth pe bai Llywodraeth Cymru, prifysgolion Cymru, y sector preifat a llywodraeth leol yn canolbwyntio ymdrechion i wneud mwy o'r adnoddau hyn.

Dywedodd hefyd fod y ffynonellau cyllid yn gwbl ar wahân i'r Polisi Amaeth Cyffredin a'r Cronfeydd Strwythurol ac oherwydd eu bod felly'n llai adnabyddus i bobl, nid oeddent yn cael y sylw y dylent fod yn ei gael.

I ddarllen crynodeb o waith y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol dros gyfnod y Trydydd Cynulliad, ewch i'w **adroddiad etifeddiaeth**.

Cyhoeddodd y **Pwyllgor Menter a Dysgu** adroddiad ar hyfforddiant a sgiliau dwyieithog yn y gweithle.

Un o ganfyddiadau'r ymchwiliad oedd yr agweddau cadarnhaol tuag at addysgu a defnyddio'r Gymraeg ymhlith busnesau yng Nghymru er iddo nodi bod amrywiol gyrff wedi datblygu eu rhaglenni eu hunain a gynhyrchwyd gan staff ac yn aml iawn yn wirfoddol.

Dywedodd y Pwyllgor na allai'r Gymraeg ffynnu ar ewyllys da yn unig a bod angen ymdrech gydnerth gan Lywodraeth Cymru i wneud y mwyaf o'r gwaith oedd eisoes wedi'i wneud.

I ddarllen crynodeb o waith y Pwyllgor Menter a Dysgu dros gyfnod y Trydydd Cynulliad, ewch i'w **adroddiad etifeddiaeth**.

Cyhoeddodd y **Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant** adroddiad yn edrych ar hygyrchedd gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol yng Nghymru.

Derbyniodd fod Llywodraeth Cymru ers tro byd wedi cydnabod gwerth profiadau diwylliannol a'r celfyddydau i ddatblygu amrywiaeth eang o bolisïau, gan gynnwys addysg, iechyd a diogelwch cymunedol.

Fodd bynnag roedd yn argymell llai o ffocws ar leoliadau wedi eu codi'n bwrpasol a buddsoddi mwy mewn prosiectau cymunedol, i gyrraedd cynulleidfa ehangach.

Cyhoeddodd y **Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus** adroddiad ar goedlannau Comisiwn Coedwigaeth Cymru: Arian cyhoeddus ar gyfer coetiroedd Ffynone a Chilgwyn.

Roedd yr ymchwiliad yn dilyn deiseb a gafodd Pwyllgor Deisebau'r Cynulliad gan bobl a oedd yn anhapus bod hanner miliwn o bunnau wedi'i dalu i grŵp i brynu coedlan yng ngogledd Sir Benfro yn 2006.

Canfu'r ymchwiliad dilynol bod Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn yr achos hwn wedi methu yn ei ddyletswydd i ymgynghori'n iawn â'r gymuned leol a heb ddilyn y broses briodol i sicrhau bod y cyhoedd yn cael gwerth am arian.

Galwodd y Pwyllgor ar Gomisiwn Coedwigaeth Cymru i dynhau ei brosesau ar gyfer dyfarnu grantiau.

## Chwefror 2011

Cyhoeddodd y **Pwyllgor Cyfle Cyfartal** adroddiad yn edrych ar effaith polisi Llywodraeth Cymru ar hygyrchedd gwasanaethau trafnidiaeth ar gyfer pobl anabl yng Nghymru.

Canfu'r ymchwiliad nad oedd Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol na darparwyr trafnidiaeth yn ymgynghori'n ddigonol â grwpiau anabledd yng nghamau datblygu eu cynlluniau trafnidiaeth.

Roedd y Pwyllgor yn croesawu polisi'r Llywodraeth o ddarparu tocynnau bws am ddim i bobl hŷn ac anabl ond roeddent am weld y ddarpariaeth hon yn cael ei diogelu yn yr hinsawdd ariannol anodd bresennol.

I ddarllen crynodeb o waith y Pwyllgor Cyfle Cyfartal dros gyfnod y Trydydd Cynulliad, ewch i'w **adroddiad etifeddiaeth**.

Cyhoeddodd yr **Is-bwyllgor Datblygu Gwledig** adroddiad ar dwristiaeth wledig yng Nghymru.

Dywedodd yr adroddiad fod y diwydiant twristiaeth yng Nghymru yn werth tua chwe biliwn o bunnoedd bob blwyddyn, gyda bron i ddwy ran o dair o'r swm hwnnw'n cael ei gynhyrchu mewn siroedd gwledig.

Nododd y Pwyllgor feysydd fel cyllid datblygu, cysylltiadau trafnidiaeth mewn ardaloedd gwledig, a chyrhaeddiad band-eang, fel blaenoriaethau i gynlluniau Llywodraeth Cymru.

Roedd yn argymell cyflawni adolygiad cynhwysfawr o'r holl bolisïau er mwyn datblygu'r sector ymhellach ar ôl i dystiolaeth awgrymu bod amrywiaeth eang o bolisïau a strategaethau, a oedd eisoes yn eu lle, yn rhy ddryslyd ac aneglur.

I ddarllen crynodeb o waith yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig, gweler ei **adroddiad etifeddiaeth**.

Cyhoeddodd y **Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol** adroddiad ar wasanaethau orthodontig yng Nghymru.

Er bod rhestrau aros orthodontig yn broblem yng Nghymru, dywedodd yr adroddiad nad oedd y ffigurau'n gywir oherwydd bod rhai deintyddion yn cyfeirio cleifion at fwy nag un ddeintyddfa – neu hyd yn oed cyn iddynt fod angen triniaeth – i'w cael ar restr.

Argymhellodd y Pwyllgor y dylid dirwyo deintyddion a oedd yn gyson yn cyfeirio cleifion ddwywaith neu'n amhriodol at fwy nag un ddeintyddfa er mwyn i gleifion gael eu gweld yn gynt, gan felly dagu'r system.

I ddarllen crynodeb o waith y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol dros gyfnod y Trydydd Cynulliad, ewch i'w **adroddiad etifeddiaeth**.

## Mawrth 2011

Cyhoeddodd y **Pwyllgor Cyllid** adroddiad ar ddyrannu cronfeydd cyfalaf yng Nghymru.

Dywedodd y dylid ystyried cyllid fel adnodd strategol i'w ddyrannu i gwrdd ag anghenion cyffredinol ac wedi'i gydgysylltu ar draws gwahanol adrannau fel iechyd, addysg a'r amgylchedd yn hytrach na'i ddyrannu i bob adran ar gyfer prosiectau mawr.

Argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r dull yma gael ei arwain a'i reoli gan y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb ar ran Llywodraeth Cymru gyfan ac nid gan Weinidogion unigol, a oedd â'u blaenoriaethau adrannol unigol eu hunain.

I ddarllen crynodeb o waith y Pwyllgor Cyllid dros gyfnod y Trydydd Cynulliad, ewch i'w **adroddiad etifeddiaeth**.

Cyhoeddodd y **Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus** adroddiad ar faterion yn ymwneud â chyfrifo, llywodraethu a phriodoldeb yn Swyddfa Archwilio Cymru.

Edrychodd yr adroddiad ar ymddygiad Swyddfa Archwilio Cymru a Jeremy Colman, Archwiliwr Cyffredinol Cymru ar y pryd, rhwng 2005 a 2009.

Daeth i'r casgliad nad oedd yr Archwiliwr Cyffredinol ar y pryd wedi cyrraedd y safonau y disgwylid i uwch-swyddog cyhoeddus eu cwrdd o ran ei ymddygiad a'i reolaeth o Swyddfa Archwilio Cymru.

Canfu'r Pwyllgor iddo gael ei gamarwain ynghylch y gwir ddarlun ariannol yn y sefydliad, yn enwedig yr angen i ddatgelu pecynnau ymadawiad cynnar yn y cyfrifon blynyddol, a fyddai wedi dangos gorwario sylweddol yn ei gyfrifon dros gyfnod o bum mlynedd.

Lansiodd y **Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant** adroddiad ar y sector tai rhent preifat yng Nghymru.

Edrychodd yr adroddiad ar bob agwedd ar y sector tai rhent preifat yng Nghymru gan argymell bod Llywodraeth Cymru'n sefydlu cronfa i awdurdodau lleol roi benthyg arian i landlordiaid tuag at wneud defnydd newydd o dai gwag.

Tynnodd sylw hefyd at bryder ynghylch yr argraff ymhlith rhai tenantiaid nad oedd ganddynt sicrwydd tenantiaeth a dywedodd fod angen gwneud mwy i'w gwneud yn ymwybodol o'u hawliau.

I ddarllen crynodeb o waith y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant dros gyfnod y Trydydd Cynulliad, ewch i'w **adroddiad etifeddiaeth**.



Adran 07–

# Digwyddiadau a dyddiadau eraill o bwys

# Digwyddiadau a dyddiadau eraill o bwys

## Mai 2010

Teithiodd côr o blant amddifad o Uganda i Gymru gan roi perfformiad arbennig i gynulleidfa o Aelodau'r Cynulliad.

Siaradodd y côr, o'r enw Destiny Africa, am eu profiadau o wrthdaro yn eu gwlad a'u gobeithion am y dyfodol. Roedd yr ymweliad yn rhan o daith ar draws y DU i godi arian i Ganolfan Blant Kampala, y cartref i blant amddifad lle maent yn byw.

## Mehefin 2010

Cynhaliwyd digwyddiadau i ddathlu Diwrnod Cenedlaethol y Lluoedd Arfog ar ystad y Cynulliad. Daeth dros 50,000 o bobl ynghyd, gan gynnwys Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru, Ei Huchelder Brenhinol Duges Cernyw a Phrif Farsial Awyrlu'r Lluoedd Arfog Syr Jock Stirrup.

## Gorffennaf 2010

Enillodd y Cynulliad statws Aur ar ôl cael ei asesu ar gyfer y dyfarniad clodfawr Buddsoddwr mewn Pobl, un o ddim ond 25 o gyrff cyhoeddus yn y DU i gyrraedd y safon yma.

Y Cynulliad yw'r ddeddfwrfa gyntaf yn y DU i ennill y safon Aur a dim ond y trydydd sefydliad yng Nghymru i wneud hynny.

Mae'r dyfarniad yn rhoi'r sefydliad yn yr un y cant uchaf o gyflogwyr ledled y byd.

## Medi 2010

Pleidleisiodd staff ac Aelodau'n unfrydol dros ddefnyddio Freedom Food ar draws ystad y Cynulliad.

Cafodd y Cynulliad ei longyfarch gan yr RSPCA a ddywedodd mai'r Cynulliad oedd y sefydliad cenedlaethol cyntaf yn y DU i ddewis bwyd a oedd yn gyfeillgar i les anifeiliaid, a bod Aelodau a staff y Cynulliad i'w canmol am hyn.

## Hydref 2010

Cafodd y Cynulliad ei enwi fel y corff sector cyhoeddus mwyaf cynaliadwy ar lefel llywodraeth yn y DU gan Wobrau Rheoli Cyfleusterau'n Gynaliadwy 2010.

Mae'r Cynulliad wedi gweithredu rhaglen arloesol o brosiectau a gwelliannau i leihau gollyngiadau carbon yn unol ag un o'i bum amcan strategol – gweithio'n gynaliadwy.

Mae rhai o'r camau a gymerodd i gyflawni'r amcan hwn yn cynnwys inswleiddio gwell yn y waliau, gosod synwyryddion presenoldeb drwy'r prif adeilad i gyd a defnyddio meddalwedd monitro ynni i weld ym mha feysydd eraill y gellir defnyddio llai o ynni.

Mae'r staff hefyd yn cael eu hannog i wneud eu rhan drwy ddiffodd eu cyfrifiaduron a'u sgriniau, defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i deithio ar fusnes a, lle nad yw hyn yn bosibl, defnyddio'r car allyriadau isel newydd at ddefnydd cyffredinol sydd wedi sicrhau arbedion sylweddol o ran costau a charbon.

Gadawodd 25 aelod o staff y Cynulliad o dan gynllun ymadawiad cynnar gwirfoddol.

Cwblhawyd prosiect i roi'r cyfleusterau TG annibynnol diweddaraf i Aelodau, eu staff hwy a staff y Cynulliad. Mae'r prosiect UNO hwn wedi creu'r system TGCh ddiweddaraf fel bo'r Cynulliad yn gallu gweithio'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru, gwella ei barhad busnes a galluogi'r Cynulliad i wneud dewisiadau priodol a chost-effeithiol ynghylch gwasanaethau TGCh yn y dyfodol.

Roedd dyluniad y system yn seiliedig ar ymgynghoriad cynhwysfawr â'r holl ddefnyddwyr, yr Aelodau, eu staff a staff y Cynulliad. Rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2010, gosodwyd y system ar gyfer 800 o ddefnyddwyr mewn dros 80 o leoliadau, gan gynnwys yn Nhŷ Hywel, mewn swyddfeydd etholaeth ac mewn cartrefi. Symudwyd hanner cant o raglenni o'r hen system i'r un newydd. Yn hytrach na gloywi'r hen gyfarpar, newidiodd y prosiect UNO holl system TGCh y Cynulliad yn llwyr, gan sefydlu llwyfan gweithredu a chanolfan ddata allanol newydd.

Cynhaliodd y Bwrdd Taliadau ei gyfarfod cyntaf i ddechrau ystyried y system o roi cymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad yn y Pedwerydd Cynulliad.

### Tachwedd 2010

Cyhoeddwyd y bwriad i ad-drefnu strwythur staffio'r Cynulliad ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad.

### Ionawr 2011

Cafodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei osod yn rhif 42 ymysg y 100 lle mwyaf cyfeillgar i bobl hoyw weithio ynddynt yn y DU, sydd bum safle yn uwch na'r flwyddyn gynt.

Mae'r Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle, a gynhyrchir gan y mudiad cyfle cyfartal Stonewall, yn edrych ar strategaethau corfforaethol, rhwydweithiau staff LHD, ymgysylltiad a datblygiad staff, ac adborth cadarnhaol.

Yn dilyn uwchraddio systemau'r Cynulliad, penderfynodd y Cynulliad roi mwy na 500 o gyfrifiaduron, 250 o beiriannau argraffu a 130 o liniaduron i Remploy i'w hailgylchu a'u hail-gyflyru.

### Chwefror 2011

Aeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru benben â San Steffan ar gyfer gêm rygbi achos da yng Nghaerdydd. Cynhaliwyd y pumed gêm rygbi flynyddol dros achos da yng Nghlwb Rygbi Harlequins Cyn-Fechgyn Ysgol Uwchradd Caerdydd.

Mae'r gêm flynyddol yn cael ei chwarae cyn y gêm rhwng Cymru a Lloegr yng nghystadleuaeth y Chwe Gwlad.

Roedd tîm y Cynulliad Cenedlaethol yn cynnwys pedwar Aelodau Cynulliad, sef Andrew RT Davies AC, Dai Lloyd AC, Alun Davies AC ac Alun Cairns AC AS. Chwaraeodd Alun Cairns i'r ddau dîm, gan ddechrau gyda thîm y Cynulliad cyn symud at dîm Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi. Hon oedd ei gêm olaf i dîm y Cynulliad cyn dechrau yn ei swydd fel Aelod Seneddol llawn amser ar ôl etholiad y Cynulliad ym mis Mai. Roedd aelodau eraill o'r tîm yn cynnwys staff y Cynulliad a swyddogion Llywodraeth Cymru.

Capten tîm Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi oedd yr Arglwydd Addington, a roedd hefyd yn cynnwys Stephen Crabb AS, Chris Bryant AS, Mark Pawsey AS a Chris Heaton-Harris AS. Gweision sifil a staff yr Aelodau Seneddol oedd aelodau eraill yîm.

Chwaraewyd y gêm i godi arian i'r elusen Bowel Cancer UK a ddewiswyd gan dîm rygbi'r Cynulliad. Tîm Rygbi Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi a ddaeth i'r brig, a'r sgôr derfynol oedd 15–5 i'r ymwelwyr.

## Mawrth 2011

Cymerodd yr ieithydd a'r ysgolhaig adnabyddus Noam Chomsky ran mewn sesiwn Holi ac Ateb â nifer fach o bobl yn y Pierhead.

Cafodd y Cynulliad ei ddiddymu am y tro cyntaf am hanner nos ar 31 Mawrth 2011.



Adran 08–

# Datganiad o'r cyfrifon

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Tudalen 60 | Sylwadau rheoli |
| Tudalen 69 | Adroddiad taliadau |
| Tudalen 76 | Datganiad o gyfrifoldebau’r Comisiwn a’r Swyddog Cyfrifyddu |
| Tudalen 77 | Datganiad rheolaeth fewnol |
| Tudalen 85 | Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| Tudalen 88 | Datganiad Cyflenwad Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| Tudalen 89 | Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr |
| Tudalen 90 | Datganiad o’r Sefyllfa Ariannol |
| Tudalen 91 | Datganiad Llif Arian |
| Tudalen 92 | Datganiad o’r Newidiadau yn Ecwiti’r Trethdalwyr |
| Tudalen 94 | Datganiad Costau Gweithredu yn ôl Nodau ac Amcanion |
| Tudalen 96 | Nodiadau i gyd-fynd â’r Cyfrifon Adnoddau |

## Sylwadau rheoli

Paratowyd y cyfrifon hyn yn unol â Chyfarwyddyd y Trysorlys a gyhoeddwyd o dan Adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae'r datganiadau ariannol yn cydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys Ei Mawrhydi a pharatowyd nodiadau esboniadol i gyd-fynd â hwy. Yn ogystal â'r datganiadau ariannol manwl ar dudalen 88 ac ymlaen, mae'n bosibl y bydd y wybodaeth a ganlyn o ddiddordeb arbennig.

- Taliadau i ddeiliaid swyddi'r Cynulliad ac uwch staff (tudalen 69);
- y trefniadau sydd ar gael i helpu i ddiogelu cronfeydd ac asedau cyhoeddus Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Comisiwn") a'i helpu i gyflawni ei bolisïau, ei nodau a'i amcanion (tudalen 94);
- cymharu gwir wariant â phenawdau cyllidebau ar gyfer y flwyddyn (tudalen 100);
- cyflog a chostau cysylltiedig Aelodau'r Cynulliad, staff y Cynulliad a'r nifer a gyflogir gan Gomisiwn y Cynulliad (tudalen 103);
- costau lwfansau teithio a lwfansau eraill yr Aelodau (tudalen 110);
- colledion a thaliadau arbennig (tudalen 122);

Mae'r cyfrifon hyn yn nodi effaith ariannol penderfyniadau'r Comisiwn yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol a'r blynyddoedd ariannol blaenorol. I ddeall yn well yr hyn y mae'r Comisiwn wedi'i gyflawni yn ystod y flwyddyn, ewch i'r Adroddiad Blynyddol sy'n rhoi rhagor o fanylion ac a gyhoeddir ochr yn ochr â'r cyfrifon hyn. Mae gwybodaeth am y Cynulliad a'r Comisiwn hefyd ar gael ar wefan y Cynulliad: www.cynulliadcymru.org a www.assemblywales.org.

**Hanes, cefndir statudol a'r prif weithgareddau**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Sefydlwyd y Comisiwn ym mis Mai 2007 o dan Adran 27 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006) ac mae ganddo ddyletswydd i sicrhau bod y Cynulliad yn cael yr eiddo, y staff a'r gwasanaethu sydd eu hangen arno. Mae'r Comisiwn yn cynnwys pum Comisiynydd: y Llywydd fel Cadeirydd, a phedwar Aelod arall o Gynulliad Cenedlaethol Cymru a benodir gan y Cynulliad. Clerc y Cynulliad (a benodir o dan Adran 26 o Ddeddf 2006) yw Prif Weithredwr y Comisiwn a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu. Yn ymarferol, mae'r Comisiwn wedi dirprwyo'i gyfrifoldebau gweithredol o ddydd i ddydd i'r Prif Weithredwr a'r Clerc, gyda rhai eithriadau. Cyfeirir at ei staff, a benodir o dan baragraff 3 o Atodlen 2 i Ddeddf 2006, fel staff y Cynulliad. Mae'r Comisiwn yn annibynnol ar Weinidogion Llywodraeth Cymru ("Gweinidogion Cymru").

Mae’r Comisiwn yn darparu’r seilwaith, y cyflogau a’r lwfansau sy’n galluogi Aelodau’r Cynulliad i ymgymryd â’u dyletswyddau yn adeiladau’r Cynulliad ym Mae Caerdydd (y Senedd a Thŷ Hywel) ac yn y swyddfeydd lleol. Mae’n darparu cyfleusterau a staff i ganiatáu i’r Cynulliad a’i bwyllgorau gyfarfod ac mae’n codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o’r broses ddemocrataidd ac yn ennyn eu diddordeb yn y broses honno. Diben y Comisiwn yw sicrhau bod y Cynulliad yn gorff seneddol hygyrch ac effeithiol sy’n ennyn hyder pobl Cymru. I ategu hyn, pennwyd yr amcanion a ganlyn yn y Strategaeth ar gyfer y Trydydd Cynulliad 2007-2011:

- Hyrwyddo datganoli ac annog rhagor o bobl i gymryd rhan yn y broses;
- Dangos undod, arweinyddiaeth ac ymateb yn feiddgar i newidiadau cyfansoddiadol;
- Dangos parch, cywirdeb a llywodraethu da ym mhob agwedd ar ein gwaith
- Gweithio’n gynaliadwy;
- Sicrhau bod y Cynulliad yn darparu’r gwasanaeth gorau ac y caiff ei ddarparu yn y modd mwyaf effeithiol.

**Comisiwn y Cynulliad**

| *Dyma’r Comisiynwyr yn ystod 2010-11 :* | *Cyfnod y Penodiad* |
|---|---|
| Y Gwir Anrhydeddus yr Arglwydd Elis Thomas, y Llywydd tan fis Mai 2011 | 9 Mai 2007 – 11 Mai 2011 |
| William Graham | 6 Mehefin 2007 – 25 Mai 2011 |
| Lorraine Barrett | 6 Mehefin 2007 - 25 Mai 2011 |
| Peter Black | 6 Mehefin 2007 - ailbenodwyd 25 Mai 2011 |
| Christopher Franks | 18 Medi 2007 – 25 Mai 2011 |

| *Dyma’r Comisiynwyr a benodwyd ym mis Mai 2011, yn unol â phenderfyniad y Cynulliad:* | |
|---|---|
| Rosemary Butler AC<br>Y Llywydd o fis Mai 2011 ymlaen | Etholwyd 11 Mai 2011 |
| Peter Black AC | Ailbenodwyd 25 Mai 2011 |
| Angela Burns AC | Penodwyd 25 Mai 2011 |
| Rhodri Glyn Thomas AC | Penodwyd 25 Mai 2011 |
| Sandy Mewies AC | Penodwyd 25 Mai 2011 |

Mae'r Comisiwn wedi cytuno ar drefniadau portffolio sy'n golygu bod gan y Comisiynwyr unigol gyfrifoldeb dros faterion penodol. Dyma oedd cyfrifoldebau'r Comisiynwyr yn 2010-11:

**Yr Arglwydd Elis Thomas – Cadeirydd y Comisiwn** - cyfrifoldeb arbennig dros annog rhagor o bobl i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd; arweinyddiaeth ragorol; datblygu pwerau deddfu'r Cynulliad yn y dyfodol a chysylltiadau allanol.

**Lorraine Barrett - Comisiynydd y Cynulliad Cynaliadwy** - mae'r portffolio hwn yn cynnwys cyfrifoldeb dros gydraddoldeb; iaith; yr amgylchedd a niwtraliaeth garbon; caffael cynaliadwy a rheoli'r ystad.

**Peter Black - Comisiynydd y Cynulliad a'r Dinesydd** – mae'r portffolio hwn yn cynnwys ystyried safon y broses craffu a deddfu; cyfathrebu allanol; TGCh; addysg ym maes dinasyddiaeth; materion cyfreithiol a Rhyddid Gwybodaeth.

**Christopher Franks - Comisiynydd y Cynulliad sy'n Gwella** - mae'r portffolio hwn yn cynnwys ystyried gwella gwasanaethau i'r Aelodau ac i ddinasyddion; cynnwys rhanddeiliaid yn y gwaith; cynllunio strategol; ac ystyried gwerth am arian.

**William Graham – Comisiynydd Adnoddau'r Cynulliad** – mae'r portffolio hwn yn cynnwys ystyried sut y caiff asedau'r Cynulliad eu rheoli; pobl y Cynulliad (gan gynnwys staff, contractwyr, gwasanaethau a ddarperir i gynorthwyo Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad); cyllideb y Comisiwn; cyflogau a lwfansau'r Aelodau; effeithlonrwydd a llywodraethu da.

## Cynghorwyr Annibynnol

Mae'r Comisiwn wedi penodi pedwar o gynghorwyr annibynnol, sef:

| | |
|---|---|
| Mair Barnes* (Tach 2007-Tach 2013) | Tim Knighton# (Tach 2007-Tach 2012) |
| Richard Calvert# (Tach 2007-Tach 2013) | Yr Athro Robert Pickard# (Tach 2007-Tach 2012) |

Mae'r cynghorwyr yn rhoi cyngor annibynnol ac adeiladol i Gomisiwn y Cynulliad(*) a thrwy fod yn aelodau o Bwyllgor Archwilio Comisiwn y Cynulliad (#) maent hefyd yn cyfrannu at amrywiaeth o agweddau eraill ar waith y Comisiwn.

**Uwch reolwyr a staff y Cynulliad**

Dyma'r uwch reolwyr (y Prif Weithredwr a'i Chyfarwyddwyr) a gyflogwyd gan y Comisiwn drwy gydol y flwyddyn tan y dyddiad y llofnodwyd y cyfrifon:

| | |
|---|---|
| Claire Clancy | Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad<br>Y Prif Swyddog Cyfrifyddu |
| Dianne Bevan | Y Prif Swyddog Gweithredu |
| Adrian Crompton | Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad |
| Keith Bush | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Prif Gynghorydd Cyfreithiol |

Mae'r Adroddiad Taliadau yn y cyfrifon hyn yn cynnwys gwybodaeth am gyflogau a hawliau pensiwn yr unigolion a enwir a'r costau teithio a chynhaliaeth a hawliwyd ganddynt am y flwyddyn.

Caiff yr uwch reolwyr eu penodi i'w swyddi'n barhaol.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, dyma faint o staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd gan y Comisiwn:

| | 31 Mawrth 2011 | 31 Mawrth 2010 |
|---|---|---|
| Staff a gyflogwyd | 322.9 | 362.4 |
| Staff ar secondiad | 3.8 | 2.8 |

Mae'r newid sylweddol ers 31 Mawrth 2010 i'w briodoli yn bennaf i'r cynllun tâl diswyddo gwirfoddol y manteisiodd 25 o staff arno rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2010.

Y gyfradd absenoldeb gyffredinol oherwydd salwch am y flwyddyn oedd 3.19 (3.23% yn 2009-10) o'i gymharu â'r targed o 3.18% am y flwyddyn (sy'n cyfateb i 7 diwrnod).

**Adolygiad o'r Flwyddyn Ariannol**

Yn ystod pedwaredd flwyddyn y Comisiwn – a blwyddyn olaf y Trydydd Cynulliad – fe'i gwelwyd yn parhau i ddatblygu ac i gyflawni, fel y nodir yn yr Adroddiad

Blynyddol. Yn ogystal â chynorthwyo'r Cynulliad i roi ei raglen deddfu a chraffu lawn ar waith, dyma rai uchafbwyntiau eraill:

Cytunodd y Cynulliad ar Fesur Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chafwyd cydsyniad Brenhinol iddo ym mis Gorffennaf 2010, gan sefydlu bwrdd statudol annibynnol, sef y Bwrdd Taliadau, i benderfynu ar system o gymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad. Dyma oedd un o brif argymhellion 'Yn Gywir i Gymru', yr adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2009 gan y panel annibynnol a benodwyd gan y Comisiwn yn 2008. Cyfarfu'r bwrdd Taliadau am y tro cyntaf ym mis Hydref 2010 a chyhoeddodd ei adroddiad Addas i'r Diben a'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau cysylltiedig ym mis Mawrth 2011.

Yn dilyn cydsyniad Brenhinol i Fesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Rhagfyr 2009, penodwyd Comisiynydd Safonau annibynnol, statudol ym mis Tachwedd 2010 i arolygu safonau ymddygiad Aelodau'r Cynulliad. Deiliad y swydd yw Gerard Elias CF, ac mae'n fargyfreithiwr blaenllaw â blynyddoedd o brofiad ym maes y gyfraith droseddol a disgyblaeth broffesiynol yn y DU. Mae'r Gofrestr o fuddiannau ariannol a buddiannau eraill yr Aelodau yn parhau i gael ei diweddaru a'i chyhoeddi ar wefan y Cynulliad. Cyhoeddir cofnod o'r Aelodau hynny sy'n cael cymorth ariannol, ar unrhyw adeg, gan y Comisiwn i gyflogi, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, pobl y maent yn gwybod eu bod yn perthyn iddynt hwy neu i Aelod arall.

Mae'r Comisiwn yn gweinyddu'r broses o enwebu Archwilydd Cyffredinol Cymru, a benodir gan Ei Mawrhydi'r Frenhines. Penodwyd Huw Vaughan Thomas i'r swydd ym mis Hydref 2010.

Cytunodd y Comisiwn ar ei strategaeth e-ddemocratiaeth, gan nodi sut y byddai'n defnyddio technoleg newydd i ymgysylltu rhagor â phobl Cymru; cafodd ymgyrch Pleidleisiwch 2011 ei chynnal i annog pobl i bleidleisio yn y Refferendwm ar 3 Mawrth 2011 ynghylch rhoi rhagor o bwerau deddfu i'r Cynulliad ac yn etholiad y Cynulliad ar 5 Mai 2011. Yn ogystal â hyn, rhoddwyd rhaglen fewnol sylweddol ar waith yn ystod y flwyddyn i sicrhau ein bod yn trosglwyddo'n llwyddiannus i'r Pedwerydd Cynulliad ac yn cynnig y cymorth gorau bosibl i'r Aelodau a etholwyd. Ochr yn ochr â hyn, cynhaliodd y Cynulliad adolygiad eang o'i Reolau Sefydlog a chymeradwywyd y Rheolau Sefydlog newydd yn barod ar gyfer mis Mai 2011.

Cwblhawyd prosiect sylweddol (Uno rhwydwaith y sefydliad, neu UNO) yn ystod y flwyddyn, a chostiodd £4.6miliwn. Creodd hyn rwydwaith technoleg gwybodaeth unedig i Aelodau a staff y Cynulliad, ar wahân i rwydwaith Llywodraeth Cymru. Mae'n cynnig manteision hirdymor o ran rheoli gwybodaeth, ennyn diddordeb y cyhoedd, caffael Technoleg Gwybodaeth a gwella parhad busnes.

Yn erbyn cefndir o dynhau gwariant cyhoeddus, cymeradwyodd y Comisiwn strategaeth gyllidebol ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad a fyddai'n golygu lleihau gwariant mewn termau real, gan gynnwys lleihau nifer gyffredinol y staff a gyflogir gan y Comisiwn. Cymeradwyodd y Comisiwn gyllideb 2011-12, ym mis Rhagfyr 2010, a oedd yn galw am wahanu cyllid ar gyfer gwasanaethau'r Cynulliad ac Aelodau'r Cynulliad (gan greu 'cwmpasau'). Gwnaed hyn i adlewyrchu'r gwariant ar wasanaethau'r Cynulliad a fydd yn parhau i gael eu rheoli'n uniongyrchol gan y Comisiwn, a thâl a lwfansau'r Aelodau sy'n awr yn cael eu pennu gan y Bwrdd Taliadau annibynnol.

Er mwyn cyflymu arbedion mewn costau staff, cynigiodd y Comisiwn gynllun tâl diswyddo gwirfoddol yn ystod y flwyddyn. Manteisiodd 25 o staff ar y cynllun hwn, a gostiodd £0.9m, a bydd arbedion cylchol blynyddol o £0.7m. Ad-drefnwyd y sefydliad hefyd i gryfhau gwasanaethau wrth i'r Comisiwn baratoi i gefnogi'r Pedwerydd Cynulliad Cenedlaethol yn ystod ei dymor o bum mlynedd.

Rhaid i'r Comisiwn arfer ei swyddogaethau'n unol ag egwyddorion cyfle cyfartal i bawb; hyrwyddo datblygu cynaliadwy; a thrin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail cydraddoldeb. Mae'r Adroddiad Etifeddiaeth, yr Adroddiad Blynyddol, y Cyfrifon hyn a gwefan y Cynulliad i gyd yn rhoi darlun cynhwysfawr o'r modd y mae'r Comisiwn yn ymgymryd â'r dyletswyddau hyn ac yn nodi'r hyn y mae wedi'i gyflawni. Dyma uchafbwyntiau 2010-11:

- Cyhoeddodd panel annibynnol adroddiad ar ddyfodol gwasanaethau dwyieithog yn y Cynulliad, gan arwain at gyflwyno'r Cofnod Cryno - sy'n ei gwneud yn haws i bobl ddysgu am drafodion y Cynulliad;
- Dyfarnwyd mai'r Comisiwn oedd y sefydliad cyhoeddus mwyaf cynaliadwy yn y DU ar lefel llywodraeth gan ennill Gwobr Rheoli Cyfleusterau Cynaliadwy; llwyddodd i gadw'r achrediad ar gyfer dulliau rheoli amgylcheddol o dan y Ddraig Werdd, Lefel 5 a chyhoeddodd yr Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol ar gyfer y Cynulliad;
- Enillodd y Comisiwn gydnabyddiaeth Buddsoddwyr mewn Pobl, gan gyrraedd y safon aur. Dim ond 25 o gyrff cyhoeddus yn y DU sydd wedi cyrraedd y safon hon, a hon yw'r unig ddeddfwrfa yn y DU i wneud hynny;
- Mae safle'r Comisiwn ym Mynegai Stonewall ar gyfer cyrff sy'n cyflogi staff lesbaidd, hoyw a deurywiol wedi gwella. Mae nawr yn safle 42.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd y Comisiwn 66 cais o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (58 cais yn 2009-10). Ni wnaeth y Comisiwn godi tâl am ymateb i'r ceisiadau hyn ac nid yw wedi gwrthod ymateb i gais ar sail cost.

Diddymwyd y Trydydd Cynulliad ganol nos ar 31 Mawrth 2011 a daeth tymor gwasanaeth yr Aelodau a etholwyd ym mis Mai 2007 i ben.

## Perfformiad ariannol yn ystod y flwyddyn

Arian o Gronfa Gyfunol Cymru a ddefnyddir ar gyfer gwariant y Comisiwn. Yr alldro adnoddau net ar gyfer 2010-11 oedd £43.7 miliwn (£48.9 miliwn yn 2009-10). Roedd hyn yn cynnwys credyd i'r cyfrif o £2.692 miliwn mewn cysylltiad â Chyllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad. O dan reolau cyllidebu'r Trysorlys, ni fyddai wedi bod yn bosibl defnyddio'r arbedion at ddibenion gwariant nad oedd yn gysylltiedig â phensiynau. Arweiniodd hyn at danwariant o £0.322 miliwn neu 0.7 y cant ar gyfer y flwyddyn (£0.8 miliwn neu 1.7 y cant o danwariant yn 2009-10). Gwariwyd £12.7 miliwn (£12.6 miliwn yn 2009-10) ar gyflogau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad gan gynnwys lwfansau ar gyfer staff ac adeiladau yn eu hetholaethau/hardaloedd i'w cynorthwyo i gyflawni eu dyletswyddau. £14.0 miliwn (£13.9 miliwn yn 2009-10) oedd cost cyflogi staff y Comisiwn a chostau cysylltiedig; gwariwyd £16.6 miliwn (£15.8miliwn yn 2009-10) ar adeiladau, TGCh a chostau eraill yn ymwneud â rhedeg y Comisiwn; cafwyd £0.1miliwn o incwm ar ffurf rhent a drwy werthu nwyddau yn Siop y Cynulliad (£0.1 miliwn yn 2009-10). Rhan o'r costau TGCh oedd £2.9 miliwn a wariwyd ar UNO, sef prif brosiect Technoleg Gwybodaeth y Comisiwn. Cyflwynodd y Comisiwn Gyllideb Atodol o £1.95miliwn yn ystod y flwyddyn i dalu am y rhan fwyaf o'r costau sylweddol hyn. Cymeradwywyd y gyllideb ar 21 Mehefin 2010.

Nid yw'r ffigurau uchod yn cynnwys costau'n ymwneud â chyflog y Llywydd, y Dirprwy Lywydd, Archwilydd Cyffredinol Cymru, y Comisiynydd Safonau na'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus. Y Comisiwn sy'n talu'r cyflogau hyn ond cânt eu talu'n uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru, yn ôl statud. Gan hynny, nid ydynt yn cael eu cynnwys yn alldro adnoddau net y Comisiwn. Cyfanswm y costau hyn yn 2010-11 oedd £0.6 miliwn (£0.6 miliwn yn 2009-10).

Ar 31 Mawrth 2011, £67.8 miliwn oedd cyfanswm asedau net y Comisiwn (£60.4 miliwn ar 31 Mawrth 2010).

## Datblygiadau yn y dyfodol

Bydd y wasgfa ariannol yn y sector cyhoeddus yn parhau i fod yn arwyddocaol yn ystod y blynyddoedd nesaf, nid yn unig o ran y modd y mae'r Comisiwn yn sicrhau gwerth am arian drwy ei wasanaethau ond, yn bwysicach, yn y modd y mae'r Comisiwn yn sicrhau bod Aelodau'r Cynulliad yn cael yr adnoddau, y cyngor a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i gyflawni'u gwaith yn effeithiol gan gynnwys: mwy o graffu ar bolisïau a phenderfyniadau Llywodraeth Cymru o ran gwariant; ymgysylltu rhagor â phobl Cymru i sicrhau bod y Cynulliad yn darparu ar eu cyfer; gwneud deddfau da i Gymru yn dilyn y bleidlais gadarnhaol a gafwyd yn y refferendwm.

Newidiodd aelodau'r Comisiwn ar ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad. Bydd y Comisiynwyr newydd am ystyried Adroddiad Etifeddiaeth y Comisiwn blaenorol a sut y mae am fwrw ymlaen â'i argymhellion; ailystyried egwyddorion llywodraethu a dirprwyaeth y Comisiwn i Brif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad; ac adolygu a datblygu strategaethau i adeiladau ar y sylfeini cryfion a osodwyd dros y pedair blynedd diwethaf. Bydd hyn yn cynnwys cytuno ar amcanion strategol newydd i lywio'r sefydliad drwy'r pum mlynedd nesaf.

Mae rhaglen gynefino a datblygiad proffesiynol benodol wedi'i pharatoi i gynorthwyo'r holl Aelodau i gyflawni'u swyddogaethau anodd.

Mae'r Comisiwn yn wynebu cryn her wrth geisio sicrhau cydbwysedd rhwng y disgwyliadau cynyddol sydd ar y Cynulliad a'i Aelodau ac adnoddau ariannol tynnach. Mae diwylliant cryf o lwyddiant wedi ymwreiddio yng ngwasanaethau'r Cynulliad, fodd bynnag, ynghyd ag ymdeimlad cryf o bwysigrwydd rheoli arian cyhoeddus a sicrhau bod pob punt yn cael ei gwario'n ddoeth. Bydd y Comisiwn yn parhau i geisio sicrhau arbedion drwy weithio'n fwy effeithlon a sicrhau gwerth am arian ond ni fydd yn cyfaddawdu ar safon y gwasanaethau sydd eu hangen ar y Cynulliad i ddarparu ar gyfer pobl Cymru.

**Rhwymedigaethau Pensiwn**

Mae'r modd y caiff rhwymedigaeth pensiwn eu trin a manylion y cynlluniau pensiwn perthnasol wedi'u nodi yn y Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu yn y cyfrifon hyn.

**Polisi talu cyflenwyr**

Un o dargedau perfformiad allweddol y Comisiwn ar gyfer 2010-11 oedd talu pob cyflenwr cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl derbyn anfonebau, os nad oedd anghydfod yn eu cylch. Ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn, talwyd 92% ohonynt cyn pen 10 diwrnod (93% ar gyfartaledd yn 2009-10).

**Y Pwyllgor Archwilio**

Mae gan y Comisiwn Bwyllgor Archwilio sy'n helpu'r Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifyddu i fonitro ac adolygu llywodraethu corfforaethol, rheoli risg a systemau rheoli, rhoi cyngor ynghylch y cyfrifon blynyddol ac adroddiadau archwilio mewnol ac allanol. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys tri chynghorydd annibynnol ac un o Gomisiynwyr y Cynulliad. Yr aelodau yw Richard Calvert (Cadeirydd), Tim Knighton, yr Athro Robert Pickard a William Graham, a oedd yn Gomisiynydd Adnoddau'r Cynulliad. Yn dilyn Etholiad mis Mai 2011, mae Angela Burns AC wedi'i phenodi'n gomisiynydd, a bydd yn cymryd lle William Graham ar y Pwyllgor Archwilio. Roedd gwaith y Pwyllgor yn ystod 2010-11 yn cynnwys cynghori ynghylch cyfrifon blynyddol 2009-10; adolygu

hynt argymhellion Adroddiadau Archwilio Mewnol ar gaffael a rheoli cytundebau; ystyried Strategaeth Rheoli Gwybodaeth y Comisiwn; a rhoi cyngor ynghylch sicrwydd sy'n cefnogi'r Datganiad Rheolaeth Fewnol yn y Cyfrifon hyn. Bydd y Comisiwn yn cyflwyno adroddiad Blynyddol i Gomisiwn y Cynulliad.

**Archwilio'r cyfrifon**

Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n archwilio'r cyfrifon yn unol ag Adran 137 o Ddeddf 2006. £59,450 yw'r gost y cytunwyd arni ar gyfer archwilio cyfrifon 2010-11 (£61,400 yn 2009-10).

**Datgelu gwybodaeth archwilio berthnasol**

Fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd y camau angenrheidiol i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod yr archwilwyr hefyd yn ymwybodol o'r wybodaeth hon.

**Digwyddiadau ers diwedd y cyfnod ariannol**

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol rhwng diwedd y cyfnod ariannol a'r dyddiad y cwblhawyd y cyfrifon hyn.

**Claire Clancy**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad**

**Dyddiad:**
**11 Gorffennaf 2011**

# ADRODDIAD TALIADAU

## Polisi taliadau

Tan fis Ebrill 2009, roedd cyflog sylfaenol Aelodau'r Cynulliad wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â chyflog Aelodau Seneddol. Yn dilyn adroddiad y panel adolygu annibynnol, 'Yn Gywir i Gymru', a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2009, torrwyd y cysylltiad hwnnw, a Bwrdd Taliadau annibynnol sydd bellach yn penderfynu ar y cymorth ariannol a gaiff Aelodau'r Cynulliad, gan gynnwys eu cyflogau.

Sefydlwyd y Bwrdd gan Fesur Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010 a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 21 Gorffennaf 2010. Daeth y Bwrdd yn weithredol ym mis Medi 2010. Mae pedwar aelod ar y Bwrdd, sef Sandy Blair CBE, Mary Carter, Stuart Castledine a'r Athro Monojit Chatterji, sydd yn cael £185 y diwrnod ac mae Cadeirydd y Bwrdd, Y Gwir Anrhydeddus George Reid yn cael £243 y diwrnod. Cânt eu penodi am dymor o bum mlynedd.

Cyhoeddwyd adroddiad y Bwrdd, Addas i'r Diben ym mis Mawrth 2011, a daeth i'r casgliad y dylai'r cyflog o £53,852 a bennwyd ar gyfer 2010-11 barhau am bedair blynedd o ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad. Penderfynodd saith Aelod beidio â chymryd eu tâl llawn ar gyfer blwyddyn ariannol 2010-11 (10 Aelod yn 2009-10).

Gallai'r Aelodau a ganlyn hawlio cyflogau blynyddol ychwanegol:

| | O<br>1 Ebrill 2009 | O<br>2 Tachwedd 2009 | O<br>1 Ebrill 2010 |
|---|---|---|---|
| Y Llywydd ac Arweinydd yr wrthblaid fwyaf | £41,370 | £41,370 | £41,950 |
| Y Dirprwy Lywydd | £26,022 | £26,022 | £26,385 |
| Prif Chwip yr wrthblaid a Chomisiynwyr y Cynulliad | £11,543 | £12,000 | £12,168 |
| Arweinydd y gwrthbleidiau heblaw am yr wrthblaid fwyaf. Cadeiryddion y pwyllgorau craffu[1] a'r Pwyllgorau Cyllid a Chyfrifon Cyhoeddus. | £11,543 | £12,000 | £12,168 |
| Cadeiryddion pwyllgorau eraill[2] | £6,039 | £8,000 | £8,112 |

Roedd y tabl hwn yn destun archwiliad

[1] Dyma'r pwyllgorau craffu: Cymunedau a Diwylliant; Menter a Dysgu; Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol; Cynaliadwyedd; Materion Cyfansoddiadol; 5 pwyllgor Deddfwriaeth.

[2] Dyma'r pwyllgorau eraill: Plant a Phobl Ifanc; Cyfle Cyfartal; Materion Ewropeaidd ac Allanol; Deisebau; Safonau Ymddygiad.

O’r rhai a allai hawlio’r cyflogau ychwanegol, penderfynodd 15 Aelod beidio â chymryd eu tâl llawn yn 2010-11 (10 Aelod wnaeth hynny yn 2009-10).

Nid yw’r Comisiwn yn rhoi buddion mewn nwyddau.

Mae Aelodau’r Cynulliad yn aelodau o Gynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chaiff cyfrifon blynyddol eu cyhoeddi ar wahân ar gyfer y Cynllun hwn ar wefan y Cynulliad, **www.cynulliadcymru.org**.

Mae’r Comisiwn yn talu cyflogau a chostau cysylltiedig Gweinidogion Cymru a chaiff y rhain eu datgelu mewn nodyn yng Nghyfrifon Adnoddau Cyfunol Llywodraeth Cymru er bod y taliadau’n dod o Gronfa Gyfunol Cymru

Penodwyd pedwar o gynghorwyr annibynnol ym mis Tachwedd 2007 (am gyfnod cychwynnol o dair blynedd) a chafodd y penodiadau hyn eu hymestyn ym mis Tachwedd 2010 (yn unol â’r amodau’n gysylltiedig â’u penodiad). O ganlyniad, cafodd penodiad dau ohonynt ei ymestyn tan fis Tachwedd 2012 a’r ddau arall tan fis Tachwedd 2013, gan greu elfen o gysondeb. Mae’r cynghorwyr yn cael tâl amhensiynadwy o £5,000 y flwyddyn (£7,000 y flwyddyn i Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio).

**Y Pwyllgor Taliadau**

Mae gan y Comisiwn Bwyllgor Taliadau o dri aelod annibynnol, sy’n cynorthwyo’r Comisiwn a’r Prif Weithredwr i sicrhau ein bod yn cyrraedd y safonau uchaf o ran cywirdeb ac atebolrwydd yn y modd y defnyddir arian cyhoeddus ac, yn benodol, yn ein polisïau a’n systemau arfarnu a thalu.

Aelodau’r Pwyllgor yw Tony Morgan (Cadeirydd Archwilwyr Geldards a chyn bartner PricewaterhouseCoopers cyn iddo ymddeol), a dau o gynghorwyr annibynnol y Comisiwn, sef yr Athro Robert Pickard a Tim Knighton. Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Taliadau (sydd wedi’i benodi tan fis Ionawr 2014) yn cael tâl amhensiynadwy o £1,250 y flwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn, mae gwaith y Pwyllgor wedi cynnwys ystyried tâl y Prif Weithredwr a’r Cyfarwyddwyr a sicrhau bod amodau a thelerau staff y Cynulliad yn cyfateb yn gyffredinol i’r rheini sy’n berthnasol i staff Llywodraeth Cymru (yn unol â Pharagraff 3 o Atodlen 2 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006). Wedi i’r Pwyllgor Taliadau ystyried y cynnig a dod i gytundeb â’r Comisiwn, crëwyd graddfa gyflogau unedig ar gyfer yr holl staff a gyflogir gan y Comisiwn, gan gynnwys y Cyfarwyddwyr a’r Prif Weithredwr, a daeth yn weithredol ar 1 Ebrill 2008.

## Cytundebau gwasanaeth

Penodir staff y Comisiwn, yn unol ag amodau a thelerau a bennir gan y Comisiwn, yn ôl teilyngdod ar sail cystadleuaeth deg ac agored ond maent hefyd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer amgylchiadau lle ceir penodi heb ddilyn y drefn arferol. Mae'r egwyddorion hyn yn cyd-fynd â threfniadau'r Gwasanaeth Sifil. Nid yw'r staff yn aelodau o'r Gwasanaeth Sifil ond mae ganddynt hawl i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS).

Oni nodir yn wahanol isod, mae staff y Cynulliad y mae'r adroddiad hwn yn berthnasol iddynt, yn cael eu penodi am gyfnod penagored. Os terfynir eu cyflogaeth yn gynnar am unrhyw reswm ac eithrio camymddygiad, bydd yr unigolyn yn cael iawndal, fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

## Cyflogau a hawliadau pensiwn

Mae'r adrannau a ganlyn yn rhoi manylion am dâl a phensiynau deiliaid swyddi ac uwch swyddogion. Cânt eu cyflwyno yn ôl bandiau cyflog a phensiwn

Mae gan Gomisiynwyr y Cynulliad, ac eithrio'r Llywydd, hawl i gyflog blynyddol o £12,168 yn ogystal â'u cyflogau fel Aelodau'r Cynulliad. Nid yw manylion eu pensiwn wedi'u cynnwys isod gan mai dim ond rhan o'u tâl sy'n berthnasol i'w gwaith fel Comisiynwyr. Nid oes modd gwahanu'u pensiwn cronedig a'u Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) fel Comisiynwyr oddi wrth y cyfanswm a gronnwyd.

| **Enw a theitl** | **Cyflog 2010/11** | **Cyflog 2009/10** | **Gwir gynnydd yn y pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig pan fydd yn 65 oed** | **Cyfanswm y pensiwn cronedig pan fydd yn 65 oed a chyfandaliad cysylltiedig erbyn 31/3/11** | **CETV ar 31/3/10** | **CETV ar 31/3/11** | **Gwir gynnydd mewn CETV** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Deiliaid swyddi** | | | | | | | |
| Yr Arglwydd Elis Thomas AC – *Y Llywydd* | 90-95 | 90-95 | 2.5-5 | 35-40 | 736* | 789 | 27 |
| Rosemary Butler AC – *Y Dirprwy Lywydd* | 75-80 | 75-80 | 0-2.5 | 15-20 | 317* | 352 | 22 |

| Uwch Reolwyr | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Enw a theitl** | **Cyflog 2010/11** | **Cyflog 2009/ 10** | **Gwir gynnydd yn y pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig pan fydd yn 60 oed** | **Cyfanswm y pensiwn cronedig yn 60 oed a chyfandaliad cysylltiedig erbyn 31/3/10** | **CETV ar 31/3/10** | **CETV ar 31/3/1 1** | **Gwir gynnydd mewn CETV** |
| Claire Clancy – *Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad* | 135-140 | 135-140 | 0-2.5 a chyfandaliad o 0-5 | 55-60 a chyfandaliad o 165-170 | 958* | 1,035 | -1 |
| Dianne Bevan – *Y Prif Swyddog Gweithredu* | 115-120 | 115-120 | 0-2.5 | 50-55 | 752* | 820 | 1 |
| Adrian Crompton – *Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad* | 100-105 | 95-100 | 0-2.5 a chyfandaliad o 0-5 | 25-30 a chyfandaliad o 85-90 | 335* | 385 | 20 |
| Keith Bush – *Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol* | 110-115 | 115-120 | 0-2.5 | 15-20 | 318* | 351 | 22 |

Roedd y tabl hwn yn destun archwiliad

* Newidiwyd y ffactorau actiwaraidd a ddefnyddiwyd i gyfrifo ffigurau CETV yn 2010/11. Mae'r ffigurau CETV ar gyfer 31/03/2010 a 31/03/2011 wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio'r ffactorau newydd, er cysondeb. Mae'r CETV ar gyfer 31/03/2010 felly'n wahanol i'r ffigur cyfatebol yn adroddiad y llynedd a gyfrifwyd gan ddefnyddio'r ffactorau blaenorol.

## Cyflogau

Y cyflogau yn y tabl uchod yw'r swm a enillodd y swyddogion yn ystod y flwyddyn ariannol ac maent yn cynnwys yr holl daliadau dyledus. Nid ydynt yn cynnwys cyfraniadau Yswiriant Gwladol neu Bensiwn. Roedd costau cyflogau'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd yn cael eu talu'n uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru ers mis Mai 2007.

### Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV)

Dyma werth cyfalafol buddiannau'r cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol yn ôl asesiad yr actwari. Y buddiannau a gaiff eu prisio yw buddiannau cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol priod sy'n daladwy o'r cynllun. Taliad yw CETV a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i ddiogelu buddiannau pensiwn

mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddiannau a gronnwyd eisoes yn y cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn nodi'r buddiannau a gronnwyd gan yr unigolion o ganlyniad i gyfanswm eu haelodaeth i'r cynllun pensiwn, nid dim ond eu penodiad presennol fel Gweinidogion. Cyfrifir CETV o fewn y canllawiau a'r fframwaith a bennir gan y Sefydliad a'r Gyfadran Actiwarïaid ac nid yw'n ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosibl mewn buddion o ganlyniad i'r Dreth Lwfans Gydol Oes a all fod yn ddyledus pan hawlir buddion pensiwn.

**Gwir gynnydd mewn CETV**

Dyma'r elfen yn y cynnydd yn y pensiwn cronedig a ariennir gan y Comisiwn. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig sy'n seiliedig ar chwyddiant, cyfraniadau sy'n cael eu talu gan yr Aelod (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar ddechrau ac ar ddiwedd y cyfnod.

**Buddion mewn nwyddau**

Ni thalwyd unrhyw fuddion mewn nwyddau i'r Prif Weithredwr a'r Clerc, y Cyfarwyddwyr, y Llywydd, na'r Dirprwy Lywydd.

**Teithio a chynhaliaeth**

Dyma'r hawliadau a wnaed gan ac ar ran y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr am dreuliau teithio a chynhaliaeth a threuliau busnes eraill yn ystod y ddwy flynedd diwethaf:

| | Claire Clancy *Y Prif Weithredwr a'r Clerc* | | Dianne Bevan *Y Prif Swyddog Gweithredu* | | Adrian Crompton *Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad* | | Keith Bush *Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol* | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2010-11 | 2009-10 | 2010-11 | 2009-10 | 2010-11- | 2009-10 | 2010-11 | 2009-10 |
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Milltiroedd mewn car | - | - | 4 | - | 54 | - | - | 43 |
| Tacsi/llogi car | - | 26 | - | - | 175 | 70 | - | 9 |
| Teithio mewn awyren | 99 | 33 | 71 | - | 320 | - | - | 356 |
| Trafnidiaeth gyhoeddus | 368 | 103 | 946 | 608 | 300 | 390 | 70 | - |
| Llety | 160 | - | 85 | 205 | 105 | 192 | - | 183 |
| Cynhaliaeth/treuliau | - | | 17 | 11 | 89 | 170 | - | - |
| **CYFANSWM** | **627** | **162** | **1,123** | **824** | **1,043** | **822** | **70** | **591** |

Roedd y tabl hwn yn destun archwiliad

**Pensiynau**

Darperir buddion pensiwn i staff y Cynulliad drwy drefniadau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn gynllun buddion diffiniedig amlgyflogwr nas ariennir ac felly ni all y Comisiwn nodi cyfran yr asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol sy'n berthnasol iddo. Cynhaliodd actiwari'r cynllun brisiad llawn o'r cynllun ar 31 Mawrth 2007. Ceir manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiwn Sifil (www.civilservice-pensions.gov.uk). Yn ystod 2010-11 roedd cyfraniadau'r cyflogwyr yn daladwy yn ôl un o bedair cyfradd rhwng 16.7% a 24.3% o dâl pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Bydd Actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd yn dilyn proses brisio lawn. Pennir cyfraddau'r cyfraniadau i dalu cost y buddion a gronnwyd yn ystod 2010-11 i'w talu pan fydd yr aelod yn ymddeol, yn hytrach na'r buddion a dalwyd yn ystod y cyfnod hwn i'r rheini sydd eisoes yn derbyn pensiwn.

O 1 Hydref 2002 ymlaen, rhaid i gyflogeion ymuno ag un o bedwar cynllun buddion 'cyflog terfynol' diffiniedig statudol (clasurol, premiwm, clasurol a mwy a nuvos). Ni chaiff y cynlluniau eu hariannu a chaiff costau'r buddiannau eu talu o swm o arian y bydd Senedd y DU yn pleidleisio arno bob blwyddyn. Bydd pensiynau sy'n daladwy o dan y cynlluniau hyn yn cynyddu'n flynyddol yn unol â newidiadau yn y Mynegai Prisiau Manwerthu. Sylwch y bydd pensiynau'r Gwasanaeth Sifil yn cynyddu'n ôl y Mynegai Prisiau Defnyddwyr o 1 Ebrill 2011 ymlaen, yn hytrach nag yn ôl y Mynegai Prisiau Manwerthu. Roedd y rheini a ymunodd o'r newydd rhwng 1 Hydref 2002 a 29 Gorffennaf 2007 yn cael dewis bod yn aelod o'r cynllun premiwm neu ymuno â chynllun cyfranddeiliaid 'prynu arian' o safon uchel sy'n cynnwys cyfraniad sylweddol gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth). Gall y rheini a ymunodd ar 30 Gorffennaf 2007 neu wedyn ymuno â'r cynllun nuvos neu gallant ddewis cyfrif pensiwn partneriaeth.

Mae cyflogeion yn talu cyfraniadau ar gyfradd o 1.5% o enillion pensiynadwy ar gyfer y cynllun clasurol a 3.5% ar gyfer y cynllun premiwm, clasurol a mwy a nuvos. Mae buddiannau yn y cynllun clasurol yn crynhoi ar gyfradd o 1/80 o gyflog pensiynadwy ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal â hyn, telir cyfandaliad sy'n gyfwerth â thair blynedd o bensiwn adeg ymddeol. Mae buddiannau'n crynhoi ar gyfradd o 1/60 o gyflog pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth yn y cynllun premiwm. Yn wahanol i'r cynllun clasurol, nid oes unrhyw gyfandaliad awtomatig ond gall aelodau roi rhan o'u pensiwn heibio i ddarparu cyfandaliad. Yn ei hanfod, amrywiad o'r cynllun premiwm yw'r cynllun clasurol a mwy, ond caiff buddiannau'n gysylltiedig â gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 eu cyfrifo'n fras fel y cynllun clasurol. Cynllun cyfartaledd gyrfa yw Nuvos gyda buddion yn cronni ar gyfradd o 2.3 y cant o'r cyflog bob blwyddyn, a chaiff ei ailbrisio'n unol â'r Mynegai Prisiau Manwerthu ar ddiwedd bob blwyddyn.

Trefniant pensiwn cyfranddeiliaid yw cyfrif pensiwn partneriaeth. Mae'r cyflogwr yn talu cyfraniad sylfaenol o rhwng 7% a 15% (yn dibynnu ar oedran yr aelod) i gynnyrch pensiwn cyfranddeiliaid a ddewisir gan y cyflogai. Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu ond os bydd yn cyfrannu, bydd y cyflogwr yn rhoi cyfraniad cyfatebol hyd at derfyn o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8% ychwanegol o gyflog pensiynadwy i gynnwys cost yswiriant buddiant risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn swydd ac ymddeoliad oherwydd salwch).

Cewch ragor o fanylion am drefniadau Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan **www.civilservice-pensions.gov.uk**

Mae Aelodau'r Cynulliad yn perthyn i Gynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Cynllun buddion diffiniedig yw hwn sy'n berthnasol i gyfanswm hawliau cyflog aelodau gan gynnwys y symiau a gaiff eu talu i ddeiliaid swyddi a Gweinidogion Cymru. Caiff y Cynllun ei weinyddu gan Ymddiriedolwyr, ac mae'n gwbl annibynnol ar Gomisiwn y Cynulliad. Mae cyfrifon y Cynllun i'w gweld ar **www.cynulliadcymru.org**

Prif fuddion y cynllun yw pensiwn o naill ai 1/50 neu 1/40 o gyflog terfynol yr aelod am bob blwyddyn o wasanaeth ar unwaith pan fydd yn ymddeol yn 65 oed. Mae'r pensiwn yn cynyddu bob blwyddyn yn unol â newidiadau yn y Mynegai Prisiau Manwerthu. Mae aelodau'n cyfrannu swm sy'n cyfateb i 6% o gyfanswm eu cyflog (gan gynnwys unrhyw elfennau ychwanegol y mae gan ddeiliaid swyddi a Gweinidogion Cymru hawl iddynt) i gael cyfradd groniadau o 1/50 , neu 10%, o gyfanswm eu cyflog i gael cyfradd groniadau o 1/40, gyda'r Comisiwn yn cyfrannu swm sy'n cyfateb i 23.8% o gyfanswm eu cyflog ar ôl 1 Ebrill 2010 (23% tan 31 Mawrth 2009).

**Claire Clancy**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad** **Dyddiad: 11 Gorffennaf 2011**

## Datganiad o gyfrifoldebau'r Comisiwn a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu

Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad, drwy rinwedd Adran 138 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, yw Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn. Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu wedi paratoi datganiad o gyfrifon yn unol â Chyfarwyddyd a gyhoeddir gan y Trysorlys, egwyddorion cyfrifyddu a'r gofynion datgelu sydd wedi'u nodi yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol. Paratowyd y Cyfrifon Adnoddau ar sail cyfrifyddu croniadau ac maent yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Comisiwn ar ddiwedd y flwyddyn, yr alldro adnoddau net, yr adnoddau a ddyrannwyd i gyflawni amcanion, y datganiad costau gweithredu, y datganiad o'r sefyllfa ariannol, llifau arian a'r datganiad o'r newidiadau yn ecwiti'r trethdalwyr yn ystod y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'r Prif Weithredwr a'r Clerc wedi:

- Cydymffurfio â chyfarwyddyd y Trysorlys mewn perthynas â chyfrifon;
- Cydymffurfio â'r gofynion perthnasol o ran cyfrifyddu a datgelu gwybodaeth, ac wedi cadw'n gyson at yr egwyddorion cyfrifyddu priodol;
- Gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon rhesymol a gofalus;
- Nodi a yw safonau cyfrifyddu priodol wedi'u dilyn, yn amodol ar unrhyw eithriadau a gaiff eu datgelu a'u hegluro yn y cyfrifon;
- Paratoi'r cyfrifon ar ffurf proses barhaus.

Mae cyfrifoldebau perthnasol y Prif Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys y cyfrifoldeb dros gywirdeb a chysondeb yng nghyllid y Comisiwn a dros gadw cofnod priodol, wedi'u nodi mewn memorandwm a gyhoeddwyd gan y Trysorlys.

**Claire Clancy**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad**

**Dyddiad: 11 Gorffennaf 2011**

# Datganiad rheolaeth fewnol

## Cwmpas y cyfrifoldeb

Fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, mae gennyf gyfrifoldeb dros gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cynorthwyo Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru gyflawni ei bolisïau, ei nodau a'i amcanion gan hefyd ddiogelu'r arian a'r asedau cyhoeddus y mae gennyf gyfrifoldeb personol drostynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd arnaf gan y Trysorlys. Mae'n ddyletswydd arnaf i, fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, i gyfuno'r dyletswyddau hyn â'm dyletswydd i wasanaethu'r Comisiynwyr yr wyf yn atebol iddynt ac sy'n rhoi awdurdod i mi.

Mae Comisiwn y Cynulliad yn pennu nodau, amcanion, polisïau a gwerthoedd y sefydliad ac, yn unol â darpariaethau paragraff 7 o Atodlen 2 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae wedi dirprwyo'i swyddogaethau, gan gynnwys ei gyfrifoldeb dros reoli staff, i mi fel Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad, yn amodol ar rai eithriadau ac amodau penodol. Mae gwaith y Cynulliad a'r Comisiwn yn ennyn cryn dipyn o ddiddordeb ymhlith y cyhoedd a'r cyfryngau, ac mae iddo oblygiadau gwleidyddol pellgyrhaeddol. Bu hyn yn arbennig o wir yn ystod blwyddyn pan gynhaliwyd refferendwm ar roi pwerau ychwanegol i'r Cynulliad a'r paratoadau ar gyfer etholiad y Cynulliad ym mis Mai 2011.

Yn ystod 2010 -11, cefais i, fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, gyngor gan:

- Gomisiwn y Cynulliad, a phedwar cynghorydd annibynnol y Comisiwn, o ran polisïau, gwerthoedd a chyfeiriad strategol;
- fy nhri Chyfarwyddwr (sef y Prif Swyddog Gweithredu, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol) a Phennaeth yr Uned Gorfforaethol (tan ddiwedd mis Rhagfyr pan ad-drefnwyd y sefydliad) o ran datblygu a darparu gwasanaethau a'r gallu i gyflawni;
- y Bwrdd Rheoli (sy'n cynnwys y Cyfarwyddwyr a phob Pennaeth Gwasanaeth);
- Pwyllgor Archwilio Comisiwn y Cynulliad, sy'n cynnwys un Comisiynydd a thri o gynghorwyr annibynnol y Comisiwn – gydag un ohonynt yn Cadeirio;
- Archwilwyr mewnol ac allanol y Comisiwn - Swyddfa Archwilio Cymru, a'm Pennaeth Archwilio Mewnol (a gefnogir gan KPMG).

Sefydlwyd Bwrdd Taliadau statudol, annibynnol ym mis Medi 2010 o dan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010, a hynny er mwyn penderfynu ar daliadau ac adnoddau i Aelodau'r Cynulliad. O ganlyniad i'r Mesur, cymerwyd y cyfrifoldeb dros y penderfyniadau hyn oddi ar Gomisiwn y Cynulliad a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae gan y Bwrdd hefyd gyfrifoldeb dros sicrhau cywirdeb, atebolrwydd, gwerth am arian a thryloywder o ran penderfyniadau'n ymwneud â

gwario arian cyhoeddus. Comisiwn y Cynulliad sy'n dal i fod yn gyfrifol am sicrhau darpariaethau cyllidebol i dalu costau penderfyniadau'r Bwrdd, ac mae treuliau Aelodau'r Cynulliad yn cael eu talu gan gyfrif Comisiwn y Cynulliad a chânt eu gweinyddu'n fewnol drwy'r system rheolaeth fewnol rwy'n gyfrifol amdani.

**Diben y system rheolaeth fewnol**

Cynlluniwyd y system rheolaeth fewnol i geisio rheoli lefel resymol o risg yn hytrach na cheisio dileu pob risg wrth geisio cyflawni polisïau, nodau ac amcanion; gan hynny, ni ellir rhoi sicrwydd absoliwt o effeithiolrwydd, dim ond sicrwydd rhesymol. Mae'r system rheolaeth fewnol wedi'i seilio ar broses barhaus a gynlluniwyd i nodi a blaenoriaethu'r risgiau wrth geisio cyflawni'n polisïau, ein nodau a'n hamcanion, i bwyso a mesur pa mor debygol yw hi y caiff y risgiau hynny eu gwireddu a'u heffaith os cânt eu gwireddu, ac i'w rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd. Mae'r system yn cydymffurfio ag arweiniad y Trysorlys, ac roedd ar waith ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011 a hyd at y dyddiad y cymeradwywyd yr adroddiad a'r cyfrifon blynyddol.

**Y fframwaith rheolaeth fewnol a'r gallu i ymdopi â risg**

Rhan sylfaenol ac allweddol o system rheolaeth fewnol a threfniadau llywodraethu corfforaethol y Comisiwn yw'n Fframwaith Rheoli Risg a Buddion. Mae fy Nghyfarwyddwyr a minnau'n hyderus bod y sefydliad drwyddo draw'n deall ac yn defnyddio'r fframwaith hwn ac mae enghreifftiau o reoli risg yn effeithiol ar lefel weithredol a strategol, mewn rhaglenni a phrosiectau. Ceir tystiolaeth bod diwylliant o achub ar gyfleoedd drwy wella'r modd rydym yn ymdopi â risg wedi datblygu, er y cafwyd rhai enghreifftiau o waith na lwyddodd i gyflawni disgwyliadau'r fframwaith. Dyma elfennau allweddol ein dulliau o ymdopi â risg:

- fforwm rheoli risg (sy'n cynnwys Hyrwyddwyr Risg o bob maes gwasanaeth) sy'n cyfarfod yn rheolaidd;
- atebolrwydd clir yn y system o nodi a rheoli risgiau;
- adolygu a chofnodi symudiadau ac achosion o risg yn rheolaidd;
- adolygiadau trylwyr gan y Bwrdd Rheoli o risgiau strategol unigol yn ein cyfarfodydd;
- ymwybyddiaeth staff o reoli risg, mannau gwan a sut i awgrymu newidiadau;
- sicrhau bod risgiau sylweddol yn cael eu cyfeirio at y Cyfarwyddwyr i ddechrau, yna ataf i fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, ac yna at Gomisiwn y Cynulliad, fel y bo'n briodol.

Mae'r Fframwaith Risg a Buddion yn rhan o system rheolaeth fewnol ehangach sy'n ategu trefniadau llywodraethu corfforaethol a gwasanaethau effeithiol. Mae'r system

rheolaeth fewnol yn cael ei defnyddio ym mhob agwedd ar ein gwaith, o’r modd y byddwn yn recriwtio staff, yn cefnogi penderfyniadau busnes y Cynulliad ac yn rheoli ac yn adrodd ar yr arian cyhoeddus y byddwn yn ei ddefnyddio.

Yn ystod y flwyddyn, cymerais gamau i gryfhau’r modd y caiff y system rheolaeth fewnol a’r trefniadau llywodraethu eu cynllunio, eu cydgysylltu a’u harolygu a hynny drwy gyfuno swyddogaethau strategaeth, llywodraethu a chydymffurfio â gwasanaethau adnoddau presennol Cyllid ac Adnoddau Dynol. Mae hyn wedi creu canolfan arbenigol sy’n gallu cefnogi’r cylch busnes cyfan, sicrhau agwedd gydgysylltiedig a meithrin y gallu i gyflwyno adroddiadau am weithgareddau a chanlyniadau.

**Aelodau’r Cynulliad**

Roedd y cyfnod yn arwain at y refferendwm ac etholiad y Cynulliad yn gyfnod anodd i’r Comisiwn ac i’r Aelodau a rhoddwyd cryn bwysau ar ein systemau a’n staff yn ystod cyfnod o graffu cyhoeddus dwys.

Am y tro cyntaf, daeth tymor yr Aelodau i ben ymhell cyn yr etholiad, ar ôl diddymu’r Cynulliad yn ffurfiol ar 31 Mawrth 2011, er i’r Aelodau hynny a oedd yn sefyll i gael eu hailethol barhau i gael eu trin, o dan y ddeddfwriaeth berthnasol, fel pe baent yn dal yn Aelodau at ddibenion cyflogau a rhai o’r lwfansau. Roedd hyn yn wahanol i’r trefniant blaenorol pan fyddai’r Aelodau yn parhau yn eu swyddi tan y diwrnod cyn yr etholiad. Roedd yn gymhleth cynllunio ar gyfer cyfnod diddymu hirach a chymerodd gryn dipyn o amser i gydbwyso dymuniadau’r Aelodau (a oedd yn awyddus i reoli’r effaith ar etholwyr a’r staff cymorth y maent yn eu cyflogi’n uniongyrchol) â’r angen i sicrhau ac i ddangos tegwch i bob ymgeisydd yn yr etholiad.

Yn ystod y flwyddyn, cynlluniais y gwaith o ad-drefnu gwasanaethau’r Cynulliad i roi sylw penodol i gyfathrebu ac i ymwneud â’r Aelodau a’u staff ac i roi cyfleoedd newydd iddynt o ran datblygiad proffesiynol parhaus. Mae’r strwythur yn awr yn ei le’n barod ar gyfer dechrau’r Pedwerydd Cynulliad. Mae uwch staff hefyd wedi treulio cryn dipyn o amser ac ymdrech yn sicrhau bod rhagor o wybodaeth ar gael i’r Aelodau ac yn achub ar bob cyfle i’w hegluro. Rwy’n hyderus y bydd y camau hyn yn gwella ein gwasanaethau i’r Aelodau.

Cyhoeddodd y Bwrdd Taliadau ei adroddiad cyntaf - Addas i’r Diben - ar 14 Mawrth 2011 ynghyd â Phenderfyniad newydd ar Gyflogau a Lwfansau’r Aelodau, a fydd yn weithredol o 6 Mai 2011. Ategir y Penderfyniad gan ganllawiau manylach i helpu’r Aelodau a’u staff i gymhwyso’r gofynion. Mae Penderfyniad yn caniatáu i’r Aelodau hawlio cymorth ariannol a mathau eraill o gymorth, fel cyflogi staff, ac yn caniatáu iddynt hawlio ad-daliad am dreuliau sy’n codi wrth iddynt ymgymryd â’u cyfrifoldebau. Bydd y Comisiwn yn cyhoeddi rhestr o’r treuliau y bydd yr Aelodau yn

eu hawlio bob mis, dri mis yn ddiweddarach. Mae hyn yn golygu bod y treuliau, o dan y Penderfyniad, yn fwy tryloyw ac agored. Mae dulliau ar gael i sicrhau bod yr Aelodau wedi talu am yr hyn y maent yn hawlio ad-daliad amdano a bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn adolygu'r system lwfansau bob blwyddyn. Mae'r trefniadau hyn ar waith ers tair blynedd ac mae sampl o hawliadau'r 60 Aelod a wasanaethodd yn y Trydydd Cynulliad wedi'u harchwilio. Yr Aelodau'u hunain sy'n parhau i fod yn gyfrifol am sicrhau bod eu treuliau'n rhesymol ac y bu'n rhaid iddynt wario'r symiau dan sylw er mwyn ymgymryd â'u gwaith yn effeithiol. Gan hynny, derbynnir bod terfyn anorfod ar reolau mewnol y Comisiwn o dan y trefniadau hyn.

Comisiynydd Safonau'r Cynulliad sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr Aelodau'n defnyddio adnoddau'r Cynulliad yn briodol, gan wneud hynny naill ai'n uniongyrchol neu drwy'r system lwfansau. Penodwyd Comisiynydd Safonau statudol cyntaf gan y Cynulliad ym mis Tachwedd 2010 i ddisodli'r drefn flaenorol a oedd yn gweithredu o dan Reolau Sefydlog y Cynulliad. Mae'r Comisiynydd yn rhoi cyngor a chymorth ynghylch unrhyw faterion egwyddorol yn ymwneud ag ymddygiad Aelodau'r Cynulliad, ac mae'n ymchwilio'n annibynnol i gwynion honedig am Aelodau'r Cynulliad a allai fod wedi torri unrhyw god, protocol neu benderfyniad gan y Cynulliad. Bydd y Comisiynydd yn tynnu fy sylw at unrhyw faterion perthnasol sy'n codi yn ystod ei ymchwiliad ac mae ganddo ddyletswydd benodol i roi gwybod i'r Prif Swyddog Cyfrifyddu am unrhyw faterion perthnasol a ddaw i'r amlwg yn ystod ymchwiliad, e.e. unrhyw amwysedd yn y rheolau perthnasol neu unrhyw wendidau yn y system reoli.

**Gwasanaethau'r Cynulliad – yn cyflawni mewn hinsawdd anodd**

Eleni, rydym wedi wynebu'r her o gynllunio ar gyfer gostyngiad yn ein cyllideb a chyfyngiadau ariannol yn y dyfodol, ac effaith hynny. Roedd hyn yn cynnwys gostyngiad yn nifer y staff yn ystod y flwyddyn yn dilyn cynllun diswyddo gwirfoddol; newidiadau mewn cyllidebau yn ystod y flwyddyn i ymdopi â chostau ychwanegol y prosiect technoleg gwybodaeth sylweddol, sef UNO; cyflwyno taliadau parcio i bawb sy'n gweithio ar ystâd y Cynulliad ym Mae Caerdydd fel mesur i dorri costau; y gwaith o gynllunio a chyflwyno'r prosiect UNO; sefydlu a chefnogi gwaith y Bwrdd Taliadau newydd; a buddsoddi cryn amser yn paratoi ar gyfer diddymu'r Trydydd Cynulliad ar 31 Mawrth a chroesawu'r Aelodau newydd yn dilyn yr etholiad ar 5 Mai. Drwy fanteisio'n greadigol ac yn effeithiol ar ymdrechion a sgiliau'n staff, cyfathrebu â grwpiau o randdeiliaid ac ail-flaenoriaethu adnoddau, bu modd mynd i'r afael â'r problemau hyn gan hefyd sicrhau arbedion ariannol.

Cafodd y Comisiwn sesiwn adeiladol yn trafod y gyllideb flynyddol gyda'r Pwyllgor Cyllid (Tachwedd 2010 ar gyfer cyllideb 2011-12) a chafwyd cymeradwyaeth i'n cynllun diswyddo gwirfoddol. Ar ôl i rywfaint o staff adael fel rhan o'r cynllun hwn,

fodd bynnag, rydym wedi gorfod cynllunio a rheoli'r canlyniadau gan fod adnoddau ac arbenigedd wedi'u colli. Bydd angen rheoli'r sefyllfa'n ofalus yn ystod y misoedd nesaf i sicrhau bod digon o adnoddau i ddarparu gwasanaethau allweddol.

Drwy reoli prosiect UNO yn ofalus yn ystod y flwyddyn, llwyddwyd i beidio â gorwario'r gyllideb ddiwygiedig, a bu penderfyniad y Comisiwn i ail-flaenoriaethu er mwyn ailddyrannu arian i'r prosiect yn gynharach yn ystod y flwyddyn yn gymorth i osod sylfaen y gwaith adeiladol o reoli cyllidebau tynnach yn y dyfodol.

**Adolygu effeithiolrwydd**

Fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, mae gennyf gyfrifoldeb dros adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol wedi'i seilio ar waith yr archwilwyr mewnol, y Cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal a chadw'r fframwaith rheolaeth fewnol, Pwyllgor Archwilio Comisiwn y Cynulliad ac argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru yn eu llythyr rheoli a'u hadroddiadau eraill.

Mae Pwyllgor Archwilio Comisiwn y Cynulliad yn gweithio'n unol â'r model arfer gorau ar gyfer Pwyllgor Archwilio ac mae'n paratoi adroddiad i Gomisiwn y Cynulliad bob blwyddyn.

Craidd ein hadolygiad o effeithiolrwydd oedd proses hunanadolygu a gwblhawyd rhwng mis Rhagfyr 2010 a mis Mawrth 2011. Roedd yn cynnwys fframweithiau Llywodraethu Corfforaethol a Chynllunio Corfforaethol, arweinyddiaeth a threfniadau rheoli busnes, ymwybyddiaeth o'r amgylchedd rheoli ac ymgysylltiad ag ef. Cefais Ddatganiad Sicrwydd dros dro gan y Cyfarwyddwyr yng nghyswllt eu meysydd cyfrifoldeb hwy, ac yna Ddatganiad Sicrwydd terfynol ar ddiwedd y flwyddyn.

Cawsom gydnabyddiaeth allanol o gryfderau ein systemau a'n harferion gan ein harchwilwyr. Cafwyd archwiliad cadarnhaol o dreuliau'r Aelodau yn ystod y flwyddyn ac, am y drydedd flwyddyn yn olynnol, rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamod am gyfrifon y Comisiwn ar gyfer 2009-10.

Cyflwynodd Adroddiad Blynyddol Archwiliad Mewnol 2010-11 farn fod gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru brosesau digonol ac effeithiol o reoli risg, rheoli a llywodraethu er mwyn cyflawni amcanion y sefydliad.

Hon oedd y flwyddyn gyntaf o weithredu'r swyddogaeth Archwiliad Mewnol, gyda Phennaeth Archwilio Mewnol o fewn y sefydliad, ac mae hyn wedi hwyluso adolygiad mwy trylwyr o systemau a phrosesau. Yn yr adroddiadau archwilio mewnol a luniwyd yn ystod y flwyddyn, cofnodwyd:

- sicrwydd boddhaol ar gyfer: Rheoli'r Gyflogres a Rheolaeth Ariannol Craidd;
- sicrwydd rhesymol ar gyfer Rheoli Risg;
- bod angen gwella gweithdrefnau rheolaeth a phrosesau Rheoli Contractau; a
- chynnydd digonol ar y gwaith adolygu dilynol o archwiliadau blaenorol.

Nid oedd unrhyw dystiolaeth o dwyll na llygredd. Dylid nodi, hefyd, bod y Comisiwn wedi ennill Safon Aur gan y rhaglen Buddsoddwyr mewn Pobl, sy'n cydnabod bod ymdeimlad o ymgysylltiad a pherchnogaeth y staff wrth wraidd y modd rydym yn gweithio yma.

Rwy'n fodlon ein bod wedi gwneud cynnydd da yn ystod 2010-11 o ran sicrhau ein bod yn rhoi mwy o sylw i'r meysydd a ganlyn:

- gwella'r modd rydym yn rheoli'r gyllideb a'r trefniadau ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar hynny;
- sicrhau bod y Rhaglen Newid wedi ymwreiddio a sicrhau bod buddion yn deillio ohoni, er bod angen rhagor o waith yn y cyswllt hwn o hyd;
- ymgysylltu a chyfathrebu'n fwy effeithiol â rhanddeiliaid, yn enwedig mewn perthynas â rhaglen y Pedwerydd Cynulliad, a'r modd y mae'r Pwyllgor Cyllid yn craffu ar gynlluniau cyllidebol y Comisiwn;
- gwella ein gallu i ymateb i ddigwyddiadau annisgwyl sy'n amharu ar ein gwaith drwy sicrhau adnoddau i ddatblygu ein cynlluniau parhad busnes.

Gwnaed cryn ymdrech i wella cywirdeb proffiliau a chynlluniau gwario. Er bod perfformiad wedi gwella, roedd pryderon o hyd, yn enwedig ynghylch y prif brosiectau, ac mae angen i ni sicrhau ein bod yn gallu gwneud y gorau o'n hadnoddau cyfyngedig yn ystod cyfnod o gyni economaidd dros gyfnod y Pedwerydd Cynulliad.

Mae diogelu gwybodaeth yn dal yn ystyriaeth bwysig ac yn ystod y flwyddyn mabwysiadodd y Comisiwn Strategaeth Rheoli Gwybodaeth i lywio'r gwaith o wella'r modd y byddwn yn cynllunio ar gyfer anghenion gwybodaeth y Cynulliad, ac yn eu rheoli a'u diwallu.

Rydym hefyd wedi datblygu cynllun drafft ar gyfer cynllun iaith newydd, gan gynnwys gweithredu argymhellion eraill y panel annibynnol a gynhaliodd adolygiad o'r gwasanaethau dwyieithog.

Cafwyd enghreifftiau lle gwelwyd nad oedd ein systemau rheoli mor effeithiol â'r disgwyl o ran caffael, rheoli contractau a dyrannu arian. Nid ydynt wedi bod yn niferus iawn, ond mae angen i ni fynd i'r afael â'r gwersi a ddysgwyd o'r achosion

hyn. Cwblhawyd archwiliadau mewnol cynhwysfawr a chymerwyd camau o ganlyniad i argymhellion yr adolygiadau hynny er mwyn atal yr un problemau rhag codi mewn sefyllfaoedd mwy arwyddocaol. Bu’r Bwrdd Rheoli’n ystyried ein dulliau strategol o gaffael a rheoli contractau ym mis Ebrill 2011. Byddwn yn adolygu’r broses o bennu awdurdodau dirprwyedig yn ystod 2011-12 a chaiff canllawiau eu cyhoeddi i’w tynhau a’u hategu i sicrhau dealltwriaeth.

Gosodwyd safonau rhagorol o ran ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth, nid dim ond o safbwynt cydymffurfio ond o safbwynt safonau tryloywder sy’n mynd y tu hwnt i ofynion sylfaenol y gyfraith, a hynny o dan amgylchiadau anodd, o gofio natur dringar llawer o’r ceisiadau. Mae risg y bydd yn anodd cynnal y safonau hynny oherwydd prinder adnoddau a’r newidiadau dilynol yn y sefydliad. Byddwn yn monitro hyn yn ofalus ac yn addasu adnoddau yn y maes hwn os bydd angen.

**Rhagolwg**

Bydd yn anodd cynnal a gwella safonau a gwasanaethau i’r Cynulliad a’i Aelodau ymhellach mewn cyd-destun ariannol tynnach. Mae canlyniadau’r refferendwm wedi codi disgwyliadau o ran yr hyn y gall y Cynulliad ei gyflawni. Bydd yn parhau’n dyngedfennol i ni ddangos ein bod yn gwario arian yn ddoeth gan sicrhau gwerth am arian, bod gennym systemau cadarn ac effeithiol i reoli risg a chyllid, bod ein trefniadau llywodraethu’n gweithio’n effeithiol a’n bod, yn yr hirdymor, yn dal yn gallu ymdopi â’r cynnydd yng ngwaith y Cynulliad fel ddeddfwrfa. Bydd angen i ni barhau i sicrhau’r cydbwysedd priodol rhwng bodloni’r galw cynyddol a roddir arnom, ymdopi â’r adnoddau sydd ar gael i ni, a sicrhau arbedion drwy weithio’n fwy effeithlon.

Dyma’r risgiau strategol allweddol y byddwn yn debygol o’u hwynebu eleni:

- darparu gwasanaethau o safon i’r Cynulliad ag adnoddau ariannol tynn;
- cynnal ein hygrededd a bodloni disgwyliadau uwch o’r hyn y gall y Cynulliad ei gyflawni â’i bwerau ychwanegol;
- ymateb i’r effaith a gaiff y trosiant mwyaf o Aelodau hyd yma

Mae’r adolygiad eleni wedi nodi y dylem ganolbwyntio mwy ar y meysydd a ganlyn:

- cryfhau ymhellach ein system rheoli ariannol a’n blaengynlluniau i sicrhau bod ein gwybodaeth ariannol a’n gwybodaeth rheoli bob amser yn gyfredol ac yn gywir, gan gysylltu hyn â’r broses o ddatblygu rhaglen newid mwy hirdymor i ganiatáu i ni ddefnyddio adnoddau’n fwy effeithiol ac yn fwy hyblyg;
- cytuno ar ddulliau o weithio’n fwy effeithlon ac o ddefnyddio adnoddau’n fwy effeithiol yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, a rhoi’r dulliau hynny ar waith;

- cytuno ar system gadarn o gaffael a rheoli contractau a rhoi'r system honno ar waith;
- cynnal adolygiad sylfaenol o awdurdodau dirprwyedig ar ôl etholiad 2011 gan ystyried y broses ad-drefnu;
- sicrhau bod y Bwrdd Taliadau'n cael cymorth o'r radd flaenaf a bod ei berthynas â'r Comisiwn a'r Cynulliad nesaf yn cael ei rheoli'n effeithiol;
- adolygu'r fframwaith llywodraethu i baratoi ar gyfer y Comisiwn newydd.

I grynhoi, rwy'n fodlon ein bod wedi ymdrin â'r gwendidau a amlygwyd drwy'r broses adolygu, neu'n bod wrthi'n ymdrin â hwy, a bod y system rheolaeth fewnol wedi datblygu'n effeithiol wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi.

**Claire Clancy**
**Prif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Dyddiad: 11 Gorffennaf 2011

# Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Rwy'n ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011 o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r rhain yn cynnwys Datganiad Cyflenwad Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llif Arian, y Datganiad o'r Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Taliadau y nodir yn yr adroddiad hwnnw iddi gael ei harchwilio.

### Cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyfrifyddu a'r Archwilydd

Fel y caiff ei esbonio yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol, sy'n cynnwys yr Adroddiad Taliadau a'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a chyfarwyddyd Trysorlys EM a wnaed o dan y ddeddf honno, ac am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol a'r rhan honno o'r Adroddiad Taliadau sydd i'w harchwilio'n unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol i Archwilwyr a gyhoeddir gan y Bwrdd Arfer Archwilio.

### Cwmpas archwilio'r dartaniadau ariannol

Mae archwiliad yn golygu casglu tystiolaeth am y swm a'r hyn a ddatgelir yn y datganiadau ariannol sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, pa un a achosir hynny gan dwyll neu gamgymeriad. Mae hyn yn cynnwys asesu: a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi cael eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymolrwydd yr amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol.

Yn ogystal, rhaid i mi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Yn ogystal, rwyf yn darllen yr holl wybodaeth ariannol a'r wybodaeth arall yn yr Adroddiad Blynyddol i ganfod unrhyw anghysondebau perthnasol yn y datganiadau ariannol archwiliedig. Os byddaf yn dod yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu

anghysondebau perthnasol tebygol, byddaf yn ystyried goblygiadau hyn ar gyfer fy adroddiad.

**Barn am Ddatganiadau Ariannol**

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 31 Mawrth 2011, a'r gofyniad arian parod net, yr alldro adnoddau net, a'r costau gwariant net, am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

**Barn am reoleidd-dra**

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

**Barn am faterion eraill**

Yn fy marn i:

- mae'r rhan o'r Adroddiad Taliadau sydd i gael ei harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaed o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006; a
- mae'r wybodaeth a gaiff ei chynnwys o fewn yr Adroddiad Blynyddol yn gyson â'r datganiadau ariannol.

**Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad**

Nid oes gennyf sylwadau ar y materion a ganlyn y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os, yn fy marn i:

- nad yw'r Datganiad Rheolaeth Fewnol yn adlewyrchu cydymffurfio â chanllawiau Trysorlys EM;
- nad yw cofnodion cyfrifyddu priodol wedi cael eu cadw;
- nad yw gwybodaeth a nodir yn benodol gan Drysorlys EM ynghylch taliadau a thrafodion eraill wedi cael ei datgelu; neu
- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad

**Adroddiad**

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**
**13 Gorffennaf 2011**

# Datganiad Cyflenwad Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## a) Crynodeb o'r Alldro 2010–11

| | | Cyllideb | | | Alldro | | | 2010-11 £'000 | Alldro 2009-10 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nodyn | Gwariant gros | Incwm | Cyfanswm net | Gwariant gros | Incwm wedi'i gymhwyso | Cyfanswm net | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r gyllideb: arbedion / (gwariant ychwanegol) | |
| Refeniw | 2 | 44,562 | (210) | 44,352 | 41,188 | (112) | 41,076 | 3,276 | 44,447 |
| Cyfalaf | 2 | 3,820 | | 2,375 | 2,637 | | 2,637 | (262) | 4,405 |
| **Cyfanswm** | | 46,937 | (210) | 46,727 | 43,825 | (112) | 43,713 | 3,014 | 48,852 |

Ceir eglurhad o'r gwahaniaeth rhwng y gyllideb a'r alldro yn nodyn 3.

## b) Gofyniad arian parod net 2010-11

| | Nodyn | Cyllideb | Alldro | 2010-11 £'000 Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r gyllideb: arbedion / (gwariant ychwanegol) | 2009-10 £'000 Alldro |
|---|---|---|---|---|---|
| Gofyniad arian parod net | 4 | 43,405 | 43,306 | (99) | 43,626 |

## c) Crynodeb o'r incwm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru

Yn 2010-11 does dim swm dyledus i Gomisiwn y Cynulliad ei dalu i Gronfa Gyfunol Cymru (£139.23 yn 2009-10) ac nid oes swm i'w dalu o'r Gronfa i'r Comisiwn.

# Datganiad gwariant net cynhwysfawr

## Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011

| | | | Ailddatganwyd |
|---|---|---|---|
| | | **2010-11** | **2009-10** |
| | Nodyn | **£'000** | **£'000** |
| **Costau gweinyddol** | | | |
| Costau cyflogau'r Aelodau, deiliaid swyddi a staff | 6a | 19,925 | 20,050 |
| Costau eraill yr Aelodau | 6b | 7,445 | 7,154 |
| Costau Cyllid Pensiwn yr Aelodau | 6b | (2,192) | - |
| Costau gweinyddol eraill | 7 | 16,629 | 15,828 |
| **Costau gweinyddol gros** | | 41,807 | 43,032 |
| Incwm gweithredu | 5 | (112) | (111) |
| **Costau gweithredu net am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011** | | **41,695** | **42,921** |

Mae'r holl weithgareddau'n parhau.

### Gwariant cynhwysfawr arall

| Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011 | | **2010-11** | **2009-10** |
|---|---|---|---|
| | Nodyn | **£'000** | **£'000** |
| **Cynnydd / (gostyngiad) net ar ailbrisio Eiddo Offer a Chyfarpar** | | (3,854) | - |
| **Cyfanswm y gwariant cynhwysfawr am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011** | | **37,841** | **42,921** |

Mae'r holl weithgareddau'n parhau.

# Datganiad o'r sefyllfa ariannol
## fel ar 31 Mawrth 2011

| | Nodyn | 31 Mawrth 2011 £'000 | 31 Mawrth 2010 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol:** | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 8 | 72,016 | 70,064 |
| Asedau anniriaethol | 9 | 1,276 | 441 |
| **Cyfanswm yr asedau anghyfredol** | | 73,292 | 70,505 |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Stoc | 10 | 24 | 27 |
| Symiau derbyniadwy | 11 | 1,355 | 1,151 |
| Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod | 12 | 99 | 675 |
| **Cyfanswm yr asedau cyfredol** | | 1,478 | 1,853 |
| **Cyfanswm yr asedau** | | 74,770 | 72,358 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Symiau taladwy | 14 | (4,397) | (5,953) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau eraill** | | (4,397) | (5,953) |
| **Asedau anghyfredol ynghyd ag asedau /(rhwymedigaethau) cyfredol net** | | 70,373 | 66,405 |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Symiau taladwy | 14 | - | (163) |
| Darpariaethau | 15 | (2,554) | (5,878) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | (2,554) | (6,041) |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | **67,819** | **60,364** |
| **Ecwiti'r trethdalwyr** | | | |
| Y gronfa gyffredinol | | 62,244 | 61,833 |
| Y gronfa bensiwn wrth gefn | | (2,310) | (5,873) |
| Y gronfa ailbrisio wrth gefn | | 7,874 | 4,393 |
| Cronfa wrth gefn asedau a roddwyd yn rhodd | | 11 | 11 |
| | | **67,819** | **60,364** |

**Claire Clancy**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad** **Dyddiad: 11 Gorffennaf 2011**

# Datganiad Llif Arian

## am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011

| | Nodyn | 2010-11 £'000 | 2009-10 ailddatganwyd £'000 |
|---|---|---|---|
| **Llifau arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Costau gweithredu net | 3 | (41,695) | (42,921) |
| **Addasiadau ar gyfer trafodion heb fod yn arian parod:** | | | |
| Dibrisiant ac amorteiddiad | 7 | 3,704 | 2,100 |
| Gostyngiad mewn stoc | 10 | 3 | - |
| (Cynnydd) /Gostyngiad/mewn symiau derbyniadwy | 11 | (204) | 36 |
| *Llai symudiadau mewn symiau derbyniadwy mewn perthynas ag eitemau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Datganiad Costau Gweithredu* | | - | - |
| (Gostyngiad) /Cynnydd mewn symiau taladwy | 14 | (1,719) | 114 |
| *Llai symudiadau mewn symiau taladwy'n ymwneud ag eitemau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr* | | 576 | 558 |
| *Defnyddio darpariaeth* | 15 | (5) | - |
| Costau ariannu pensiynau a darpariaethau eraill | 15 | (1,948) | 256 |
| **All-lif arian net o weithgareddau gweithredu** | | **(41,288)** | **(39,857)** |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, offer a chyfarpar | 8 | (2,512) | (4,033) |
| Prynu asedau anniriaethol | 9 | (125) | (372) |
| **All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi** | | **(2,637)** | **(4,405)** |
| **All-lif arian o weithgareddau cyllido** | | | |
| O Gronfa Gyfunol Cymru (cyflenwad) | | 43,405 | 44,301 |
| O Gronfa Gyfunol Cymru (taliadau uniongyrchol) | | 619 | 636 |
| Taliadau i Gronfa Gyfunol Cymru | | (675) | (1,233) |
| **Mewnlif arian o weithgareddau cyllido** | | **43,349** | **43,704** |
| Gostyngiad net mewn arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod | | (576) | (558) |
| Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn | 12 | 675 | 1,233 |
| **Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y flwyddyn** | **12** | **99** | **675** |

# Datganiad o'r newidiadau yn ecwiti'r trethdalwyr
## am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011

| | Nodyn | Y Gronfa Gyffredinol wedi'i hailddatgan | Y Gronfa Ailbrisio wrth gefn | Cronfa wrth gefn asedau a gafwyd yn rhodd | Cronfa bensiwn wrth gefn | Cyfanswm cronfeydd wrth gefn wedi'u hailddatgan |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2009** | | 60,224 | 4,393 | 11 | (1,967) | 62,661 |
| **Newidiadau yn ecwiti'r trethdalwyr yn 2009-10** | | | | | | |
| Cost cyfalaf | | 2,162 | - | - | - | 2,162 |
| Symudiadau yn y Gronfa Bensiwn wrth gefn | | | - | - | (3,906) | (3,906) |
| Cost y Gronfa Bensiwn | | 268 | - | - | - | 268 |
| Gwariant cynhwysfawr am y flwyddyn | | (45,083) | - | - | - | (45,083) |
| ***Cyfanswm incwm a gwariant cydnabyddedig ar gyfer 2009-10 fel y nodwyd yn wreiddiol*** | | (42,653) | - | - | (3,906) | (46,559) |
| | | | | | | |
| **Balans ar 31 Mawrth 2009** | | 60,224 | 4,393 | 11 | (1,967) | 62,661 |
| **Newidiadau mewn polisi cyfrifyddu – cost cyfalaf** | | | - | - | - | - |
| **Newidiadau yn ecwiti'r trethdalwyr yn 2009-2010** | | | - | - | - | - |
| Symudiadau yn y Gronfa Bensiwn | | | - | - | (3,906) | (3,906) |
| Cost y Gronfa Bensiwn | | 268 | - | - | - | 268 |
| Gwariant cynhwysfawr am y flwyddyn wedi'i ailddatgan | | (42,921) | - | - | - | (42,921) |
| ***Cyfanswm incwm a gwariant cydnabyddedig ar gyfer 2009-10 wedi'i ailddatgan*** | | (42,653) | - | - | (3,906) | (46,559) |
| | | | | | | |
| **Arian net o Gronfa Gyfunol Cymru** | | | | | | |
| Cyflenwad | | 44,301 | - | - | - | 44,301 |
| Taliadau uniongyrchol | 3 | 636 | - | - | - | 636 |
| **Swm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru** | | | - | - | - | |
| -Cyflenwad | | (675) | - | - | - | (675) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2010** | | 61,833 | 4,393 | 11 | (5,873) | 60,364 |
| | | | | | | |
| **Newidiadau yn ecwiti'r trethdalwyr yn 2010-11** | | | | | | |
| | | - | - | - | 1,371 | 1,371 |
| Gwariant cynhwysfawr am y flwyddyn | 15 | (37,841) | - | - | - | (37,841) |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm incwm a gwariant cydnabyddedig ar gyfer 2010-11** | | (37,841) | - | - | 1,371 | (36,470) |
| **Symudiadau mewn cronfeydd wrth gefn a gydnabuwyd mewn Datganiad o Wariant Cynhwysfawr** | | (3,854) | 3,854 | - | - | - |
| **Trosglwyddo rhwng cronfeydd wrth gefn** | | (1,819) | (373) | - | 2,192 | - |
| **Cronfa Gyfunol Cymru - Cyflenwad** | | 43,405 | - | - | - | 43,405 |
| **-Taliadau uniongyrchol** | 3 | 619 | - | - | - | 619 |
| **Swm taladwy i Gronfa Gyfunol Cymru -Cyflenwad** | | (99) | - | - | - | (99) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2011** | | 62,244 | 7,874 | 11 | (2,310) | 67,819 |

## Datganiad Costau Gweithredu yn ôl Nodau ac Amcanion

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif. Diben y Cynulliad yw bod yn gorff seneddol hygyrch ac effeithiol sy'n ennyn hyder pobl Cymru.

Yr amcanion strategol yw:

1. Hyrwyddo datganoli ac annog rhagor o bobl i gymryd rhan yn y broses
2. Dangos undod, arweinyddiaeth ac ymateb yn feiddgar i newidiadau cyfansoddiadol.
3. Dangos parch, cywirdeb a llywodraethu da ym mhob agwedd ar ein gwaith
4. Gweithio'n gynaliadwy
5. Sicrhau bod y Cynulliad yn darparu'r gwasanaeth gorau ac y caiff ei ddarparu yn y modd mwyaf effeithiol.

| | **Yr Uned Gorfforaethol** | | **Y Gwasanaethau Cyfreithiol** | | **Y Gyfarwyddiaeth Busnes** | | **Y Gyfarwyddiaeth Gweithrediadau Wedi'i ailddat-gan** | | **Cyfanswm Wedi'i ailddat-gan** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2010-11 £'000** | **2009-10 £'000** | **2010-11 £'000** | **2009-10 £'000** | **2010-11 £'000** | **2009-10 £'000** | **2010-11 £'000** | **2009-10 £'000** | **2010-11 £'000** | **2009-10 £'000** |
| **Amcan strategol 1** | 182 | 184 | 99 | 90 | 1,113 | 1,101 | 4,524 | 3,940 | **5,918** | **5,315** |
| **Amcan strategol 2** | 182 | 184 | 197 | 180 | 1,339 | 1,311 | 2,257 | 1,800 | **3,975** | **3,475** |
| **Amcan strategol 3** | 638 | 644 | 99 | 90 | 596 | 599 | 5,348 | 5,322 | **6,681** | **6,655** |
| **Amcan strategol 4** | 273 | 276 | 66 | 60 | 430 | 434 | 3,612 | 3,759 | **4,381** | **4,529** |
| **Amcan strategol 5** | 547 | 551 | 197 | 180 | 2,313 | 2,309 | 5,721 | 6,624 | **8,778** | **9,664** |
| **Is-gyfanswm y costau gweithredu net** | 1,822 | 1,839 | 658 | 600 | 5,791 | 5,754 | 21,462 | 21,445 | **29,733** | **29,638** |

| | | |
|---|---|---|
| **Taliadau uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru** | **619** | 636 |
| **Incwm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru** | - | - |
| **Costau'r Cynllun Diswyddo Gwirfoddol** | **873** | - |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyflogau a lwfansau'r Aelodau a chostau cysylltiedig** | **12,662** | **12,647** |
| **Costau Cyllid Pensiwn yr Aelodau** | **(2,192)** | **-** |
| **Costau gweithredu net** | **41,695** | **42,921** |

**Gweler nodyn 3 i weld sut y cysonir yr alldro adnoddau net â'r costau gweithredu net**

# Nodiadau i gyd-fynd â'r Cyfrifon Adnoddau

## 1. Datganiad ar y polisïau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol Rhyngwladol 2010-11 a addaswyd ar gyfer cyfansoddiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Comisiwn fel y nodir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r polisïau cyfrifyddu a gynhwysir yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol yn dilyn y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) i'r graddau y maent yn ystyrlon ac yn briodol i'r sector cyhoeddus.

Pan fo'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu mwyaf addas ar gyfer amgylchiadau penodol y Comisiwn er mwyn cyflwyno darlun cywir a theg. Cafodd polisïau cyfrifyddu'r Comisiwn eu cymhwyso'n gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyriwyd eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon. Yn ogystal â'r datganiadau a baratowyd o dan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, mae'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol baratoi dau ddatganiad cyflenwad ychwanegol, a hynny yn ôl amcanion strategol.

### *1.1 Confensiwn cyfrifyddu*

Paratowyd y cyfrifon hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol a addaswyd i ystyried asedau sefydlog a ail-brisiwyd yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

### *1.2 Eiddo, offer a chyfarpar*

Y lefel sylfaenol ar gyfer cyfalafu ased sefydlog diriaethol yw £5,000 gan gynnwys TAW na ellir ei adennill. Y trothwy TG yw pan fydd gwerth cyfunol asedau cysylltiedig a brynwyd yn fwy na £5,000. Caiff tir ac adeiladau eu prisio'n broffesiynol bob tair blynedd o leiaf. Ni chaiff asedau diriaethol eraill eu hailbrisio gan na fyddai'r symiau dan sylw, ym marn y Comisiwn, yn arwyddocaol.

### *1.3 Dibrisio asedau*

Caiff eiddo, offer a chyfarpar eu hadolygu bob blwyddyn i sicrhau nad yw'r symiau sy'n cael eu dwyn ymlaen ar eu cyfer yn uwch na'r symiau y gellid eu hadennill. Os yw gwerth yr ased yn llai na'r swm sy'n cael ei ddwyn ymlaen, mae'n ymddangos fel amhariad ar y Datganiad Gwariant Net.

### *1.4 Asedau sy'n cael eu hadeiladu*

Caiff asedau sy'n cael eu hadeiladu eu dwyn ymlaen yn seiliedig ar gost hanesyddol gan ystyrir bod hyn yn gyfwerth â gwerth teg. Pan ddechreuir defnyddio'r adeilad, trosglwyddir yr ased i'r categori priodol a chaiff ei gynnwys mewn adolygiadau ailbrisio ac amhariad dilynol.

*1.5 Asedau anniriaethol*

Caiff trwyddedau meddalwedd eu cyfalafu fel asedau sefydlog anniriaethol a'u hamorteiddio ar sail llinell syth dros oes ddisgwyliedig yr ased (3 neu 5 mlynedd).

*1.6 Asedau a gafwyd yn rhodd*

Caiff asedau a gafwyd yn rhodd eu cyfalafu ar sail eu gwerth cyfredol ac fel arfer cânt eu hailbrisio yn yr un modd ag asedau a brynwyd. Mae gwerth asedau a gafwyd yn rhodd yn cael ei adlewyrchu yn y gronfa asedau a gafwyd yn rhodd, a gredydir â gwerth y rhodd wreiddiol a'r ailbrisiadau dilynol.

*1.7 Dibrisiant*

Nid yw tir rhydd-ddaliadol, asedau sy'n cael eu hadeiladu, dogfennau neu gofnodion hanesyddol na gwaith celf yn cael eu dibrisio. Cyfrifir dibrisiant ar gyfradd a fydd yn dileu prisiant adeiladau ac asedau sefydlog diriaethol drwy randaliadau cyfartal dros gyfnod eu hoes ddefnyddiol ddisgwyliedig. Caiff asedau eu dadansoddi yn ôl eu helfennau perthnasol i adlewyrchu eu hoes economaidd amrywiol. Ni chânt eu dibrisio yn ystod y flwyddyn y cawsant eu caffael. Isod, rhestrir oes arferol asedau:

| | |
|---|---|
| Adeiladau: | 50 mlynedd neu gyfnod arall a bennir gan brisiwr cymwysedig. |
| Offer sefydlog: | 10 mlynedd, neu gyfnod arall a bennir gan y cyflenwr pan gaiff ei brynu neu ei brisio. |
| Cyfarpar yn ymwneud â TGCh, offer clywedol a darlledu: | 4-6 blynedd |
| Seilwaith: | 10 mlynedd |
| Asedau anniriaethol (meddalwedd): | 3 neu 5 mlynedd |
| Cerbydau modur: | 4 blynedd |
| Asedau a gafwyd yn rhodd: | I'w hasesu ar ôl eu derbyn |

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd adolygiad llawn o oes economaidd defyddiol yr asedau. O ganlyniad i hyn, cafodd dibrisiad ei gynyddu £1.107m yn 2010-11 gyda chynnydd pellach o £180k yn cael ei ragweld ar gyfer 2011-2012.

*Yr elfen a wireddwyd o'r gronfa ailbrisio*

Mae cost dibrisiant yn cael ei gynnwys yn swm yr asedau a ail-brisiwyd. Gall elfen o'r dibrisiant godi felly oherwydd cynnydd yn y prisiad a byddai'n fwy na'r dibrisiant a fyddai'n cael ei gynnwys yng nghost hanesyddol yr asedau. Byddai'r swm dan sylw'n elw heb ei wireddu ar y prisiant, a chaiff ei drosglwyddo o'r Gronfa Ailbrisio i'r Gronfa Gyffredinol, os yw'n berthnasol.

*1.8 Datganiad Costau Gweithredu*

Mae incwm a chostau gweithredu'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredu'r Comisiwn. Mae incwm yn cynnwys costau nwyddau a gwasanaethau yn seiliedig ar y gost lawn i gwsmeriaid allanol. Dangosir incwm a chostau heb gynnwys TAW os gellir ei adennill.

*1.9 Stoc*

Nodir y stoc, gan gynnwys nwyddau i'w hailwerthu, ar lefel isaf y gost a'r pris gwerthadwy net.

*1.10 Cyfnewid Tramor*

Caiff trafodion mewn arian cyfred tramor eu trosi'n sterling yn ôl y cyfraddau cyfnewid sydd mewn grym ar ddyddiad y trafodion dan sylw. Trosir imprestau cyfred tramor yn sterling ar y cyfraddau cyfnewid sydd mewn grym ar y pryd.

*1.11 Pensiynau*

Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) - Mae staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y Comisiwn a staff ar secondiad i weithio i'r Comisiwn yn gymwys i fod yn aelod o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Cynllun buddion diffiniedig amlgyflogwr nas ariennir yw hwn ac felly ni all y Comisiwn nodi cyfran yr asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol sy'n berthnasol iddo. Cynhaliodd actiwari'r cynllun brisiad llawn ohono ar 31 Mawrth 2007. Ceir manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiwn Sifil (www.civilservice-pensions.gov.uk).

Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad (AMPS)- Sefydlwyd cynllun pensiwn i Aelodau'r Cynulliad yn wreiddiol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 ac mae'n parhau mewn grym o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Cynllun buddion diffiniedig ydyw, ac mae'n gymwys i gyflogau'r Aelodau a chyflog deiliaid swyddi. Telir cost pensiynau Aelodau'r Cynulliad drwy gyfrwng taliadau a gyfrifir ar sail gronnus gydag atebolrwydd i dalu buddion yn y dyfodol o gyfrifon y Cynllun. Bydd unrhyw ddyledion yn y gronfa sy'n codi oherwydd ddiffyg o ran asedau, yn cael eu talu drwy gynyddu'r swm y mae'r Comisiwn yn ei dalu. Wrth gyflwyno adroddiad am asedau a rhwymedigaethau'r Cynllun, mae'r Comisiwn wedi cadw at Safon Archwilio Rhyngwladol 19. Mae'r AMPS yn paratoi ei Gyfrifon Blynyddol ei hun, ar wahân i Gyfrifon y Comisiwn, ac mae'r rhain i'w gweld ar wefan y Cynulliad.

*1.12 Cost Prydles Gweithredu*

Caiff rhent sy'n daladwy o dan brydlesi gweithredu eu cynnwys yn y datganiad o wariant cynhwysfawr dros gyfnod y brydles.

*1.13 Treth ar Werth*

Caiff y Comisiwn ei drin fel un o Gyrff y Goron at ddibenion Deddf Treth ar Werth 1994 a, chan hynny, at ddibenion Adran 41 o'r Ddeddf honno (cymhwyso i'r Goron) caiff ei drin fel un o adrannau'r llywodraeth, ac mae wedi'i eithrio rhag TAW yng nghyswllt nwyddau a gwasanaethau'r Cynulliad. Codir TAW ar y Comisiwn yn ôl y gyfradd safonol yng nghyswllt ei weithgareddau masnachol, fel siop y Cynulliad.

*1.14 Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod*

Mae arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod yn cynnwys arian mewn llaw a balansau cyfredol yn y banc a Citibank, y gellir eu trosi'n barod yn symiau penodol o arian parod nad yw eu gwerth yn debygol o newid yn sylweddol.

*1.15 Buddion gweithwyr*

Mae cyflogau, taliadau a chost holl fuddion yn ymwneud â chyflogaeth, gan gynnwys rhwymedigaethau'n gysylltiedig â gwyliau nad ydynt yn cael eu hawlio, yn cael eu cydnabod yn ystod cyfnod gwasanaeth staff.

1.16 Bu newid yn ein Polisïau Cyfrifyddu yn ystod 2010/11, yn dilyn penderfyniad Trysorlys EM o dan y Rhaglen *Clear Line of Sight* i roi'r gorau i gynnwys Cost Cyfalaf o fewn ein datganiadau ariannol. Rydym wedi ailddatgan ein sefyllfa yn 2009/10 i gymryd i gyfrif y newid fel sy'n ofynnol o dan IAS 1. Rydym wedi dewis peidio ag ailddatgan y Datganiad Sefyllfa Ariannol ar gyfer 1 Ebrill 2009 nad nad oedd angen dim addasiad i ffigurau a gyhoeddwyd yn flaenorol.

1.17 Rydym wedi adolygu ein adroddiadau rheoli ac yn fodlon nad oes gennym, o dan ofynion IFRS 8, ddatgeliad ychwaengol i'w wneud. Er mwyn rhoi gwybodaeth gyson i'r darllennydd dros oes y Trydydd Cynulliad, rydym wedi cadw'r Datganiad o Gostau Gweithredu yn ôl Nodau ac Amcanion.

## 2. Dadansoddiad o'r alldro adnoddau net 2010-11

| | Alldro £'000 | Dadansoddiad o'r gyllideb a gymeradwywyd £'000 | Alldro o'i gymharu â'r Gyllideb £'000 | Alldro 2009-10 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| *Gwariant refeniw* | | | | |
| Cyflogau a lwfansau'r Aelodau a chostau cysylltiedig | 12,662 | 13,380 | (718) | 12,647 |
| Cyflogau staff a chostau cysylltiedig | 14,089 | 14,476 | (387) | 13,921 |
| Costau teithio a chynhaliaeth staff | 86 | 208 | (122) | 135 |
| Costau recriwtio/costau eraill Adnoddau Dynol | 109 | 151 | (42) | 205 |
| Costau'r cynllun diswyddo gwirfoddol | 873 | - | 873 | - |
| Costau TGCh | 3,597 | 3,508 | 89 | 3,618 |
| Costau adeiladau a chyfleusterau | 6,640 | 6,881 | (241) | 7,696 |
| Costau hyfforddi a datblygu | 156 | 250 | (94) | 211 |
| Codi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth | 332 | 596 | (264) | 564 |
| Costau gweinyddol eraill | 1,132 | 1,456 | (324) | 1,299 |
| Dibrisiant a thaliadau llog tybiannol | 3,704 | 3,156 | 548 | 4,262 |
| **Gwariant refeniw gros** | **43,380** | **44,062** | **(682)** | **44,558** |
| *Incwm refeniw* | | | | |
| Gwerthiant – Siop y Cynulliad | (10) | (40) | 30 | (18) |
| Rhentu eiddo | (80) | (90) | 10 | (86) |
| Incwm amrywiol | (22) | (80) | 58 | (7) |
| **Incwm refeniw gros wedi'i gymhwyso** | **(112)** | **(210)** | **98** | **(111)** |
| **GWARIANT REFENIW NET** | **43,268** | **43,852** | **(584)** | **44,447** |
| **GWARIANT CYFALAF – CREU ASEDAU SEFYDLOG** | **2,637** | **2,375** | **262** | **4,405** |
| **ALLDRO ADNODDAU** | **45,905** | **46,227** | **(322)** | **48,852** |
| **Costau Cyllid Pensiwn yr Aelodau** | **(2,192)** | **500** | **(2,692)** | **-** |
| **ALLDRO ADNODDAU NET** | **43,713** | **46,727** | **(3,014)** | **48,852** |

Roedd yr alldro adnoddau net £3.014 miliwn yn is na'r swm a awdurdodwyd gan y Cynulliad. Roedd £2.692 miliwn o hyn yn gysylltiedig â chredyd i'r cyfrif ar gyfer costau Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad a oedd yn deillio o'r penderfyniad i newid y sail ar gyfer cysylltu mynegai pensiynau o'r Mynegai Prisiau Manwerthu i'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr. O dan reolau cyllidebu'r Trysorlys, ni fyddai wedi bod yn bosibl defnyddio'r

arbedion at ddibenion gwariant nad oedd yn gysylltiedig â phensiynau. Roedd y tanwariant net o £0.322 miliwn a oedd yn weddill o fewn 0.7 y cant i'r Gyllideb a Gymeradwywyd ar gyfer y flwyddyn (1.7% yn 2009-10).

Mae'r Gyllideb a Gymeradwywyd uchod yn adlewyrchu penderfyniad y Comisiwn yn gynnar yn 2010 i reoli costau cynyddol y prosiect i gyflwyno rhwydwaith unedig i'r sefydliad (UNO) heb ofyn am gyllideb atodol. Penderfynodd y Comisiwn beidio â bwrw ymlaen â'r cynllun ailwampio mewnol a phenderfynwyd hefyd nad oedd angen rhywfaint o waith prosiect y cytunwyd arno'n flaenorol a lleihawyd gwariant mewn meysydd eraill.

Yn ystod y flwyddyn, yn dilyn yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant a gyhoeddwyd, a'r angen i baratoi ar gyfer cyfnod o gyni ariannol, penderfynodd y Comisiwn gynnig cynllun diswyddo gwirfoddol i staff. Hefyd dechreuodd y Comisiwn ar brosiect i wella'i gyfleusterau darlledu a chael offer TGCh newydd yn y Senedd. Arweiniodd y digwyddiadau hyn a'r adolygiad dilynol o oes asedau at daliadau dibrisiant ychwanegol ar gyfer y flwyddyn.

Llwyddodd y Comisiwn i ostwng gwariant mewn amrywiaeth o feysydd er mwyn ymdopi â'r costau ychwanegol hyn. Er enghraifft, cyflwynwyd y Cofnod Cryno newydd yn dilyn adolygiad annibynnol o wasanaethau dwyieithog y Cynulliad. Roedd gostyngiad mewn costau hyfforddiant, teithio, marchnata, llety a gweinyddu i'w gweld hefyd a hawliodd yr Aelodau lai o lwfansau teithio a chynhaliaeth a lwfansau eraill. O ran costau staff, llwyddwyd i arbed arian drwy ohirio llenwi swyddi gwag. Amcangyfrifir y bydd y cynllun diswyddo gorfodol yn sicrhau arbedion cylchol o £0.7 miliwn.

### 3. Cysoni'r alldro adnoddau â'r costau gweithredu net

| | Nodyn | **2010-11 £000** | **wedi'i ailddatgan 2009-10 £'000** |
|---|---|---|---|
| Alldro adnoddau net | 2 | 43,713 | 48,852 |
| Gwariant cyfalaf | 8 a 9 | (2,637) | (4,405) |
| Talaidau uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru | | 619 | 636 |
| Newid mewn Polisi Cyfrifyddu – Cost Cyfalaf | | - | (2,162) |
| **Cost gweithredu net** | | **41,695** | **42,921** |

Mae'r taliadau uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru, sef £619,325 (£636,091 ar gyfer 2009-10), yn deillio o gostau cyflogi'r Llywydd, y Dirprwy Lywydd, Archwilydd Cyffredinol Cymru, y Comisiynydd Safonau ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae'r cyflogau hyn yn cael eu talu gan y Comisiwn, ond, gan eu bod yn daliadau uniongyrchol o'r gronfa, nid ydynt yn cael eu cynnwys yn yr alldro adnoddau net.

## 4. Cysoni'r adnoddau net â'r gofyniad arian parod

| | Nodyn | **Cyllideb** Nodyn 2 £'000 | **Alldro** £'000 | **Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r gyllideb: arbedion/ (diffyg)** £'000 | **Alldro 2009-10** £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Alldro adnoddau | 3 | 46,727 | 43,713 | 3,014 | 48,852 |
| Addasiadau i groniadau | | | | | |
| Eitemau heb fod yn arian parod | Gweler isod | (3,656) | (5,652) | 1,996 | (4,518) |
| Newidiadau mewn cyfalaf gweithio ar wahân i arian parod | | 334 | 5,245 | (4,911) | (708) |
| **Gofyniad arian parod net** | | **43,405** | **43,306** | **99** | **43,626** |

| ***Eitemau heb fod yn arian parod*** | Nodyn | **Cyllideb** £'000 | **Alldro** £'000 | **Alldro o'i gymharu â'r gyllideb 2010-11** £'000 | **Alldro 2009-10** £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Dibrisiant ac amorteiddiad | 8 a 9 | (3,156) | (3,704) | 548 | (4,262) |
| IAS 17 cost ariannu pensiynau a symudiadau eraill | | (500) | (1,948) | 1,448 | (256) |
| | | (3,656) | (5,652) | 1,996 | (4,518) |

## 5. Dadansoddiad o'r incwm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru

| | **Rhagolwg 2010-11 £'000** | **Alldro 20109-11 £'000** | **Alldro 2009-10 £'000** |
|---|---|---|---|
| Incwm gweithredu y gellir ei gadw | 210 | 112 | 111 |
| Incwm gweithredu na ellir ei gadw (llog banc) | | - | - |

## 6a. Costau'r Aelodau a staff a chostau cysylltiedig

Costau staff:

| | Staff | Aelodau a Deiliaid Swyddi | Cyfanswm 2010-11 | Cyfanswm 2009-10 |
|---|---|---|---|---|
| Cyflogau | | | | |
| Staff, Aelodau a Deiliaid Swyddi | 10,887 | 4,366 | 15,253 | 15,207 |
| Staff ar secondiad | 251 | - | 251 | 245 |
| Costau nawdd cymdeithasol | | | | |
| Staff, Aelodau a Deiliaid Swyddi | 856 | 445 | 1,301 | 1,269 |
| Costau pensiwn eraill | | | | |
| Staff, Aelodau a Deiliaid Swyddi | 2,095 | 1,025 | 3,120 | 3,329 |
| Cyfanswm costau cyflogau'r Aelodau, Deiliaid Swyddi a staff | **14,089** | **5,836** | **19,925** | **20,050** |

Mae'r Comisiwn yn talu cyflogau a chostau cysylltiedig Gweinidogion Cymru, fel y noda'r Adroddiad Taliadau yn y cyfrifon hyn. Caiff y symiau a delir i Weinidogion Cymru eu datgelu yng Nghyfrifon Adnoddau Cyfunol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Dyma nifer cyfartalog y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogir gan y Comisiwn yn ystod y flwyddyn (gan gynnwys uwch reolwyr):

| | 2010-11 | 2009-10 |
|---|---|---|
| Staff parhaol | 334.6 | 339.0 |
| Staff ar secondiad | 3.3 | 3.0 |
| Staff dros dro/achlysurol | 4.3 | 7.0 |
| Penodiadau am dymor penodol | 3.2 | 3.3 |
| Cyfanswm | 345.4 | 352.3 |

Ar 31 Mawrth 2011, roedd 59 Aelod Cynulliad mewn swydd (bu farw 1 Aelod ar 31 Mawrth 2011). Ar ddiwedd y flwyddyn roedd 10 Deiliad Swydd (ar wahân i'r Gweinidogion), 1 Prif Weinidog, 9 o Weinidogion Cymru, 3 Dirprwy Weinidog, ac 1 Cwnsler Cyffredinol.

Mae'r Comisiwn yn cynnwys y Llywydd a phedwar aelod etholedig (gweler y Sylwadau Rheoli i gael rhagor o fanylion). Rhoddir tâl o £12,168 y flwyddyn i bob Comisiynydd ers 1 Ebrill 2010 (£11,543 o 1 Ebrill 2009 a £12,000 o 2 Tachwedd 2009). Mae'r holl uwch reolwyr a'r holl staff yn cael eu cyflogi gan y Comisiwn.

**Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.**

Prif gynllun buddion diffiniedig amlgyflogwr nas ariennir yw Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn ac felly ni all y Comisiwn nodi cyfran yr asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol sy'n berthnasol iddo. Cynhaliodd actiwari'r cynllun brisiad llawn o'r cynllun ar 31 Mawrth 2007. Ceir manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiwn Sifil (www.civilservice-pensions.gov.uk).

Yn ystod 2010-11 roedd cyfraniadau'r cyflogwyr, sef £2.074 miliwn (£2.002 miliwn yn 2009-10) yn daladwy i'r PCSPS yn ôl un o bedair cyfradd rhwng 16.7% a 24.3% o dâl pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog (sy'n wahanol i fandiau cyflog 2008-09). Bydd actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd yn dilyn proses brisio lawn. Pennir cyfraddau'r cyfraniadau i dalu cost y buddion a gronnwyd, yn hytrach na'r buddion a dalwyd, ac maent yn adlewyrchu profiadau'r cynllun yn y gorffennol.

Gall staff agor cyfrif pensiwn partneriaeth, pensiwn cyfranddeiliaid gyda chyfraniad gan y cyflogwr. Cyfrannodd y cyflogwyr £22,000 (£21,000 yn 2009-10), i ddarparwyr pensiwn cyfranddeiliaid penodedig. Mae cyfraniad y cyflogwr yn dibynnu ar oedran yr aelod ac mae'n amrywio o 7% i 15% o dâl pensiynadwy. Mae cyflogwyr hefyd yn talu swm sy'n cyfateb i gyfraniadau'r cyflogai hyd at 3% o dâl pensiynadwy. Yn ogystal â hyn, roedd cyfraniadau'r cyflogai o £1,100 (£1,000 2009-10) neu 0.8% o dâl pensiynadwy, yn daladwy i'r PCSPC i dalu cost buddion cyfandaliad yn y dyfodol os bydd y cyflogeion hyn yn marw mewn gwasanaeth neu'n ymddeol oherwydd salwch. Pan baratowyd y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, roedd cyfraniadau o £1,800 (£1,800 yn 2009-10) yn ddyledus i ddarparwyr y pensiwn partneriaeth. Nid oedd unrhyw gyfraniadau wedi'u rhagdalu bryd hynny.

Nid ymddeolodd neb ar sail iechyd yn ystod y flwyddyn, a doedd dim rhwymedigaethau pensiwn cronedig ychwanegol yn ystod y flwyddyn.

**Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad (Costau Cyllid Pensiwn £2.192 miliwn)**

Mae cynllun pensiwn Aelodau'r Cynulliad yn darparu buddion yn seiliedig ar dâl pensiynadwy terfynol. Mae asedau'r cynllun yn cael eu cadw ar wahân i asedau Comisiwn y Cynulliad a phenodir Rheolwr Buddsoddiadau i'w rheoli. Cynhaliodd actiwari'r cynllun brisiad llawn o'r cynllun ar 31 Mawrth 2005 ac fe'i diweddarwyd ar 31 Mawrth 2008 gan actiwari annibynnol cymwysedig. Caiff y cynllun ei ariannu.

Yn Natganiad Cyllideb y DU ar 22 Mehefin 2010, cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys y byddai'r Llywodraeth, o 1 Ebrill 2011, yn defnyddio'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn hytrach na'r Mynegai Prisiau Manwerthu i bennu pris budd-daliadau a chredydau treth, ac y byddai hyn hefyd yn gymwys i bensiynau gwasanaeth cyhoeddus drwy'r cysylltiad statudol i bris Ail Bensiwn y Wladwriaeth. Mae hyn wedi arwain at gostau negyddol o ran gwasanaeth a roddwyd

o £2.784 miliwn. Mae hyn, ynghyd â chostau cyllid presennol o £592,000 wedi arwain at gredyd cyllid pensiwn net o £2.192 miliwn.

Mae'r newid hwn wedi'i nodi fel cost gwasanaeth a roddwyd ac sy'n digwydd pan fydd cyflogwr yn ymgymryd i ddarparu lefel wahanol o fudd-daliadau i'r hyn a addawyd eisoes. Nid oes costau eraill o bwys wedi codi yn ystod 2010-11 mewn perthynas â gwasanaeth a roddwyd.

Mae'r newid i Fynegai Prisiau Defnyddwyr o Fynegai Prisiau Manwerthu at ddibenion codi nodweddion mynegai-cysylltiedig buddion ôl-gyflogaeth wedi cael ei gydnabod fel cost gwasanaeth blaenorol negyddol yn unol ag IAS 19. Mae'r driniaeth gyfrifyddu hon wedi cael ei mabwysiadu gan bob corff adrodd Llywodraeth ganolog lle mae Mynegai Prisiau Defnyddwyr wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer prisio chwyddiant ers blynyddoedd lawer.

Mae'r cwestiwn, o ran y prif gynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus, a oes disgwyliad cyfiawn y bydd Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn cael ei ddefnyddio ar gyfer mynegai chwyddiant yn cael ei drafod mewn adolygiad barnwrol yn y llysoedd ar hyn o bryd. Achos y Llywodraeth yw nad oes disgwyliad cyfiawn yn bodoli a, beth bynnag, hyd yn oed os byddai disgwyliad cyfiawn, byddai hyn wedi ei danseilio gan y diddordeb cyhoeddus clir mewn gwneud arbedion sylweddol iawn ar adeg pan mae'r Llywodraeth wedi barnu bod lleihau diffygion yn un o amcanion sylfaenol y wlad. Os caiff achos y Llywodraeth ei phrofi, ni fyddai unrhyw newid i'r driniaeth gyfrifyddu a ddefnyddir yn y cyfrifon hyn.

Y symiau a gydnabuwyd yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol:

| | **31 Mawrth 2011 £'000** | **31 Mawrth 2010 £'000** |
|---|---|---|
| Gwerth cyfredol rhwymedigaethau'r cynllun | (21,095) | (21,999) |
| Gwerth teg asedau'r cynllun | 18,785 | 16,126 |
| Rhwymedigaethau net | (2,310) | (5,873) |
| | | |
| Swm yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol | | |
| Rhwymedigaethau | (2,310) | (5,873) |
| Asedau | - | |
| Rhwymedigaeth net (Nodyn 15) | (2,310) | (5,873) |

Dadansoddiad o'r swm a godwyd ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

| | 2010-11 | 2009-10 |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Cost gyfredol y gwasanaeth | 1,495 | 896 |
| Llog ar rwymedigaeth pensiwn | 1,193 | 898 |
| Enillion disgwyliedig ar asedau'r cynllun | (1,132) | (552) |
| | 1,556 | 1,242 |
| Dyrannwyd yn y cyfrifon fel a ganlyn: | | |
| Costau eraill yn ymwneud â phensiynau | 964 | 974 |
| Cost ariannu pensiynau | (2,192) | 268 |
| Costau gwasanaeth a roddwyd | 2,784 | - |
| | 1,556 | 1,242 |

Dadansoddiad o'r swm a gydnabyddir yn y Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr

| | 2010-11<br>£'000 | 2009-10<br>£'000 |
|---|---|---|
| Gwir enillion llai enillion disgwyliedig ar asedau'r cynllun | 618 | 3,799 |
| Gwir enillion / colledion | 617 | 251 |
| Newidiadau mewn rhagdybiaethau | 136 | (7,688) |
| Enillion/ (colledion) actiwaraidd net a gydnabyddir yn y Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr | 1,371 | (3,638) |

Symudiadau yng ngwerth y rhwymedigaethau yn ystod y flwyddyn

| | 31 Mawrth 2011 £'000 | 31 Mawrth 2010 £'000 |
|---|---|---|
| Rhwymedigaethau ar 31 Mawrth 2010 | 21,999 | 12,388 |
| Cost bresennol y gwasanaeth (heb gynnwys cyfraniadau'r Aelodau) | 1,495 | 896 |
| Cyfraniadau'r Aelodau (gan gynnwys symiau net a drosglwyddwyd i mewn) | 474 | 548 |
| Costau gwasanaeth a roddwyd | (2,784) | - |
| Buddion a dalwyd yn ystod y flwyddyn | (529) | (168) |
| Llog ar rwymedigaethau pensiwn | 1,193 | 898 |
| (Colledion) / enillion actiwaraidd | (753) | 7,437 |
| Rhwymedigaethau ar 31 Mawrth 2011 | 21,095 | 21,999 |

Newidiadau mewn asedau yn ystod y flwyddyn

| | 31 Mawrth 2011 £'000 | 31 Mawrth 2010 £'000 |
|---|---|---|
| Gwerth yr asedau ar 31 Mawrth 2010 | 16,126 | 10,421 |
| Enillion disgwyliedig ar asedau'r cynllun | 1,132 | 552 |
| Enillion actiwaraidd llai'r enillion disgwyliedig ar asedau'r cynllun | 618 | 3,799 |
| Cyfraniadau gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru | 964 | 974 |
| Cyfraniadau gan yr Aelodau (gan gynnwys symiau net a drosglwyddwyd i mewn) | 474 | 548 |
| Buddion a dalwyd a threuliau | (529) | (168) |
| Gwerth teg asedau'r cynllun wrth gau'r cyfrifon | 18,785 | 16,126 |

Mae'r Comisiwn yn disgwyl cyfrannu £942,487 at Gynllun Pensiwn yr Aelodau yn ystod 2011-12.

Dyma brif gategorïau asedau'r cynllun fel canran o holl asedau'r cynllun:

| | 2010-11 | 2009-10 |
|---|---|---|
| Ecwitïau | 83% | 82% |
| Bondiau | 10% | 14% |
| Arian parod | 7% | 4% |

Nid yw asedau'r cynllun yn cynnwys unrhyw eiddo'n uniongyrchol na'n anuniongyrchol. Mae asedau'r cynllun yn cynnwys, yn anuniongyrchol drwy fuddsoddi mewn cronfeydd cyfunol, giltiau a gyhoeddwyd gan lywodraeth y DU a chanddynt werth teg o £1,427,612

Yr enillion disgwyliedig ar ecwitïau yw 3% y flwyddyn yn uwch na'r elw ar giltiau ar ddyddiad cyflwyno'r adroddiad hwn. Yr adenillion disgwyliedig ar fondiau yw'r elw adbrynu ar y bondiau y mae'r cynllun yn eu dal (yn uniongyrchol) ar ddyddiad cyflwyno'r adroddiad hwn. Yr enillion disgwyliedig ar arian parod yw'r amcangyfrif gorau o'r enillion arian parod hirdymor, gan gymryd y bydd cyfraddau llog yn cyd-fynd â'r cynnyrch sydd ar gael ar giltiau.

Y gwir enillion ar asedau'r cynllun yn 2010-11 oedd elw o £1.75 miliwn (elw o £4.35 miliwn yn 2009-10).

Y prif dybiaethau actiwarïaid ar ddyddiad paratoi'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol:

| | 31 Mawrth 2011 | 31 Mawrth 2010 |
|---|---|---|
| Cyfradd gostyngiad | 5.7% | 5.8% |
| Cynnydd mewn cyflogau yn y dyfodol | 0.4% | 5.4% |
| Cynnydd mewn pensiynau yn y dyfodol | 2.6% | 3.9% |
| Cyfradd enillion disgwyliedig ar ecwitïau | 7.2% | 7.4% |
| Cyfradd enillion disgwyliedig ar fondiau | 4.2% | 4.3% |

| | | |
|---|---|---|
| Cyfradd enillion disgwyliedig ar arian parod | 4.2% | 4.4% |
| Hyd oes ddisgwyliedig ar ôl 65 oed (blynyddoedd) | | |
| Dynion | 26.1 | 26.0 |
| Menywod | 29.2 | 29.1 |

Y symiau ar gyfer y cyfnod cyfredol a'r pedwar cyfnod blaenorol:

| | 31 Mawrth 2011£'000 | 31 Mawrth 2010 £'000 | 31 Mawrth 2009 £'000 | 31 Mawrth 2008 £'000 | 31 Mawrth 2007 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhwymedigaeth buddion diffiniedig | 21,095 | 21,999 | 12,388 | 12,661 | 12,859 |
| Asedau'r cynllun | 18,785 | 16,126 | 10,421 | 11,351 | 10,273 |
| Gwarged/(diffyg) | (2,310) | (5,873) | (1,967) | (1,310) | (2,586) |
| Addasiadau profiad ar rwymedigaethau'r cynllun | 617 | 251 | 100 | Dim | (22) |
| Addasiadau profiad ar asedau'r cynllun | 618 | 3,799 | (2,922) | (840) | (171) |

Mae rhagor o wybodaeth am Gynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad ar gael yn adroddiad blynyddol a chyfrifon y cynllun am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011.

### 6b. Costau eraill yr Aelodau

Mae Costau Eraill yr Aelodau, sef £7.445 miliwn (£7.154 miliwn yn 2009-10), yn y Datganiad o Wariant Cynhwysfawr yn cynnwys:

| | 2010-11 £'000 | 2009-10 £'000 |
|---|---|---|
| Lwfans Costau Swyddfa | 699 | 702 |
| Lwfans Costau Ychwanegol | 241 | 259 |
| Lwfans Costau Staff yr Aelodau | 6,311 | 5,978 |
| Costau teithio | 194 | 215 |
| **Cyfanswm costau eraill yr Aelodau** | **7,445** | **7,154** |

**6c. Adrodd ar y Cynllun Diswyddo Gwirfoddol – pecynnau ymadael**

Mae'r Comisiwn yn talu costau ychwanegol buddion y tu hwnt i fuddion arferol Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil mewn perthynas â staff sy'n ymddeol yn gynnar drwy dalu'r symiau gofynnol bob blwyddyn i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil o'r adeg y bydd y cyflogai'n ymddeol yn gynnar nes bydd yn cyrraedd oedran ymddeol arferol. Bydd y Comisiwn yn darparu'n llawn ar gyfer hyn pan fydd y rhaglen ymddeoliad cynnar yn dod yn orfodol drwy sefydlu darpariaeth ar gyfer taliadau amcangyfrifedig a fydd yn cynnwys cyfradd gostyngiad y Trysorlys, sef 3.5 y cant mewn termau real.

| | **Band cost y pecyn ymadael** | **Cyfanswm y pecynnau ymadael yn ôl band cost** |
|---|---|---|
| 1 | **<£10,000** | - |
| 2 | **£10,000 - £25,000** | **15** |
| 3 | **£25,000 - £50,000** | **7** |
| 4 | **£50,000 - £100,000** | **2** |
| 7 | **£200,000 - £250,000** | **1** |
| 8 | **Cyfanswm y pecynnau ymadael yn ôl math** | **25** |
| 9 | **Cyfanswm y gost (£000's)** | **873** |

Talwyd costau diswyddo a chostau ymadael eraill yn unol â darpariaethau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil, cynllun statudol a wnaed o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972. Cyfrifir y costau ymadael yn llawn yn ystod y flwyddyn y bydd y cyflogai'n ymadael. Os yw'r Comisiwn wedi cytuno i staff ymddeol yn gynnar, y Comisiwn sy'n talu'r costau ychwanegol, nid cynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Nid yw costau ymddeol ar sail iechyd wedi'u cynnwys yn y tabl gan mai'r cynllun pensiwn sy'n talu'r costau hyn. Ni chafodd neb ei orfodi i ymddeol.

## 7. Costau gweinyddol eraill

Mae costau gweinyddol eraill, gwerth £16.629miliwn (£15.828 miliwn wedi'i ailddatganyn 2009-10) yn y Datganiad o Wariant Cynhwysfawr yn cynnwys:

| | 2010-11 £'000 | 2009-10 wedi'i ailddatgan £'000 |
|---|---|---|
| Adeiladau a chyfleusterau | 4,368 | 5,459 |
| Rhenti o dan brydlesi gweithredol | 2,272 | 2,237 |
| Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu | 3,597 | 3,618 |
| Codi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth | 332 | 564 |
| Hyfforddi a datblygu staff | 156 | 211 |
| Costau Adnoddau Dynol/recriwtio eraill | 109 | 205 |
| Costau'r Cynllun Diswyddo Gwirfoddol | 873 | - |
| Costau teithio a chynhaliaeth staff | 86 | 135 |
| Costau gweinyddol eraill | 1,132 | 1,299 |
| *Eitemau heb fod yn arian parod* | | |
| Dibrisiant ac amorteiddiad | 3,704 | 2,100 |
| **Cyfanswm y costau gweinyddol eraill** | **16,629** | **15,828** |

Cytunwyd mai £59,450 (£61,400 yn 2009-10**)** fyddai'r gost o archwilio'r datganiadau hyn yn allanol. Ni chodwyd tâl ychwanegol am waith archwilio anstatudol ychwanegol yn 2010-11(£4,400 yn 2009).

## 8. Eiddo, offer a chyfarpar

| | Tir ac adeiladau | Technoleg gwybodaeth | Dodrefn a gosodiadau* | Cerbydau | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | 2010-11 £'000 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiant** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2010 | 66,321 | 7,650 | 1,110 | 80 | 3,238 | 78,399 |
| Ychwanegwyd | - | 1,747 | 60 | - | 705 | 2,512 |
| Ailddosbarthwyd | (324) | 2,743 | - | - | (3,238) | (819) |
| Gwerthwyd | - | (14) | - | - | - | (14) |
| Ailbrisiwyd | 5,348 | - | - | - | - | 5,348 |
| Ar 31 Mawrth 2011 | 71,345 | 12,126 | 1,170 | 80 | 705 | 85,426 |
| **Dibrisiant** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2010 | (5,112) | (2,699) | (508) | (16) | - | (8,335) |
| Costau yn ystod y flwyddyn | (1,522) | (1,934) | (115) | (24) | - | (3,595) |
| Gwerthwyd | - | 14 | - | - | - | 14 |
| Ailbrisiwyd | (1,494) | - | - | - | - | (1,494) |
| Ar 31 Mawrth 2011 | (8,128) | (4,619) | (623) | (40) | - | (13,410) |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2011** | **63,217** | **7,507** | **547** | **40** | **705** | **72,016** |
| Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2010 | **61,209** | **4,951** | **602** | **64** | **3,238** | **70,064** |

* Mae dodrefn a gosodiadau yn cynnwys 'asedau a gafwyd yn rhodd', gan gynnwys y byrsgyll a gafwyd gan Senedd De Cymru Newydd pan agorwyd y Senedd.

DS Gibbon FRICS o GVA Grimley International Property Advisers ailbrisiodd yr asedau hyn, yn ôl eu gwerth ar 31 Mawrth 2011. Ail-brisiwyd y Pierhead a'r Senedd yn ôl y gost o'u hailgodi ar ôl dibrisiant.

| | Tir ac adeiladau | Technoleg gwybodaeth | Dodrefn a gosodiadau* | Cerbydau | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | 2009-10 £'000 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiant** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2009 | 65,731 | 7,521 | 1,034 | 121 | - | 74,407 |
| Ychwanegiadau | 590 | 129 | 76 | - | 3,238 | 4,033 |
| Gwerthwyd | - | - | - | (41) | - | (41) |
| Ailbrisiwyd | - | - | - | - | - | - |
| Ar 31 Mawrth 2010 | 66,321 | 7,650 | 1,110 | 80 | 3,238 | 78,399 |
| **Dibrisiant** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2009 | (3,948) | (1,923) | (398) | (41) | - | (6,310) |
| Costau yn ystod y flwyddyn | (1,164) | (776) | (110) | (16) | - | (2,066) |
| Gwerthwyd | - | - | - | 41 | - | 41 |
| Ailbrisiwyd | - | - | - | - | - | - |
| Ar 31 Mawrth 2010 | (5,112) | (2,699) | (508) | (16) | - | (8,335) |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2010** | **61,209** | **4,951** | **602** | **64** | **3,238** | **70,064** |
| Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2009 | **61,783** | **5,598** | **636** | **80** | **-** | **68,097** |

## 9. Asedau anniriaethol

Mae'r asedau anniriaethol yn cynnwys meddalwedd a thrwyddedau meddalwedd ar gyfer y prif systemau a ddefnyddir gan y Comisiwn:

| | **Cyfanswm 2011** |
|---|---|
| | **£'000** |
| **Cost neu brisiant** | |
| Ar 1 Ebrill 2010 | 544 |
| Ychwanegiadau | 125 |
| Ailddosbarthwyd | 819 |
| Gwerthwyd | - |
| Ailbrisiwyd | - |
| **Ar 31 Mawrth 2011** | 1,488 |
| **Amorteiddiad** | |
| Ar 1 Ebrill 2010 | (103) |
| Costau yn ystod y flwyddyn | (109) |
| **At 31 Mawrth 2011** | **(212)** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2011** | **1,276** |
| Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2010 | 441 |

| | **Cyfanswm 2010 £'000** |
|---|---|
| **Cost neu brisiant** | |
| Ar 1 Ebrill 2009 | 172 |
| Ychwanegiadau | 372 |
| Gwerthwyd | - |
| Ailbrisiwyd | - |
| **Ar 31 Mawrth 2010** | 544 |
| **Amorteiddiad** | |
| Ar 1 Ebrill 2009 | (69) |
| Costau yn ystod y flwyddyn | (34) |
| **Ar 31 Mawrth 2010** | (103) |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2010** | **441** |
| Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2009 | 103 |

## 10. Stoc

| | 31 Mawrth 2011 £'000 | 31 Mawrth 2010 £'000 |
|---|---|---|
| Stoc Siop y Comisiwn | 24 | 27 |

## 11. Dyledwyr masnachol ac asedau cyfredol eraill

| | 31 Mawrth 2011 £'000 | 31 Mawrth 2010 £'000 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus cyn pen blwyddyn:** | | |
| Dyledwyr masnachol | 17 | 1 |
| Dyledwyr eraill | 3 | 14 |
| Rhagdaliadau | 733 | 734 |
| TAW y gellir ei adennill | 591 | 402 |
| Symiau sy'n ddyledus o Gronfa Gyfunol Cymru yng nghyswllt taliadau uniongyrchol | 11 | - |
| | **1,355** | **1,151** |

Nid oedd unrhyw symiau'n ddyledus gan ddyledwyr ar ôl mwy na blwyddyn.

## 12. Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod

| | 31 March 2011 £'000 | 31 Mawrth 2010 £'000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | 675 | 1,233 |
| Newid net mewn balansau arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | (576) | (558) |
| Balans ar 31 Mawrth | 99 | 675 |
| Balansau ar 31 Mawrth sy'n cael eu dal gan: | | |
| Citibank | 48 | 611 |
| Banciau masnachol ac arian parod mewn llaw | 51 | 64 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **99** | **675** |

## 13. Cysoni'r Gofyniad Arian Parod Net â'r cynnydd / (gostyngiad) mewn arian parod

| | 31 Mawrth 2011 £'000 | 31 Mawrth 2010 £'000 |
|---|---|---|
| Gofyniad arian parod net | (43,306) | (43,626) |
| O'r Gronfa Gyfunol (Cyflenwad) – y flwyddyn bresennol | 43,405 | 44,301 |
| O'r Gronfa Gyfunol (Cyflenwad) – y flwyddyn flaenorol | | |
| Symiau dyledus i'r Gronfa Gyfunol a dderbyniwyd ond na chawsant eu talu | (675) | (1,233) |
| Symiau dyledus i'r Gronfa Gyfunol a dderbyniwyd ond na chawsant eu talu | | |
| **(gostyngiad)/cynnydd mewn arian parod** | **(576)** | **(558)** |

## 14. Cyfrifon taladwy a symiau taladwy eraill

| | 31 Mawrth 2011 £'000 | 31 Mawrth 2010 £'000 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n daladwy cyn pen blwyddyn** | | |
| TAW – net gyda balans Nodyn 11 | 3 | 2 |
| Trethi eraill a nawdd cymdeithasol | 621 | 583 |
| Cyfrifon taladwy | 1,128 | 149 |
| Symiau taladwy eraill | 23 | 4 |
| Croniadau | 2,523 | 4,540 |
| Symiau sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | 99 | 675 |
| | **4,397** | **5,953** |
| **Symiau sy'n daladwy ar ôl mwy na blwyddyn** | | |
| Symiau taladwy eraill | - | **163** |
| | **4,397** | **6,116** |

## 15. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

O dan Safon Archwilio Rhyngwladol 19, caiff rhwymedigaeth o £2.310 miliwn ei chydnabod ar gyfer Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael yn nodyn 6.

| | Cynllun pensiwn yr Aelodau £'000 | Darpariaeth ar gyfer tâl digolledu i staff £'000 | Lwfansau Aelodau £'000 | Cyfanswm 2010-11 £'000 | Cyfanswm 2009-10 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | 5,873 | - | 5 | 5,878 | 1,984 |
| (Gostyngiad) / Cynnydd yn ystod y flwyddyn | (2,192) | 244 | - | (1,948) | 3,911 |
| Defnyddiwyd neu rhyddhawyd yn ystod y flwyddyn | (1,371) | - | (5) | (1,376) | (17) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **2,310** | **244** | **-** | **2,554** | **5,878** |

## 16. Ymrwymiadau cyfalaf

Ar 31 Mawrth 2011, roedd ymrwymiadau cyfalaf o £0.303 miliwn o dan gontract (£1,767 miliwn ar 31 Mawrth 2010)

## 17. Ymrwymiadau o dan brydlesi

*(a) Prydlesi gweithredol*

Yn y tabl isod, nodir yr ymrwymiadau o dan brydlesi gweithredol i dalu rhenti yn ystod y flwyddyn ar ôl y cyfnod ariannol hwn, wedi'u dadansoddi yn ôl y cyfnod y daw'r prydlesi i ben.

| | 31 Mawrth 2011 £'000 | 31 Mawrth 2010 £'000 |
|---|---|---|
| **Mae'r rhwymedigaethau o dan brydlesi gweithredu'n cynnwys:** | | |
| Tir ac adeiladau: | | |
| Yn dod i ben ar ôl blwyddyn ond cyn pen 5 mlynedd | 107 | 150 |
| Yn dod i ben wedi hynny | 46,000 | 47,775 |
| | **46,107** | **47,925** |
| | | |
| Eraill – car, argraffwyr a chopïwyr: | | |
| Yn dod i ben cyn pen blwyddyn | 12 | 20 |
| Yn dod i ben ar ôl blwyddyn ond cyn pen 5 mlynedd | 165 | 158 |
| | **177** | **178** |

*(b) Prydlesi ariannol*

Nid oes unrhyw rwymedigaethau o dan brydlesi ariannol.

## 18. Ymrwymiadau ariannol eraill

Mae tri o gytundebau'r Comisiwn (nad ydynt yn brydlesi) yn gytundebau na ellir eu diddymu, oherwydd natur y trefniadau cytundebol. Mae'r cytundebau'n ymwneud â darparu

cymorth a gwasanaeth TGCh i'r Cynulliad, a rheoli gweinyddwyr ar gyfer y systemau Adnoddau Dynol a Chyllid a ddefnyddir gan y Comisiwn. Dangosir isod y taliadau y mae'r Comisiwn wedi ymrwymo iddynt ar ddiwedd y cyfnod ariannol, wedi'u dadansoddi yn ôl y cyfnod y daw'r ymrwymiadau i ben.

| | **2010-11** | **2009-10** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| **Rhwymedigaethau o dan gytundebau na ellir eu diddymu:** | | |
| Yn dod i ben cyn pen blwyddyn | - | - |
| Yn dod i ben ar ôl blwyddyn ond cyn pen 5 mlynedd | 65 | 28 |
| Yn dod i ben wedi hynny | 5,060 | 5,537 |
| | **5,125** | **5,565** |

Mae cytundebau eraill y Comisiwn yn cyfeirio at derfynu cytundeb yn gynnar ond nid oes taliadau wedi'u pennu ar gyfer hynny. Byddai'r Comisiwn yn torri cytundeb pe bai'n terfynu'r cytundeb yn gynnar a gallai'r contractiwr hawlio iawndal am yr elw y byddai wedi'i ennill pe bai'r cytundeb wedi parhau am y cyfnod llawn. Gan fod y ffigur hwn yn amrywio ar gyfer pob cytundeb, nid yw'r cytundebau hyn wedi'u cynnwys yn y nodyn hwn.

## 19. Offerynnau ariannol

Nid yw'r Comisiwn yn cyhoeddi nac yn masnachu mewn offerynnau ariannol fel rhoi benthyciadau ac nid yw wedi benthyca arian. Mae'n dibynnu'n bennaf ar gyllid gan Gronfa Gyfunol Cymru am ei ofynion arian parod ac, felly, nid yw'n agored i risgiau hylifedd. Hefyd, nid oes ganddo adneuon arwyddocaol ac mae'r holl asedau a'r rhwymedigaethau perthnasol mewn sterling, felly nid yw'n agored i risg cyfradd llog na risg arian cyfred.

## 20. Rhwymedigaethau amodol

Roedd gan Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad hawliau cytundebol i swm sy'n cyfateb i 10% o'u cyflog blynyddol gros gael ei gyfrannu tuag at bensiwn, ond nid ydynt i gyd wedi arfer yr hawl hwn. Mae'r rhwymedigaeth yn parhau am chwe blynedd wedi i'w cyflogaeth ddod i ben, ac fe'u hamcangyfrifir fel a ganlyn:

| | Swm a oedd yn ddyledus ar 31 Mawrth 2011 £000 | Swm a oedd yn ddyledus ar 31 Mawrth 2010 £000 | Swm a dalwyd yn 2010-11 £000 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Cyfraniadau pensiwn gan Staff Cymorth yr Aelodau sydd: | | | | |
| yn cael eu cyflogi ar hyn o bryd ond nad ydynt yn cyfrannu at gynllun pensiwn | 98 | 125 | - | Annhebygol iawn |
| wedi gadael swydd heb ymuno â chynllun pensiwn erioed | 36 | 32 | - | Annhebygol iawn |

Nid yw Comisiwn y Cynulliad wedi ymgymryd ag unrhyw rwymedigaethau amodol mesuradwy nac anfesuradwy drwy roi gwarant, indemniad neu lythyr cysur.

## 21. Colledion a thaliadau arbennig

Dyma nifer a gwerth y colledion a'r taliadau arbennig a wnaed yn ystod 2010-11:

### (a) Datganiad Colledion

| | 2010-11 | | | 2009-10 |
|---|---|---|---|---|
| | ***Nifer yr achosion*** | **Gwerth £'000** | ***Nifer yr achosion*** | **Gwerth £'000** |
| Cyfanswm | *16* | 1 | *13* | 9 |
| Taliadau ofer a cholledion mewn effaith | *15* | 1 | *11* | 9 |
| Hawliadau y rhoddwyd gorau iddynt | *1* | - | - | - |
| Colledion tâl, lwfansau a buddion blwydd-daliadau | - | - | *2* | - |

### (b) Taliadau arbennig

| | 2010-11 | | | 2009-10 |
|---|---|---|---|---|
| | ***Nifer yr achosion*** | **Gwerth £'000** | ***Nifer yr achosion*** | **Gwerth £'000** |
| Cyfanswm | *19* | 36 | *2* | 17 |
| Iawndal | *19* | 36 | - | - |
| Ex-gratia | - | - | *1** | 1 |
| Tâl diswyddo arbennig | - | - | *1* | 16 |

## 22. Trafodion â phartïon cysylltiedig

Mae'r Comisiwn yn cynnal nifer o drafodion â Llywodraeth Cynulliad Cymru ac adrannau eraill y llywodraeth a chyrff cyhoeddus, gan gynnwys Cyllid a Thollau EM. Yn ogystal â hyn, mae'n cynnal trafodion rheolaidd â Chynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad, gweler nodyn 6b. Yn ôl Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru mae'n ofynnol i'r Cynulliad, ar sail cynnig gan y Comisiwn, ethol Ymddiriedolwyr i Gynllun Pensiwn yr Aelodau.

Gall y Cynulliad roi cyfarwyddyd arbennig neu gyffredinol i'r Comisiwn at ddibenion, neu yng nghyswllt, arfer swyddogaethau Comisiwn y Cynulliad.



Cynulliad
Cenedlaethol
**Cymru**

National
Assembly for
**Wales**